Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Rhagfyr 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPlant@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddPlant**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru):
## Adroddiad Cyfnod 1

Rhagfyr 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru



**Cefin Campbell AS**
Plaid Cymru



**Gareth Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Vaughan Gething AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS ***
Llafur Cymru

* Mae Carolyn Thomas AS yn aelod o'r Pwyllgor ond ni chymerodd ran yn y gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil hwn.

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Lesley Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Jack Sargeant AS**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn yn bresennol yn unol â Rheol Sefydlog 17.49 yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Heledd Fychan AS ***
Plaid Cymru



**Lee Waters AS ***
Llafur Cymru

* Heledd Fychan AS a Lee Waters AS, aelodau o'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **6**

**1. Cyflwyniad** .......... **8**

Ein dull ni .......... 8

Trafodaethau pwyllgorau eraill ar y Bil .......... 10

**2. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth** .......... **11**

Y cefndir .......... 11

Amcanion polisi .......... 12

Yr angen am ddeddfwriaeth .......... 13

Egwyddorion cyffredinol .......... 15

Ein barn ni .......... 18

**3. Materion o ran y gweithlu a chapasiti** .......... **20**

Effaith y Bil ar y gweithlu .......... 23

Cynllunio'r gweithlu .......... 26

Capasiti Cymraeg presennol o fewn y gweithlu .......... 32

Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon .......... 38

Ein barn ni .......... 41

**4. Rhan 1: Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg** .......... **46**

Y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg .......... 46

Adolygu safonau'r Gymraeg .......... 53

Ein barn ni .......... 54

**5. Rhan 2: Disgrifio gallu yn y Gymraeg** .......... **56**

Y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd .......... 56

Ein barn ni ... 67

**6. Rhan 3: Addysg Gymraeg ... 69**

Diffiniadau ... 69

Categorïau iaith ... 73

Y categori ysgolion 'Cymraeg – Prif Iaith' ... 78

Y categori ysgolion 'Dwy iaith' ... 84

Y categori ysgolion 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg' ... 85

Nodau dysgu Cymraeg ... 91

Cynnydd ieithyddol ... 96

Cynlluniau Cyflawni Addysg Gymraeg ... 97

Esemptiadau ... 104

Ysgolion arbennig ... 109

Addysg drochi hwyr ... 112

Ein barn ni ... 114

**7. Rhan 4: Cynllunio Addysg a Dysgu Cymraeg ... 120**

Y Fframwaith Cenedlaethol ... 120

Cynlluniau lleol ... 129

Diffiniadau ... 138

Ein barn ni ... 138

**8. Rhan 5: Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol ... 141**

Ein barn ni ... 153

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ... 155**

**Atodiad 2: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ... 158**

Gwybodaeth Ychwanegol ... 159

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru. Ond a yw pawb yn cael cyfle i siarad, i ddefnyddio ac i ddysgu'r iaith? Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac eto mae canlyniadau diweddar y Cyfrifiad yn awgrymu bod gostyngiad wedi bod yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg.

Mae gan addysg ran hollbwysig i'w chwarae o ran cefnogi datblygiad yr iaith. Yn y sector ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae camau breision wedi eu cymryd. Mae'n amlwg mai mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, lle mae'r plant yn cael eu trochi yn yr iaith, yw'r llwybr gorau er mwyn iddynt ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mae'r darlun mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy cymysg. Mae'r Bil hwn yn ceisio cynyddu a gwella canlyniadau o ran y Gymraeg i bob plentyn, ond yn enwedig y rhai sydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hefyd yn ceisio newid y ffordd y caiff hyn ei reoli'n strategol ledled Cymru, ac ar lefel awdurdodau lleol ac ysgolion.

Rydym yn cefnogi dull gweithredu cyffredinol y Bil, ac rydym o'r farn y bydd yn offeryn pwysig er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr. Ond mae'n uchelgeisiol, a bydd yn gofyn am gryn ymdrech gan bawb yn y system addysg, o Lywodraeth Cymru, i'r awdurdodau lleol, ac i bob ysgol yng Nghymru.

Yn bwysicach na dim, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gennym y gweithlu ledled Cymru i wireddu'r uchelgeisiau hyn. Gwyddom nad dyna fel y mae hi ar hyn o bryd, ac er bod Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hyn, mae angen gwneud mwy.

Rydym yn croesawu'r Bil hwn ac yn cytuno ar ei egwyddorion cyffredinol. Edrychwn ymlaen at barhau i graffu ar y Bil os bydd y Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol.

**Buffy Williams AS**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Bod y Senedd yn derbyn egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). .......... Tudalen 19

**Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyflwyno Asesiad Effaith manylach o'r gweithlu. Dylid datblygu hwn drwy ymgysylltu â'r sector addysg, a'i gynrychiolwyr o'r gweithlu, mewn ffordd ystyrlon. Dylid defnyddio'r Asesiad hwn wrth ddatblygu Cynllun y Gweithlu ac yna dylid ei ddiweddaru yng ngoleuni Cynllun y Gweithlu. (Gweler Argymhelliad 3). .......... Tudalen 42

**Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r dull deddfwriaethol mwyaf priodol i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cynllun gweithlu addysg statudol sy'n cynnwys targedau, ac amserlen, ar gyfer recriwtio a chadw. Dylai'r cynllun gweithlu hwn gwmpasu pob agwedd ar y gweithlu addysg, gan edrych yn benodol ar feysydd lle mae prinder, yn ogystal â'r angen tebygol yn y dyfodol, a'r ffyrdd yr eir i'r afael â'r angen hwn. Dylai ystyried yr amrywiadau ledled Cymru. .......... Tudalen 44

**Argymhelliad 4.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn ceisio sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gliriach yn y diffiniad o addysg Gymraeg. .......... Tudalen 115

**Argymhelliad 5.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o eglurder am bob un o'r categorïau iaith, yn enwedig y swm tebygol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y categorïau ysgolion 'Prif Iaith – Cymraeg' ac ysgolion 'Dwy Iaith'. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru hefyd roi mwy o eglurder o ran yr hyn y mae'r categori ysgol 'Dwy Iaith' yn ei olygu. Yn ogystal, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried y dystiolaeth a'r safbwyntiau a glywsom yn galw am gategori ychwanegol i adlewyrchu'r categori 3P anstatudol presennol. .......... Tudalen 116

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir pa weithgareddau ysgol a fyddai'n cyfrif tuag at gyrraedd yr isafswm o 10 y cant o ddarpariaeth Gymraeg. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi a yw'n dal i fwriadu cynyddu'r swm o addysg a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i addysgu'r Gymraeg fel pwnc. .......... Tudalen 117

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a ellir ymgorffori'r Cynlluniau Cyflawni Addysg Gymraeg yn y Cynlluniau Datblygu Ysgolion presennol, neu a fydd rhaid i ysgolion lunio cynlluniau annibynnol ar wahân. .......... Tudalen 118

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl y sector addysg drydyddol er mwyn cyflawni'r Fframwaith Cenedlaethol. Wrth wneud hynny, dylai nodi pa rôl y bydd Medr yn ei chwarae. Gellid gwneud hyn ym Memorandwm Esboniadol y Bil. ........ Tudalen 138

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir diwygio'r Bil i gynnwys addysg drydyddol yn y diffiniad o addysg Gymraeg at ddiben y Fframwaith Cenedlaethol. ........ Tudalen 139

**Argymhelliad 10.** Bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau darpariaethau'r Bil ar Gynlluniau Strategol Lleol i sicrhau eu bod yn ystyried gwasanaethau ieuenctid a mecanweithiau eraill i annog cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. ........ Tudalen 139

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ynghylch rôl yr Athrofa Genedlaethol yng nghyd-destun y sector addysg drydyddol ehangach, yn enwedig sut y bydd rolau Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Athrofa Genedlaethol yn rhyngweithio........ Tudalen 154

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil ym mis Gorffennaf 2024. Roedd ein gwaith craffu yn cynnwys clywed tystiolaeth lafar, casglu tystiolaeth ysgrifenedig ac ymgysylltu â dinasyddion. Bu ein Pwyllgor ni yn canolbwyntio ar agweddau'r Bil sy'n ymwneud â pholisi a bu pwyllgorau eraill y Senedd yn edrych yn benodol ar agweddau ariannol a chyfansoddiadol y Bil.

**1.** Ar 15 Gorffennaf 2024, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ("y Bil")[1], a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.[2] Cyhoeddwyd hefyd Ddatganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth.[3]

**2.** Ar 16 Gorffennaf 2024, gwnaeth Eluned Morgan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar gyflwyno'r Bil.[4] Ar 17 Medi 2024, ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Llywydd i roi gwybod mai'r Aelod sy'n Gyfrifol bellach oedd Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ("yr Ysgrifennydd Cabinet").[5]

**3.** Ar 25 Mehefin 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil at ein Pwyllgor ni i ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil. Ar 9 Gorffennaf 2024, cytunwyd y dylem gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 13 Rhagfyr 2024.[6]

## Ein dull ni

**4.** Ar 17 Gorffennaf 2024, gwnaethom gytuno ar ein dull o graffu, gan gynnwys y cylch gorchwyl.

[1] Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), fel y'i cyflwynwyd ar 15 Gorffennaf 2024
[2] Llywodraeth Cymru, y Memorandwm Esboniadol, fel y'i cyflwynwyd ar 15 Gorffennaf 2024
[3] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn, 15 Gorffennaf 2024
[4] Ymddiswyddodd Jeremy Miles AS o'r Cabinet ar 16 Gorffennaf 2024.
[5] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog at y Llywydd, yr Aelod sy'n Gyfrifol, Bil y Llywodraeth, 17 Medi 2024
[6] Y Pwyllgor Busnes, yr amserlen ar gyfer ystyried Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), Gorffennaf 2024

Cylch gorchwyl

Egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir. Wrth ffurfio barn ar y mater hwn, efallai y byddwch am ystyried Rhannau unigol o'r Bil:

o Rhan 1: Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg

o Rhan 2: Disgrifio gallu yn y Gymraeg

o Rhan 3: Addysg Gymraeg

o Rhan 4: Cynllunio Addysg a Dysgu Cymraeg

o Rhan 5: Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

o Rhan 6: Cyffredinol

Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil yn eu hystyried (gan gynnwys cychwyn a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig)

Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)

Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'u nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)

Materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

A oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil; ac

Unrhyw fater yn ymwneud ag ansawdd y ddeddfwriaeth.

**5.** Er bod y Bil wedi cael ei gyfeirio at ein Pwyllgor ni, roeddem yn ymwybodol y byddai gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ("y Pwyllgor Diwylliant") ddiddordeb brwd yn y Bil. Felly, fe'i gwahoddwyd i gymryd rhan yn ein gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1.[7] Cytunodd y Pwyllgor Diwylliant i anfon dau Aelod, sef Heledd Fychan AS a Lee

[7] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ("y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg") at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ("y Pwyllgor Diwylliant), Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 5 Awst 2024

Waters AS i gymryd rhan yn ein gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1.[8] Rydym yn ddiolchgar iddynt am eu hamser a'u cyfraniad i'n gwaith.

**6.** Lansiwyd yr ymgynghoriad ysgrifenedig ar 18 Gorffennaf, a daeth i ben ddydd Gwener 11 Hydref. Daeth 32 o ymatebion i law. Mae manylion y rhai a ymatebodd ar gael yn Atodiad 2. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Pwyllgor.

**7.** Cawsom sesiwn friffio dechnegol breifat gan Lywodraeth Cymru ar 17 Gorffennaf. Gwnaethom gynnal 16 sesiwn tystiolaeth lafar rhwng mis Medi a mis Hydref. Mae'r manylion ar gael yn Atodiad 1.

**8.** Roeddem am ymgymryd â rhywfaint o waith ymgysylltu â dinasyddion, er gwaethaf yr amser cyfyngedig a oedd ar gael ar gyfer hyn yn yr amserlenni ar gyfer craffu ar y Bill. Felly, gwnaethom rywfaint o waith ymgysylltu ar raddfa fach. Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol 2024 ym Mhontypridd, cynhaliwyd sesiwn galw heibio lle gallai pobl rannu eu syniadau. Cyhoeddwyd nodyn cryno gennym o'r gwaith ymgysylltu hwn.[9] Gwnaethom hefyd gynnal arolwg i geisio barn plant a phobl ifanc mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru am eu profiadau o ddysgu Cymraeg. Rydym wedi cyhoeddi dadansoddiad o'r canfyddiadau hyn.[10]

## Trafodaethau pwyllgorau eraill ar y Bil

**9.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar 23 Hydref 2024. Cyhoeddodd y Pwyllgor hwnnw ei adroddiad ar 13 Rhagfyr 2024.

**10.** Clywodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar 21 Hydref 2024. Cyhoeddodd y Pwyllgor hwnnw ei adroddiad ar 10 Rhagfyr 2024.

[8] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant at Gadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 13 Medi 2024
[9] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Crynodeb ymgysylltu – yr Eisteddfod Genedlaethol, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 30 Medi 2024
[10] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), Canfyddiadau arolwg, Hydref 2024

# 2. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Mae cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol y Bil, er bod llawer yn pryderu am weithredu'r rhain. Roedd barn pobl yn amrywio o ran pa mor feiddgar yw'r ddeddfwriaeth. Credwn fod achos cryf wedi'i gyflwyno o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth.

## Y cefndir

**11.** Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth y Gymraeg, "Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr." Gosododd y strategaeth ddau darged cyffredinol:

> "• *Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.*
>
> • *Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.*"

Mae gan strategaeth Cymraeg 2050 hefyd amcanion penodol o ran addysg gan gynnwys:

- cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22 y cant yn 2015/16 i 30 y cant erbyn 2031, ac yna i 40 y cant erbyn 2050;
- gweddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny'n gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.
- cynyddu nifer yr athrawon cynradd ac uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (a nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc); a

- diwygio'r cynnig addysg a sgiliau ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.[11]

**12.** Yn ei Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd yn 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i "ddeddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth mewn addysg Gymraeg."[12] Roedd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru a oedd ar waith rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mai 2024 yn cynnwys yr ymrwymiad a ganlyn:

> *"Cyflwyno Bil Addysg y Gymraeg, a fydd, ynghyd â gwaith anneddfwriaethol mwy uniongyrchol, yn cryfhau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg; yn pennu uchelgeisiau a chymhellion newydd i ehangu cyfran y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg; yn sefydlu un continwwm dysgu Cymraeg a'i weithredu; yn galluogi ysgolion presennol i symud i gategori Cymraeg uwch ac yn ysgogi cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob lleoliad addysg."*[13]

## Amcanion polisi

**13.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai "prif amcan" y Bil yw cyfrannu at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy sicrhau bod "pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, o leiaf." Y nod hirdymor yw y bydd disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel B2 o'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd ("y Fframwaith Ewropeaidd") mewn sgiliau llafar.[14] I gychwyn, fodd bynnag, y nod yw y bydd disgyblion mewn ysgolion yn y categori 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg' yn cyrraedd A1 / A2.

**14.** Yn Atodlen 1 i'r Bil, amlinellir y lefelau gwahanol o allu yn y Gymraeg, gan nodi bod A1/A2 yn dynodi "Defnyddiwr Cymraeg sylfaenol", sef rhywun sy'n gallu deall dywediadau sy'n cael eu defnyddio'n aml a chyfathrebu mewn ffordd syml. Nodir bod B1/B2 yn dynodi "Defnyddiwr Cymraeg annibynnol", sef rhywun all gyfathrebu'n fwy rhugl. Nodir bod C1/C2 yn dynodi "Defnyddiwr Cymraeg hyfedr", sef rhywun sy'n rhugl iawn.

**15.** Mae'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn gwneud nifer o bethau, gan gynnwys:

[11] Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, 10 Gorffennaf 2017
[12] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu - diweddariad, 7 Rhagfyr 2012
[13] Llywodraeth Cymru, Cytundeb Cydweithio, Gorffennaf 2021
[14] Llywodraeth Cymru, y Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1, Gorffennaf 2024

- Pennu targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a phennu targedau eraill ar sail statudol.
- Sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg, drwy god statudol, a fydd wedi ei seilio ar y Fframwaith Ewropeaidd.
- Dynodi tri chategori o ysgolion yn seiliedig ar y swm o addysg Gymraeg a ddarperir, a phennu nodau Cymraeg ar gyfer pob un o'r categorïau hyn.
- Cysylltu'r gwaith cynllunio ieithyddol a wneir ar lefel genedlaethol, ar lefel leol, ac ar lefel ysgol.
- Sefydlu corff statudol, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol ("yr Athrofa Genedlaethol"), a fydd yn gyfrifol am gefnogi pobl o bob oedran i ddysgu Cymraeg.[15]

**16.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod "gan y system addysg rôl annatod i'w chwarae" wrth gyflawni'r targed o sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae cyflawni'r targed hwn yn golygu cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg a hefyd gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion Saesneg a dwyieithog.[16]

## Yr angen am ddeddfwriaeth

**17.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "nad y Bil hwn yw'r man cychwyn" ond mai dyma'r "cam naturiol nesaf" wrth wireddu uchelgeisiau strategaeth Cymraeg 2050. Mae hefyd yn cydnabod mai "un rhan o ddarlun ehangach" yw'r Bil sy'n amlinellu camau "hollbwysig" eraill sy'n angenrheidiol. Mae'r rhain yn cynnwys is-ddeddfwriaeth sy'n llifo o'r Bil, camau anneddfwriaethol i gynyddu capasiti'r gweithlu addysg a phennu targedau uchelgeisiol.[17]

**18.** Ers cyflwyno'r Bil, cyhoeddodd Comisiwn Cymunedau Cymraeg Llywodraeth Cymru ei adroddiad yn dweud mai addysg yw'r "maes polisi mwyaf dylanwadol o ran creu siaradwyr newydd." Dywedodd y Comisiwn "n[a]d oes yr un maes polisi arall yn cael cymaint o ddylanwad ar alluoedd ac arferion ieithyddol."[18]

**19.** Roedd y canlynol ymhlith y rhai eraill a dynnodd sylw at y rôl bwysig y bydd addysg yn ei chwarae:

[15] Llywodraeth Cymru, y Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.4, Gorffennaf 2024
[16] Llywodraeth Cymru, y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.4-3.5, Gorffennaf 2024
[17] Llywodraeth Cymru, y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.13-3.15, Gorffennaf 2024
[18] Comisiwn Cymunedau Cymraeg, Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg, 8 Awst 2024

- CYDAG;[19]
- Cymdeithas yr Iaith;[20]
- Estyn;[21]
- Medr;[22]
- Mudiad Meithrin;[23]
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT);[24]
- yr Athro Enlli Thomas;[25]
- TUC Cymru;[26] ac
- UCAC.[27]

**20.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod rhaid i'r system addysg fod wrth wraidd yr ymdrech i gyflawni'r targed.[28]

**21.** Roedd rhanddeiliaid yn gyffredinol yn cytuno bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn angenrheidiol gan ddweud bod ganddo'r potensial i "wneud cyfraniad sylweddol" tuag at gyflawni strategaeth Cymraeg 2050.[29] Roedd eraill a oedd hefyd yn cytuno bod angen deddfwriaeth yn cynnwys:

- CCAC ac CLlLC;[30]
- y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;[31]
- CYDAG;[32]

[19] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 222
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[21] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 2.1
[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 1.3
[24] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 12
[25] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 116
[26] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 27, TUC Cymru (Saesneg yn unig)
[27] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 1.1
[28] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 203
[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 1.1
[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC a CLlLC
[31] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 1.1
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.1.1

- Estyn;[33]
- Golingo;[34]
- yr Athro Enlli Thomas;[35]
- RhAG;[36]
- y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;[37] ac
- UCAC[38].

**22.** Dywedodd yr Athro Enlli Thomas fod y "cynsail deddfwriaethol cadarn sydd o amgylch y Bil" yn golygu ei bod yn debygol y byddai gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei "hystyried o ddifri ac yn cael ei chyd-berchnogi" gan bawb, gan gynnwys llywodraeth leol, addysg a theuluoedd.[39] Rhannwyd y farn honno gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a oedd yn teimlo y byddai'n "gosod sail" ar gyfer y math o gydweithio sydd ei angen.[40]

**23.** Roedd RhAG o'r farn bod cysylltu addysg a'r Gymraeg yn y gyfraith yn creu "cyfleoedd gwirioneddol i osod mewn cyfraith y gallu i gynllunio'n fwriadus dros ddatblygiad pellach addysg Gymraeg."[41]

## Egwyddorion cyffredinol

**24.** Ar y cyfan, roedd cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol y Bil, er bod rhai rhanddeiliaid wedi codi nifer o faterion gan gynnwys:

- pryderon ynghylch gweithredu, yn enwedig ynghylch adnoddau ariannol a staffio;
- perthnasedd y Fframwaith Ewropeaidd mewn cyd-destun Cymreig;
- y diffiniad a ddefnyddir yn y Bil i ddisgrifio addysg Gymraeg;
- ehangder y categori "Prif Iaith – Cymraeg;"

[33] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[34] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 25, Golingo (Saesneg yn unig)
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor
[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraffau 1.7 a 2.1
[37] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 13
[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 1.4
[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 1.1
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraffau 1.7 a 2.1

- y meysydd sydd ar goll o'r Bil sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag addysg, megis y sector blynyddoedd cynnar, a theithio gan ddysgwyr;
- sut y mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn berthnasol i'r sector addysg ôl-16;
- rôl y sector addysg ôl-16 a sut y bydd yn rhyngweithio â'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
- cysylltiadau rhwng addysg orfodol a dewisiadau addysg ôl-16; a
- phwysigrwydd trosglwyddo cymunedol, a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i leoliadau ysgol.

Rydym yn ystyried y materion hyn yn fanylach drwy gydol yr adroddiad hwn.

**25.** Un o'r materion y gwnaethom ei ystyried oedd uchelgais y Bil. I rai, fel Comisiynydd y Gymraeg, mae'n ddatblygiad "cyffrous … a hollbwysig …"[42] Dywedodd fod y Bil yn cynrychioli "trobwynt hanesyddol" a'i fod yn cynnwys "mecanweithiau deddfwriaethol pwerus".[43] Dywedodd UCAC fod y Bil yn "drobwynt allweddol."[44] Dywedodd yr Athro Enlli Thomas ei fod yn "bellgyrhaeddol ac arloesol." Ychwanegodd "os cawn ni hwn yn iawn, yna mae gennym ni gyfle euraid … i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu ac yn gynaliadwy."[45]

**26.** Dywedodd UCAC fod yr uchelgais o gael pob disgybl diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol yn "[g]lodwiw ac uchelgeisiol."[46] Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod y Bil yn gam sylweddol tuag at adfywio'r Gymraeg[47] a disgrifiodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hyn hefyd fel "cam sylweddol… ymlaen".[48] Dywedodd TUC Cymru fod nodau'r Bil yn uchelgeisiol,[49] a dyma hefyd a ddywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.[50] Dywedodd Estyn y bydd y Bil yn "yn bwerus wrth symud yr agenda yn ei blaen."[51]

---

[42] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 8
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraffau 1.4-1.5
[44] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 148
[45] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 116
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 1.1
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 15, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (Saesneg yn unig)
[48] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 10
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 27, TUC Cymru (Saesneg yn unig)
[50] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 13
[51] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 258

**27.** Fodd bynnag, i eraill nid oedd yn ddigon uchelgeisiol. Er bod Cymdeithas yr Iaith yn croesawu'r Bil, roedd am weld "newidiadau sylweddol" yn cael eu gwneud iddo.[52]

> *"Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, o bob cefndir, a dylai fod hawl gan bawb i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Ni fydd y Bil ar ei ffurf bresennol yn cyflawni hynny, hyd yn oed yn y tymor hir."*

Gofynnodd y Gymdeithas am ychwanegu dyletswydd statudol i'r Bil i bob ysgol ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn y pen draw. Er gwaethaf "bwriadau da" Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gymdeithas ei bod yn pryderu y byddai'r Bil mewn gwirionedd yn "cynnal y status quo." Nodwyd data Cyfrifiad 2021 a ddangosodd ostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg, a'r lefelau isel o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio yn y cartref, fel ffactorau sydd wrth wraidd ei galwadau am ddull mwy uchelgeisiol.[53]

**28.** Dywedodd RhAG, er bod "yna symud ymlaen amlwg wedi digwydd" yn y Bil, fod yna "lithro yn ôl mewn mannau." Dywedodd y dylai'r egwyddor o gael "mynediad diofyn at addysg cyfrwng Cymraeg" fod yn ganolog i'r Bil.[54]

**29.** I eraill, mae'r Bil yn rhy uchelgeisiol neu nid ydynt yn teimlo bod yr amser yn iawn. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (ASCL Cymru) ei bod yn cefnogi datblygiad y Gymraeg mewn addysg ond nad yw'n cefnogi cyflwyno'r Bil ar hyn o bryd. Y rhesymau a roddwyd am hyn oedd pwysau ariannol, pwysau o ran y gweithlu a phwysau o ran llwyth gwaith ar draws y system.[55] (Byddwn yn edrych ar yr agweddau hyn yn fanylach yn y Bennod nesaf.)

**30.** Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru yn gefnogol i uchelgeisiau'r Bil ond yn bryderus am eu gweithredu, yn enwedig y disgwyliadau sydd ar ysgolion i gyflawni. Dywedodd nad oedd yn gallu cefnogi'r Bil ar hyn o bryd gan nad oedd yn glir beth fyddai'r effaith ar ysgolion a'r gweithlu.[56]

**31.** Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn cydnabod y sbectrwm o safbwyntiau ar y Bil, ond dywedodd wrthym ei fod yn taro cydbwysedd synhwyrol. Nododd yn glir

---

[52] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 336
[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[54] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 2.1
[55] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 3 (Saesneg yn unig)
[56] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 12

fod gan y Bil nod uchelgeisiol iawn wrth wraidd y cyfan.[57] Nid oedd yn cytuno nad oedd gan y Bil uchelgais, gan ddweud bod y nodau'n radical ac yn uchelgeisiol.[58]

**32.** Wrth ymateb i'r farn bod y Bil yn rhy uchelgeisiol, pwysleisiodd natur gynyddrannol y daith uchelgeisiol iawn:

> *"… it is a journey, and the journey is designed to be incremental, and to be flexible, to enable people to come on that journey with us. And it's a journey that extends well over a decade. For those mainly English-medium schools, who apply for and obtain two extensions to the time period that is allowed in the Bill for achieving a 10 per cent minimum, that is 2033. So, it's well over a decade that schools will have to reach the ambitious targets that the Bill lays out.*
>
> *And along that journey, there will be a series of milestones that are particularly designed to help those who will find themselves discharging the obligations of the Bill in the classroom. So, the journey begins with the production of a code, which has to be produced by the Welsh Government by July 2026. The athrofa comes into being in July 2027. The national framework is produced in July and August of 2027. The Welsh in education strategic plans are in 2028. And it's August 2029 before any headteacher has to do anything at all under the terms of this Bill. That is five years from the Bill to the actual school delivery plans having to be prepared—and that's not executed, that's prepared. There is a further year before they will have to be put into practice."*[59]

Yn sgil hynny, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei fod yn credu bod y Bil yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng y gwahanol safbwyntiau.[60]

## Ein barn ni

**33.** Mae cefnogaeth amlwg ac eang i egwyddorion cyffredinol y Bil. Ond rydym yn cydnabod bod y Bil yn rhy uchelgeisiol i rai ar hyn o bryd, oherwydd capasiti'r gweithlu a chyfyngiadau ariannol, ond nad yw'n mynd yn ddigon pell i eraill. Rhwng y safbwyntiau hyn, roedd cytundeb cyffredinol.

[57] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 5
[58] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 8
[59] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 6-7
[60] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 8

**34.** Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, ac yn credu y dylai'r Senedd gytuno arnynt. Credwn y byddai'r Bil yn elwa o well eglurder, a bod angen gwneud mwy o waith o ran sut y caiff ei weithredu, yn enwedig mewn perthynas â'r gweithlu. Byddwn yn ystyried yr holl faterion hyn yn fanylach drwy gydol yr adroddiad.

**Argymhelliad 1.** Bod y Senedd yn derbyn egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

**35.** Mae'r Bil yn uchelgeisiol, ac mae angen iddo fod i gyflawni strategaeth Cymraeg 2050. Mae'n gofyn llawer gan bawb sy'n gysylltiedig, o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, ac yn benodol, ysgolion a'r gweithlu addysg. Drwy nodi'n glir beth yw'r uchelgeisiau a chreu'r targedau a'r fframweithiau statudol, credwn ei fod yn gyfle euraidd i wneud y newid sylweddol sydd ei angen i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

**36.** Er mwyn cyflawni hyn, fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth Cymru gefnogi'r ymrwymiad deddfwriaethol hwn yn ariannol a thrwy ddulliau eraill. Mae hwn yn ymrwymiad y bydd angen i lywodraethau'r dyfodol ei wneud yn ogystal â Llywodraeth bresennol Cymru. Mae gosod yr ymrwymiad hwn mewn deddfwriaeth yn ei gwneud yn fwy tebygol y caiff ei gynnal. Bydd yn cymryd llawer mwy o amser nag un tymor seneddol i gyrraedd y man lle rydym i gyd yn cytuno bod angen inni fod. Dyna pam ei bod yn bwysig ymgorffori'r ymrwymiad hwn mewn deddfwriaeth, yn ogystal â chreu fframweithiau a phrosesau statudol a fydd yn helpu i sicrhau'r ymrwymiad.

**37.** Nid dyma'r tro cyntaf i addysg gael ei defnyddio fel dull allweddol i gyflawni nodau polisi ehangach, ac mae'n annhebygol o fod y tro olaf. Mae hyn yn amlygu rôl hynod bwysig ysgolion yn hyn o beth. Nid yn unig o ran darparu addysg o ansawdd uchel, ond hefyd eu rôl ehangach o ran bywyd eu dysgwyr, eu gweithlu a'r gymuned ehangach. Ond rhaid inni gydnabod bod y rolau ehangach hyn yn arwain at ganlyniadau ehangach i'r system addysg, yn enwedig o ran rhoi pwysau ar ysgolion unigol, awdurdodau lleol a'r gweithlu addysg. Edrychwn ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu a chapasiti yn y Bennod nesaf.

# 3. Materion o ran y gweithlu a chapasiti

Mae sicrhau'r nifer gywir o staff sydd â'r lefel gywir o sgiliau i gyflawni nodau'r Bil hwn yn hanfodol i'w lwyddiant. Ar hyn o bryd, mae'r gweithlu addysg yn wynebu nifer o heriau, y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau y gellir gweithredu'r Bil hwn. Mae rhai o'r materion hyn y tu allan i gwmpas y Bil.

**38.** Hyd yn oed cyn cyflwyno'r Bil hwn, roeddem yn ymwybodol iawn o faterion yn ymwneud â recriwtio a chadw athrawon. Gwnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am y materion hyn, cyn ymchwiliad posibl. Gofynnwyd yn benodol am gapasiti o ran y Gymraeg. Wrth ymateb, tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at Gynllun 10 mlynedd y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg ("Cynllun y Gweithlu"), a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022. Roedd y cynllun hwn, yn ei barn hi, yn ceisio mynd i'r afael â phedwar mater allweddol:

> *"· Cynyddu nifer yr athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg*
>
> *· Cynyddu nifer y cynorthwywyr addysgu cyfrwng Cymraeg*
>
> *· Meithrin sgiliau Cymraeg pob ymarferydd*
>
> *· Cynyddu'r gallu i arwain yn y sector cyfrwng Cymraeg a datblygu arweinwyr y Gymraeg ym mhob ysgol."*

**39.** Er bod cynnydd yn cael ei wneud wrth gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg, dywedodd ei bod yn "her enfawr o hyd." Bu ffocws arbennig ar recriwtio ar gyfer athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ochr yn ochr â hyn, dywedodd fod gwaith wedi'i wneud i gefnogi "pob ymarferydd i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg." Roedd hi'n cydnabod y byddai'r gweithlu'n "hanfodol i wireddu'r nodau … yn y Bil a bydd y camau yr ydym yn eu cymryd yn cefnogi'r gwaith o'i weithredu."[61]

**40.** Un o'r themâu amlycaf yn ystod ein gwaith casglu tystiolaeth oedd pwysigrwydd y gweithlu wrth weithredu'r Bil yn llwyddiannus a chyflawni'r amcanion polisi.

[61] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Medi 2024

**41.** Dywedodd yr Athro Enlli Thomas fod y gweithlu addysg yn “ganolog i nodau ac amcanion y Bil.”[62] Roedd y canlynol yn cytuno â’r farn hon:

- ASCL Cymru[63];
- ColegauCymru[64];
- Medr[65]; a’r
- Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol[66].

**42.** Dywedodd UCAC “ni ellir pwysleisio digon pa mor allweddol” yw’r gweithlu.[67] Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod uchelgeisiau’r Bil yn “ddibynnol” ar y gweithlu. Dywedodd hefyd y byddai angen “cyflenwad mwy fyth.”[68]

**43.** Dywedodd CYDAG mai materion yn ymwneud â’r gweithlu yw “un o brif heriau, os nad y brif her.” Heb y gweithlu, dywedodd y byddai unrhyw gynlluniau yn “ofer.” Roedd yn pryderu nad oes:

> *“… [c]ydnabyddiaeth llawn o faint yr her, na lefel y buddsoddiad y bydd ei angen er mwyn cyflawni’r naid sylweddol sydd ei hangen er mwyn creu gweithlu cymwys ac addas i gyflawni’r nodau a gyflwynir yn y Bil. Nid ydym ychwaith yn hyderus bod yna ystyriaeth o bob opsiwn a phob ymyrraeth uniongyrchol posibl er mwyn sicrhau’r cynnydd angenrheidiol hwn.”*[69]

Roedd yn teimlo nad oedd recriwtio nac uwchsgilio staff presennol yn cael digon o gydnabyddiaeth yn y Bil.[70]

**44.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg mai’r “rhwystr amlwg” i weithredu’r Bil yn llwyddiannus oedd cynyddu’r gweithlu dwyieithog. Dywedodd na all unrhyw beth “fynd dim pellach na gallu’r gweithlu i gynnig a datblygu eu darpariaeth Gymraeg.”[71] Dywedodd ASCL Cymru fod bodloni strategaeth Cymraeg 2050 yn golygu bod angen cynnydd sylweddol yng nghapasiti’r Gymraeg.[72] Cyfeiriodd

---

[62] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor
[63] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 111
[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 20, ColegauCymru
[65] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 2.6
[66] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 3.2
[67] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.1
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 2.2
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.5.2
[70] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 299
[71] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 2.1
[72] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 10

CCAC ac CLlLC at recriwtio, cadw a hyfforddi staff sydd â sgiliau Cymraeg fel un o'r prif rwystrau o ran gweithredu'r Bil.[73]

**45.** Galwodd Estyn ar Lywodraeth Cymru i "sicrhau bod gweithredu pwrpasol a buan er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion yn y gweithlu addysg."[74] Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg na ddylid "tanamcangyfrif" heriau'r gweithlu.[75]

**46.** Dywedodd Cymdeithas yr Iaith nad yw'r Bil yn "ymdrin mewn ffordd ystyrlon â'r gweithlu" a bod "perygl i hyn danseilio amcanion y Bil yn gyfan gwbl."[76] Roedd RhAG hefyd yn teimlo nad oedd y Bil yn ystyried materion y gweithlu yn "ddigonol."[77] Dywedodd Medr nad oedd y gweithlu yn cael ei "gydnabod ddigon" yn y Bil ac nad oedd yn cydnabod "goblygiadau ariannol" y gofynion hyn chwaith. Gofynnodd am gydnabyddiaeth i hyn yn y Bil.[78]

**47.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, fel gydag agweddau eraill ar y Bil, ei fod wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng "disgwyliadau sy'n rhesymol ond uchelgeisiol hefyd." Roedd yn cydnabod y straen oedd ar y system, ond:

> *"… beth ŷn ni'n trial ei wneud yw ffeindio'r lle ar y sbectrwm yna ble dŷn ni ddim yn colli hyder pobl, dyw pobl ddim yn meddwl, 'O, mae hwn yn amhosibl i wneud, so dŷn ni ddim yn mynd i drial', ond ein bod ni'n cael pethau ble maen nhw yn gweld bydd yn rhaid iddyn nhw wneud mwy, ond pethau sy'n bosibl iddyn nhw eu gwneud gyda'r cymorth mae'r Bil nawr yn mynd i roi i bobl. Ni fydd pob un ddim yn cytuno ein bod ni wedi dod at y pwynt gorau, ond dyna beth rŷn ni wedi trial ei wneud: bod yn rhesymol ac uchelgeisiol ar yr un pryd, a ffeindio'r pethau rŷn ni'n meddwl, gyda help a gydag ymdrech, rŷn ni yn gallu eu gwneud yng Nghymru."*[79]

**48.** Dywedodd mai ei fan cychwyn yw cydnabod mai'r un newid mwyaf y bydd y Bil yn ei wneud i gyflawni ei amcanion yw'r hyn y bydd ei angen o ran y gweithlu.[80]

**49.** Nid oedd yn derbyn bod y Bil yn dawel o ran y gweithlu:

> *"… workforce obligations run all the way through the Bill. There are obligations on Welsh Ministers in producing the national*

[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.18
[78] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 2.6
[79] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 316
[80] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

*framework, of various sorts, to include workforce considerations there. The WESPs will have obligations inside them to deal with these matters. The athrofa is designed to be a focus on developing the workforce; there will be obligations there. Workforce runs like a stick of rock through the whole of the Bill."*[81]

Ond dywedodd ei fod yn cadw meddwl agored am nifer o awgrymiadau wrth gryfhau darpariaethau'r Bil o ran y gweithlu tra'n parhau i bwysleisio bod pob rhan o'r Bil yn ei gynnwys eisoes.[82]

## Effaith y Bil ar y gweithlu

**50.** Mae'r system addysg yng Nghymru wedi bod yn destun newid sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chyflwyniad Cwricwlwm i Gymru a system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) diwygiedig. Rydym wedi bod yn ystyried gweithredu'r ddau yn ein gwaith parhaus ar "Weithredu diwygiadau addysg".

**51.** Mae'r heriau hyn wedi'u gwaethygu gan bandemig COVID-19 a'i effeithiau, yn ogystal â'r heriau ariannol y mae'r holl wasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at y ffaith bod y cyd-destun heriol hwn yn rhoi pwysau cynyddol ar y gweithlu addysg.

- CCAC a CLILC[83];
- ASCL Cymru[84];
- Cymdeithas yr Iaith[85]; a
- TUC Cymru[86].

**52.** Dywedodd NAHT:

*"… 50 per cent of people that come into initial teacher training leave within the first five years. Well, that's a damning indictment of the system. What we need to do is make sure that we promote being a teacher as the best career possible. … We need to make sure that we create the conditions of service where teachers and leaders can thrive, where it is a positive*

[81] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 13
[82] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 14-15
[83] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC c CLILC
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 20 (Saesneg yn unig)
[85] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[86] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 27, TUC Cymru (Saesneg yn unig)

> *experience, where they're allowed to focus on what they went into it for, which is teaching and learning, and not a box-ticking exercise of assessment and accountability. Of course, there must be accountability—we're talking about education—but not overburdensome accountability. If we create the conditions of service, and we do that right, and we start to see an increase in people coming into the profession, that will help, and that's all we can talk about."*[87]

**53.** Roedd nifer o randdeiliaid am weld Asesiad Effaith manwl o'r Gweithlu i gyd-fynd â'r Bil. Yn eu plith roedd:

- ASCL Cymru[88];
- NAHT[89];
- NEU Cymru[90]; a
- TUC Cymru[91].

**54.** Roedd am weld y materion a ganlyn yn cael eu cynnwys mewn asesiad effaith o'r fath:

> *"… the pressures created by the need to cover regular staff absence for training, including availability of supply cover, not adding supply duties to leaders workload, impact on pupils and parental responses to teacher absence; an assessment of the cost of ensuring that all training is fully funded; the workload associated with any tracking and reporting of language progress against targets, both for staff and pupils; the impact on school management in encouraging and supporting staff and pupils; the interplay between this policy and other new initiatives for leadership capacity and overload; and questions about how schools will be held to account and by whom, including mitigation of any unintended consequences or perverse incentives flowing from this."*[92]

[87] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 116
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 17 (Saesneg yn unig)
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 08, NAHT (Saesneg yn unig)
[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 27, TUC Cymru (Saesneg yn unig)
[92] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 08, NAHT (Saesneg yn unig)

**55.** Ar y llaw arall, dywedodd ASCL Cymru y dylai'r asesiad effaith gynnwys y canlynol:

> *"The interventions required to improve Welsh language skills amongst the existing workforce so that they have the level of confidence and skill required for high quality Welsh medium provision*
>
> *· The nature and level of intervention required*
>
> *· The time allocation required to deliver interventions*
>
> *· Appropriate funding for provision*
>
> *As the provision outlined above does not exist within the current workload, directed hours or finances of school, it would be necessary for it to be funded in addition to the current level of schools' allocated financial and time budgets."*[93]

**56.** Dywedodd ASCL Cymru fod angen gwneud yr asesiad effaith ar frys. Dywedodd nad oedd wedi cael ei wneud cyn i'r Bil gael ei gyhoeddi ond bod angen ei wneud ar ôl i hynny ddigwydd.[94] Dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn flaenorol i gynnal asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith cyn cyflwyno Bil neu bolisi newydd.[95]

**57.** Dywedodd TUC Cymru y dylai'r Bil gynnwys gofyniad i ysgolion unigol gynhyrchu asesiadau effaith ar lwyth gwaith mewn perthynas â darpariaethau'r Bil.[96]

**58.** Roedd yr Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil yn cynnwys adran ar "Effaith y Bil ar Lwyth Gwaith Staff Addysg Ysgolion."[97] Ni chafodd yr asesiad effaith hwn ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol.

**59.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pam na chafodd ei gynnwys. Dywedodd ei fod yn asesiad effaith arbrofol ac y defnyddiwyd y Bil i dreialu'r broses. Dywedodd wrthym fod undebau athrawon wedi bod yn ymwneud â'r gwaith o'i baratoi. Roedd hefyd yn disgwyl y byddai fersiynau diweddarach o'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys gwybodaeth bellach am yr asesiad effaith

---

[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 19 (Saesneg yn unig)
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 17 (Saesneg yn unig)
[95] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 230
[96] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 27, TUC Cymru (Saesneg yn unig)
[97] Llywodraeth Cymru, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), Asesiad Effaith Integredig, Gorffennaf 2024, Atodiad F

hwnnw ar lwyth gwaith, a hynny yn sgil sgyrsiau parhaus y mae'r Llywodraeth yn eu cael.[98]

**60.** Roedd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) yn bryderus am faterion ehangach yn ymwneud ag effaith y Bil ar y gweithlu. Roedd am gael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yn gweithio yn erbyn y posibilrwydd y bydd y cynigion yn effeithio'n andwyol ar y gweithlu addysg. Cafodd ei bryderon eu gwaethygu gan y diffyg manylder yn y Bil o ran nifer o faterion, gan gynnwys adnoddau.[99]

**61.** Dywedodd UCAC ei bod yn bwysig bod addysgu yn "apelgar, gyda'r telerau a'r amodau gwaith gorau posibl". Galwodd am "sylw yn ddiymdroi i lwyth gwaith athrawon." Dywedodd ei bod yn "gwbl amlwg" bod athrawon "yn wynebu llwyth gwaith gormodol." Galwodd am gefnogaeth drwy gydol gyrfa athro.[100] Cytunodd CYDAG fod angen gwneud mwy i sicrhau telerau ac amodau teg, yn ogystal â lleihau llwyth gwaith. Dywedodd fod "angen edrych o ddifrif ar y modd y mae'r proffesiwn yn cael ei weld."[101]

**62.** Dywedodd NEU Cymru y byddai angen cynnydd mewn amser di-gyswllt/cynllunio ar gyfer athrawon.[102]

## Cynllunio'r gweithlu

**63.** Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y Cynllun Gweithlu presennol (gweler paragraff 36.) Gwnaeth UCAC gydnabod bod "peth gwaith" wedi ei wneud yn sgil hyn, ond bod angen gwneud mwy, gan hefyd sicrhau bod y camau yn y cynllun "yn cael eu gwireddu."[103] Roedd Estyn hefyd yn gwerthfawrogi'r gwaith oedd wedi dechrau ond dywedodd fod rhaid "adeiladu ar y cynllun." Dywedodd y "bydd angen sicrhau strategaeth glir ar gyfer datblygu gweithlu proffesiynol sydd â'r medrau iaith angenrheidiol."[104]

**64.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y dylid ailedrych ar y Cynllun Gweithlu yng nghyd-destun y Bil. Dywedodd fod angen "datblygu a chyflwyno ymyraethau ar raddfa llawer mwy sylweddol." Er ei bod o'r farn ei bod yn hanfodol sefydlu'r Athrofa Genedlaethol, byddai angen "cyfuno hyn â strategaeth gweithlu addysg

98 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 10-11
99 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 03, NASUWT, paragraffau 4-6 (Saesneg yn unig)
100 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.3
101 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.5.5
102 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
103 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.2
104 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn

genedlaethol a chynhwysfawr sy'n adlewyrchu uchelgais y Bil, ac a fyddai'n rhoi cyd-destun a chyfeiriad clir i waith yr Athrofa a phartneriaid allweddol eraill."[105]

**65.** Roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cytuno â'r Comisiynydd o ran galw am osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru "i lunio a chyhoeddi Cynllun Gweithlu Addysg Gymraeg fel rhan o'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg a Dysgu Cymraeg."[106] Dywedodd fod y Cynllun Gweithlu presennol yn "ddatblygiad pwysig, ond dyw e heb sbarduno'r math o newid sylfaenol sydd ei angen mewn niferoedd … mae angen i rywbeth newid yn fan hyn."[107]

**66.** Galwodd Cyngor y Gweithlu Addysg am adolygu Cynllun y Gweithlu fel bod y camau gweithredu yn "ddigon uchelgeisiol" i gyflawni amcanion y Bil. Credai y byddai cynllun "cynhwysfawr" hefyd yn helpu o ran "rhoi cyd-destun a chyfeiriad clir" i waith yr Athrofa Genedlaethol newydd (gweler Pennod 8), a "phartneriaid allweddol" eraill. Roedd hefyd am weld unrhyw strategaeth "yn adlewyrchu rolau athrawon ar bob lefel", yn enwedig darpariaeth blynyddoedd cynnar.[108]

**67.** Dywedodd Cymdeithas yr Iaith fod Cynllun presennol y Gweithlu yn "gwbl annigonol" a'i fod yn "tanbrisio'n gyfan gwbl faint y dasg o sicrhau gweithlu digonol ar gyfer y dyfodol."[109]

**68.** Nododd llawer o randdeiliaid yr angen syml am fwy o athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a rhai sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Tynnodd Dyfodol i'r Iaith sylw at amcangyfrifon Llywodraeth Cymru ei hun o ran y nifer ychwanegol o athrawon sydd eu hangen:

> *"… 1,000 ychwanegol o athrawon cynradd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031 a 1,300 ychwanegol arall erbyn 2050. Yn y sector uwchradd amcangyfrif y Llywodraeth oedd bod angen 400 o athrawon Cymraeg ychwanegol erbyn 2031 a 300 arall erbyn 2050. Yn ogystal â'r rhain dywed y Llywodraeth fod angen 1,400 ychwanegol o athrawon cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd erbyn 2031 a1,000 arall erbyn 2050."*[110]

**69.** Tynnodd NASUWT Cymru sylw hefyd at y prinder difrifol presennol o athrawon sy'n gallu darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn effeithio ar

[105] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 2.2
[106] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 2.4
[107] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 96
[108] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[109] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[110] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01 Dyfodol i'r Iaith, paragraff 4

weithredu'r Bil. Dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar yr argyfwng staffio enfawr sydd eisoes yn bodoli wrth recriwtio'r rheini sy'n rhugl yn Gymraeg, a hynny ar bob lefel o'r sector addysg (blynyddoedd cynnar i addysg bellach ac addysg uwch). Dywedodd fod recriwtio yn dibynnu ar adnoddau priodol.[111]

**70.** Dywedodd NEU Cymru ei fod wedi gofyn dro ar ôl tro i Lywodraeth Cymru gynnal archwiliad cynhwysfawr o allu gweithwyr addysg proffesiynol o ran y Gymraeg, fel ei fod yn gwybod anghenion recriwtio a hyfforddi'r gweithlu. Heb hyn, dywedodd ei fod yn amhosibl datblygu costau realistig ar gyfer y Bil.[112]

**71.** Pwysleisiodd y Comisiynydd Plant bwysigrwydd corff addysgu amrywiol. Dywedodd fod y "diffyg amrywiaeth ymhlith athrawon sy'n siarad Cymraeg, yn arbennig o ran cynrychiolaeth LHDTC+, unigolion Du, Asiaidd a phobl o leiafrifoedd ethnig, yn bryder sylweddol." Dywedodd fod cael corff addysgu amrywiol yn "allweddol, er mwyn i'r holl fyfyrwyr eu gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn eu haddysgwyr", ac er mwyn i blant deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn yr ysgol. Galwodd am gynlluniau'r gweithlu i "greu ymgyrch recriwtio gwbl gynhwysol a sut bydd profiad bywyd siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg o gymunedau ethnig lleiafrifol yn llywio'r strategaeth honno."[113]

**72.** Nododd nifer o ymatebwyr yr angen am fwy o fuddsoddiad yn y gweithlu, gan gynnwys Mudiad Meithrin[114] ac Estyn.[115] Galwodd Comisiynydd y Gymraeg am "fuddsoddiad sylweddol." Dyma'r "un maes" lle mae gan Weinidogion Cymru y gallu i ymyrryd mewn ffordd "uniongyrchol ac arwyddocaol" er mwyn cyflawni amcanion y Bil a strategaeth Cymraeg 2050.[116]

**73.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan ysgolion "adnoddau a chymorth digonol … yn enwedig mewn ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang. Ni fydd y cyfyngiadau ariannol presennol ar y system yn hwyluso'r amodau ffafriol sy'n angen rheidiol i gyflawni'r targedau uchelgeisiol hyn."[117]

**74.** Galwodd Cymdeithas yr Iaith am "fuddsoddiad sylweddol", gan ddweud ei bod yn credu y byddai angen o leiaf £20 miliwn o fuddsoddiad blynyddol "er

[111] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 03, NASUWT, paragraff 9b (Saesneg yn unig)
[112] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[113] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, Comisiynydd Plant Cymru
[114] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 252
[115] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 295
[116] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 2.1
[117] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg

mwyn dechrau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol."[118] Dywedodd Estyn y byddai angen "ariannu sylweddol" os am gynnig hyfforddiant ieithyddol i athrawon o fewn ysgolion.[119]

**75.** Roedd rhai yn teimlo y byddai cynllun gweithlu statudol, gyda thargedau yn sail i'r cynllun, yn ffordd bwysig o fynd i'r afael â'r materion hyn o ran capasiti. Roedd hyn yn cynnwys Dyfodol i'r Iaith[120] a Chymdeithas yr Iaith.[121]

**76.** Dywedodd Dyfodol i'r Iaith mai "nawr yw'r amser" ar gyfer targedau statudol. Dywedodd fod rhaid iddynt fod yn "greiddiol yn y Bil" os yw am gyrraedd ei dargedau.[122] Galwodd i'r Bil osod targedau ar gyfer:

> *"… (a) Niferoedd athrawon dysgu Cymraeg yn y sector uwchradd*
>
> *(b) Niferoedd athrawon dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector cynradd ac uwchradd*
>
> *(c) Niferoedd gweithlu perthnasol eraill yn y sector cynradd ac uwchradd.*
>
> *Dylai'r targedau hyn fod yn gysylltiedig â*
>
> *(a) Dulliau annog myfyrwyr i astudio ym Mhrifysgolion Cymru*
>
> *(b) Dysgu a gloywi iaith yn rhan annatod o bob cwrs TAR yng Nghymru*
>
> *(c) Ehangu Cynlluniau Sabothol i athrawon i ddysgu'r iaith a/neu ei gloywi."*[123]

**77.** Galwodd Cymdeithas yr Iaith am ddiwygio'r Bil i gynnwys dau darged meintiol ar wyneb y Bil: "cynyddu gallu'r holl weithlu i ddysgu trwy'r Gymraeg dros amser" a chynyddu'r gyfran o "athrawon sy'n hyfforddi i allu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg."[124]

**78.** Dywedodd RhAG nad oedd y Bil yn cynnwys sut y bydd y gweithlu yn cael ei "gynllunio'n strategol". Dywedodd ei bod yn bwysig bod hyn yn amlwg ar wyneb y Bil, fel bod y Fframwaith Cenedlaethol (gweler Pennod 7) a'r Athrofa Genedlaethol (gweler Pennod 8) yn mynd i'r afael â'r bylchau presennol. Dywedodd y dylid diwygio'r Bil "adlewyrchu'r angen i gynllunio cynyddu'r gweithlu mewn modd

[118] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[119] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[120] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01 Dyfodol i'r Iaith, paragraff 4
[121] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[122] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 377
[123] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01 Dyfodol i'r Iaith, paragraff 4
[124] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith

bwriadus. Heb hyn, mi fydd hi'n anodd iawn gweithredu darpariaethau'r Bil hwn."[125]

**79.** Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei bod yn "broblem ddyrys", ond nad yw hyn yn golygu na ddylid ymdrin â hyn mewn modd strategol. Dywedodd y byddai cynllun statudol:

> *"… yng nghyd-destun y fframwaith cenedlaethol, yn sicrhau bod angen i bob rhanddeiliad perthnasol wneud hwn yn flaenoriaeth. Dyna un o'r ffyrdd y gall gwneud hyn yn statudol wneud gwahaniaeth, achos dydy gosod targedau o fewn y fframwaith presennol ddim wedi gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd. Dydy pob rhanddeiliad ddim yn cymryd hwn fel y flaenoriaeth sydd angen iddo fe fod, os yw e'n mynd i lwyddo. Felly, mae edrych yn llawer mwy uchelgeisiol ar holl fater datblygu gweithlu, yn ogystal ag uwchsgilio y gweithlu presennol, fel rŷn ni wedi clywed yn barod, yn allweddol ac yn flaenoriaeth i lwyddiant y Bil yma."*[126]

**80.** Dywedodd Cymdeithas yr Iaith fod angen i unrhyw gynllun gweithlu gynnwys cynorthwywyr addysgu, gan dynnu sylw at y nifer uwch o gynorthwywyr addysgu nag athrawon yn ysgolion Cymru. Dywedodd fod nifer o gynorthwywyr addysgu "yn syrthio tu allan i'r trefniadau arferol o ran hyfforddiant ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdod lleol." Ac eto, dywedodd y byddai llawer o gynorthwywyr addysgu "gyda'r gefnogaeth a'r arweiniad a'r anogaeth, yn gallu dod yn athrawon cyfrwng Cymraeg, ond mae angen y cynllun a'r strategaeth ar gyfer y gweithlu yn ei gyfanrwydd."[127] Tynnodd NASUWT sylw hefyd at bwysigrwydd cynorthwywyr addysgu, ond hefyd staff addysg eraill, gan gynnwys staff ystadau a staff cegin.[128]

**81.** Dywedodd CYDAG fod angen cynlluniau pellach i gyd-fynd â'r Bil sydd:

> *"… yn cydnabod…ac yn mynd ati i ymateb i'r her honno drwy osod y targedau, a sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu mynd ati i gyrraedd y targedau yna o ran uwchsgilio'r gweithlu presennol, ond, ar yr un pryd, ac yn fwy na hynny, byddwn i'n ei ddadlau, creu gweithlu'r dyfodol."*[129]

---

[125] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraffau 3.15 a 3.18
[126] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 97
[127] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 386
[128] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 235
[129] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 298

**82.** Mynegoodd cynrychiolydd CLlLC ei barn bersonol yn hytrach na siarad ar ran CLlLC, gan ddweud nad oedd hi'n credu y dylid cynnwys targedau recriwtio yn y Bil. Dywedodd nad oedd yn credu bod modd eu cyflawni, ac yn yr achos hwnnw, fod yr awdurdodau lleol yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle'u bod yn methu cyn iddynt ddechrau hyd yn oed. Oni bai bod modd cyflawni'r targedau, dywedodd nad oes pwynt eu pennu.[130]

**83.** Amlygodd Cyngor y Gweithlu Addysg y gofynion yn y Fframwaith Cenedlaethol (gweler Pennod 7) i gynnwys asesiad o'r ymarferwyr addysg sydd eu hangen i gyflawni targedau penodol. Roedd angen mwy o eglurder ar hyn o ran "gofynion y gweithlu". Gallai'r ffigurau hyn "helpu nodi unrhyw ofynion am adnoddau ychwanegol i ategu recriwtio, er mwyn lleihau prinder gweithlu a gosod straen ychwanegol ar y gweithlu presennol."[131]

**84.** Atgoffodd CCAC ni fod gan awdurdodau lleol amcanion ar hyn o bryd o fewn y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol ar ddatblygu'r gweithlu addysg. Dywedodd fod y rhain yn "dargedau heriol" y mae rhaid cyflwyno adroddiad arnynt bob blwyddyn. Amlygodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd bwysigrwydd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol mewn perthynas â'i rhaglen gweithlu addysg ei hun.[132]

**85.** Yn ogystal â materion yn y sector ysgolion statudol, nododd rhanddeiliaid bwysigrwydd ystyried y capasiti o fewn naill ai'r sector addysg blynyddoedd cynnar neu'r sector ôl-16 neu'r ddau. Nododd Mudiad Meithrin[133] a NASUWT hyn hefyd.[134]

**86.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd wedi'i argyhoeddi eto o'r dadleuon dros bennu targedau'r gweithlu statudol ar wyneb y Bil. Rhan o'r mater, meddai, yw natur eang ac amrywiol y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen i wireddu uchelgeisiau'r Bil. Dywedodd y bydd yn amrywio o bobl sy'n addysgu iaith a llenyddiaeth Gymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg ar un pen o'r sbectrwm, i bobl a fydd yn cyfrannu at y gofyniad o 10 y cant mewn ysgol 'Prif Iaith – Saesneg,' ac y gallai hyn fod yn athro derbyn. Teimlai y gallai targedau fod yn offeryn bras ac nid oedd wedi'i argyhoeddi y gall un targed adlewyrchu cymhlethdod yr hyn fydd ei angen o'r gweithlu.[135]

---

[130] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 109
[131] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[132] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 95
[133] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 4.9
[134] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 03, NASUWT, paragraff 9b (Saesneg yn unig)
[135] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 20

## Capasiti Cymraeg presennol o fewn y gweithlu

**87.** Soniodd llawer am yr her o recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig mewn pynciau lle mae prinder. Roedd hyn yn cynnwys ASCL Cymru.[136] Disgrifiodd sut y byddai'n cynnal proses recriwtio ac efallai weithiau'n gorfod mynd allan bump neu chwech gwaith am arbenigwr Cymraeg a dal methu creu rhestr fer na recriwtio.[137] Dywedodd ei fod wedi nodi'r broblem o ran recriwtio a chadw, ac er y gwrandewir ar hyn, nad oes dim yn newid.[138]

**88.** Dywedodd NAHT Cymru, yn yr achosion lle mae ysgol yn llwyddo i recriwtio rhywun gyda'r sgiliau hyn, fod hyn yn golygu nad yw'r athro hwnnw ar gael i ddiwallu anghenion ysgol arall.[139] Dywedodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig y byddai'r heriau presennol yn gwaethygu pe bai rhaid cynyddu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.[140]

**89.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg nad oes digon o athrawon na staff cymorth Cymraeg ar gael ar hyn o bryd i gyrraedd nod strategaeth Cymraeg 2050. Dywedodd fod llawer ar ôl i'w wneud o ran ehangu'r gweithlu.[141]

**90.** Dywedodd ASCL Cymru fod recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn hynod gystadleuol, ac nid ym maes addysg yn unig.[142] Cytunodd Cyngor y Gweithlu Addysg.[143]

**91.** Dywedodd ASCL Cymru fod gan y system addysg amrywiaeth o flaenoriaethau y mae'n rhaid iddi eu cefnogi ond dywedodd hefyd:

> *"… for the other targets that we may face, there is a pool of people we can recruit from to maintain those targets. In this case, we can't, and therefore we would have to divert significant resource, significant time to train or to find or identify where these people could come from, and we still wouldn't be secure that we could find them."*[144]

**92.** Dywedodd Estyn y gall recriwtio fod yn fwy heriol mewn ardaloedd penodol yng Nghymru. Gall awdurdodau lleol hefyd wynebu heriau o ran penodi

[136] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL, paragraff 10 (Saesneg yn unig)
[137] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 30
[138] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 43
[139] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 08, NAHT (Saesneg yn unig)
[140] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 22, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig)
[141] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 232
[142] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 23
[143] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 237
[144] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 25

swyddogion sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg.[145] Cytunodd ColegauCymru fod heriau penodol "yn enwedig mewn ardaloedd â niferoedd is o siaradwyr Cymraeg."[146] Dywedodd CCAC, er y bydd yr her yn amrywio ar draws Cymru, ei bod yn parhau i fod yn her hyd yn oed mewn ardaloedd sy'n siarad Cymraeg.[147]

**93.** Dywedodd CCAC ac CLlLC bod heriau penodol o ran recriwtio mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.[148] Dywedodd ASCL Cymru fod yr her o ddod o hyd i athro ffiseg sy'n siarad Cymraeg fel chwilio am ddannedd iâr, hynny yw, nid yw'n bodoli.[149]

**94.** Mae'r prinder capasiti o ran y Gymraeg yn estyn y tu hwnt i athrawon, ac yn cwmpasu cynorthwywyr addysgu hefyd. Rydym yn ymwybodol o rôl hollbwysig cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion. Dywedodd ASCL Cymru y byddai'r Bil yn arwain at gynnydd anochel yn y galw am gynorthwywyr addysgu Cymraeg. Dywedodd fod ffigurau presennol yn dangos bod 20.3 y cant yn gallu siarad Cymraeg, a 17.5 y cant yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd fod cynnydd wedi bod dros bum mlynedd ond bod dal angen recriwtio llawer mwy.[150]

**95.** Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd fod rhywfaint o gapasiti Cymraeg na fanteisiwyd arno mewn ysgolion. Cyfeiriodd Cymdeithas yr Iaith at ystadegau o 2024, a oedd yn nodi, er bod 26.5 y cant o athrawon yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, fod 33 y cant yn gallu siarad Cymraeg. Gallai pontio'r bwlch hwn o 6.5 y cant, gydag "ychydig o fuddsoddi a chefnogaeth", helpu i arwain at "[d]wf cyflym iawn" o ran y gweithlu:

> *"Yn ôl Ystadegau Cymru, mae gallu athrawon o ran y Gymraeg yn y flwyddyn ysgol 2023/24 fel a ganlyn: 24.7% â lefel hyfedr (C1); 6.7% â lefel uwch (B2); 7.7% â lefel ganolradd (B1); 18.7% â lefel sylfaen (A2); 24.3% â lefel mynediad (A1); 17.8% heb unrhyw sgiliau Cymraeg. Yn ôl y ffigyrau yma, mae gan 31.4% eisoes allu i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a 7.7% pellach sgiliau cryf iawn, yn ôl diffiniadau gallu gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol."*[151]

[145] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[146] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 20, ColegauCymru
[147] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 103
[148] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[149] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 43
[150] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 14 (Saesneg yn unig)
[151] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith

Dywedodd Cymdeithas yr Iaith y "gallwn ni adeiladu ar sylfaen llawer iawn cryfach na'r hyn sydd yn cael ei awgrymu."[152]

**96.** Pwysleisiodd ASCL Cymru fod y ffigurau diweddaraf yn dangos dirywiad graddol yn y Gymraeg ers 2020, a hynny o ran athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg.[153] Roedd hefyd yn poeni am athrawon sydd wedi eu hyfforddi mewn pynciau eraill ond sy'n addysgu'r Gymraeg. Dywedodd fod rhinweddau a sgiliau ieithydd yn rhai arbenigol, ac ers 2021 fod nifer yr athrawon Cymraeg mewn ysgolion uwchradd sy'n addysgu ond nad ydynt wedi eu hyfforddi i addysgu'r Gymraeg wedi cynyddu o 25.7 y cant i 27.7 y cant.[154]

**97.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod ei ddata wedi dangos y canlynol am nifer yr athrawon Cymraeg eu hiaith a nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:

> *"… has not changed in 20-odd years. It has not really gone up, it has not really gone down. With the 2050 aspiration, I think that's a key point and it's not an easy one with a ready fix."[155]*

**98.** O ran cyfraddau cadw, dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod cadw athrawon wedi bod yn well na gwledydd eraill yn gyffredinol, yn enwedig Lloegr. Dywedodd fod 75 y cant o garfan 2019 yn dal i fod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor. Dywedodd fod y ganran tua'r un peth, os nad ychydig yn uwch, i'r rhai sy'n siarad Cymraeg neu'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly nid yw'r gyfradd gadw yn waeth mewn gwirionedd.[156] Dywedodd ei bod yn bwysig edrych ar yr hyn sydd wrth wraidd y problemau:

> *"… in the area of recruitment and retention … there needs to be efforts to try and look at the causes and treat the causes of why recruitment and retention may not be where we wish them to be. It's not easy, it's very hard, and you're competing against lots of other attractive professions for graduates. But the areas that come up regularly from the surveys we've done and from trade unions include workload, bureaucracy, accountability, student behaviour, and matters like that. And then it's the perception of*

[152] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 384
[153] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 11 (Saesneg yn unig)
[154] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 13 (Saesneg yn unig)
[155] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 239
[156] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 261

> *what a career into teaching might be, taking on board those sorts of matters …"*[157]

**99.** Mae'r cyfraddau cadw ar gyfer staff cymorth yn wahanol iawn i'r rhai ar gyfer athrawon. Dywedodd nad oedd 40-45 y cant o'r staff cymorth a oedd wedi'u cofrestru yn 2019 bellach wedi'u cofrestru. Dywedodd fod y telerau ac amodau yn cyfrannu at y lefelau trosiant llawer uwch: "Salaries are lower, contracts are not necessarily permanent, term-time working—"[158]

**100.** Mae pwysigrwydd darparu cyfleoedd i staff addysg presennol ddatblygu neu wella eu sgiliau Cymraeg yn bwysig. Dywedodd NEU Cymru ei bod yn hanfodol i staff presennol gael amser y tu allan i'r ystafell ddosbarth i ddysgu, gwella ac ymarfer eu Cymraeg.[159] Dywedodd nad oes modd dibynnu ar gynyddu capasiti Cymraeg drwy athrawon newydd, ac y dylai athrawon presennol a staff cymorth gael y cyfleoedd i ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg.[160] Yn yr un modd, dadleuodd ASCL Cymru y byddai angen rhaglen ddysgu broffesiynol genedlaethol gynhwysfawr.[161]

**101.** Cyfeiriodd Cymdeithas yr Iaith at lwyddiant Catalwnia i:

> *"… gynyddu cyfran yr ysgolion cyfrwng Catalaneg o 3% i bron i 100% mewn 15 mlynedd rhwng 1978 a 1993, er gwaethaf gwaharddiad bron yn llwyr ar addysg Gatalaneg yn ystod cyfnod Franco a phrinder athrawon llythrennog yn yr iaith, trwy fuddsoddi mewn cyrsiau dysgu ar gyfer y gweithlu, sef cyrsiau 'reciclatge' ar gyfer athrawon a oedd mewn gwaith."*[162]

**102.** Roedd Cymdeithas yr Iaith am weld y Bil yn cael ei gryfhau mewn perthynas â hyfforddiant. Dywedodd, os yw'r capasiti o fewn y gweithlu am gael ei gynyddu'n sylweddol, yna bydd angen "peirianwaith cryf ar lefel genedlaethol." Roedd yn galw am "gorff canolog" i fod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth a hyrwyddo hyfforddiant. Dywedodd y gallai'r Athrofa Genedlaethol newydd ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn, ond bod angen ariannu gwaith o'r fath yn ddigonol. Awgrymodd osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru yn y Bil:

> *"… i sicrhau bod adnoddau digonol gan yr Athrofa i ddarparu cyrsiau dwys ar gyfer cynyddu gallu Cymraeg y gweithlu presennol er mwyn cyrraedd amcanion y Bil, a dyletswydd,*

---

[157] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 278
[158] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 262
[159] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[160] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[161] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 20 (Saesneg yn unig)
[162] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith

*cefnogaeth a chymelliannau i'r gyfundrefn addysg ymgymryd â'r ddarpariaeth honno."*[163]

**103.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y byddai sefydlu'r Athrofa yn helpu i fynd i'r afael â'r "mater allweddol o gynllunio cefnogaeth a hyfforddiant ieithyddol i'r gweithlu addysg." Ond dywedodd ei bod yn bwysig "bod digon o'r gweithlu addysg yn ymgymryd â'r hyfforddiant fydd yn cael ei gynllunio, a bod hyn yn digwydd mewn ffordd strategol ac ar raddfa sy'n gyson ag amcanion y Bil."[164]

**104.** Galwodd hefyd am "strategaeth genedlaethol a chynhwysfawr ar gyfer sicrhau hyfforddiant ieithyddol i weithlu addysg y dyfodol." Dywedodd y byddai angen "sicrhau bod adnoddau a chyllid digonol ar gael i gyflawni hyn." Roedd yn debygol y byddai angen cyllid ychwanegol.[165] Roedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cytuno o ran pwysigrwydd sicrhau cyllid ychwanegol i ehangu mynediad at hyfforddiant i staff addysg. Dyma fyddai'r "gost ychwanegol fwyaf" i'r Athrofa Genedlaethol a'i swyddogaethau newydd ym marn y Ganolfan.[166] Dywedodd NEU Cymru fod rhaid i unrhyw hyfforddiant sy'n cael ei gynnig gan yr Athrofa Genedlaethol i staff addysg gael ei ariannu yn llawn gan Lywodraeth Cymru.[167]

**105.** O ran hyfforddiant i athrawon, cytunodd UCAC fod angen "cynllunio hyn yn strategol, cyn gynted â phosibl."[168]

**106.** Tynnodd Comisiynydd y Gymraeg sylw at rôl bwysig bosibl yr Athrofa Genedlaethol wrth "ddatblygu'r deunyddiau a'r adnoddau er mwyn gwella dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion prif iaith Saesneg." Wrth edrych yn ôl ar ei phrofiad ei hun yn y sector addysg i oedolion, dywedodd:

*"… byddai modd, yn eithaf cyflym, datblygu adnoddau gwell i ysgolion a gwell cefnogaeth i ysgolion i ddysgu'r Gymraeg fel pwnc. Dyw e ddim yn gwneud dim synnwyr i fi… fod buddsoddiad helaeth wedi bod mewn datblygu adnoddau i oedolion, ond nad oes dim byd cyfatebol wedi digwydd ar y raddfa honno ar gyfer disgyblion ysgol. Felly, mae yna quick wins yn bosib yn y broses yma."*[169]

[163] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[164] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 2.3
[165] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 5.2
[166] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraffau 6.4-6.5
[167] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[168] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.4
[169] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 74-75

**107.** Bu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ystyried ei gwaith yn y maes hwn. Ar hyn o bryd, mae gan y ganolfan "[r]aglen Dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg" sy'n cael ei hestyn i 2025. Mae hyn yn cynnwys y cyrsiau sabothol presennol. Mae ei rhaglen yn "cyd-fynd" â'r Cynllun Gweithlu presennol.[170] Dywedodd ei bod yn bwysig bod staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant ac yn galw am fwy o eglurder "ar y dull o gyllido'r Awdurdodau Lleol ar gyfer yr amser rhyddhau."[171] Dywedodd fod ei rhaglen yn "hyblyg … ac amrywiol" gydag ystod o wahanol fathau o gyfleoedd.[172]

**108.** Nodwyd y Cynllun Sabothol fel cyfle pwysig i staff presennol wella eu sgiliau Cymraeg. Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fod y cynllun wedi bod yn "arbennig o lwyddiannus."[173]

**109.** Fodd bynnag, dywedodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, er ei fod wedi bod o fudd i staff unigol, nad yw wedi cael yr effaith systematig oherwydd bod sgiliau uwch yn cael eu colli os nad oes digon o siaradwyr Cymraeg o fewn yr ysgol i gynnal ac ehangu'r defnydd o Gymraeg lafar.[174] Cytunodd NAHT, gan ddweud er bod y rhai a gymerodd ran yn y cynllun wedi ei werthfawrogi, nad oes effaith tymor hir iddo.[175]

**110.** Nododd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig rai canlyniadau anfwriadol o'r Cynllun Sabothol o ran cost ariannol a chapasiti'r gweithlu. Dywedodd nad yw'r cynllun yn talu'r gost o ddarparu athrawon cyflenwi. Gall y materion hyn fod yn arbennig o heriol i ysgolion llai.[176]

**111.** Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at yr ystod o raglenni sy'n bodoli i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu addysg presennol. Dywedodd fod cronfa fawr o dalent na fanteisir arni, a nododd fod tua 1,500 o athrawon yn y gweithlu a allai addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ond nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Dywedodd y bydd y Bil yn ceisio defnyddio mwy o'r rheini i wneud y gwaith y mae angen ei wneud. Derbyniodd y byddai angen ymdrech, ond teimlai fod pethau eisoes ar waith ac y bydd y Bil yn gwella'r sefyllfa.[177]

---

[170] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 3.1
[171] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 3.3
[172] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 95
[173] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 95
[174] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 22, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig)
[175] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 08, NAHT (Saesneg yn unig)
[176] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 22, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig)
[177] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 33

**112.** Ar y llaw arall, rhybuddiodd NEU Cymru yn erbyn cymryd yn ganiataol bod athro sy'n siarad Cymraeg yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc, neu yn wir ei fod yn dymuno gwneud hynny.[178] Nododd ASCL Cymru hyn fel rhywbeth sy'n destun pryder hefyd.[179]

**113.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai'r cynllun sabothol oedd y prif beth oedd wrth wraidd ysgogi'r gallu i droi pobl sydd yn y system eisoes yn ymarferwyr ystafell ddosbarth effeithiol.[180] Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn gwario £3.8 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd, ac mai'r ymrwymiad yn y Bil yw bod y lefel honno o gyllid yn parhau, oherwydd bod y Bil yn seiliedig ar y ffaith y bydd y ffrydiau ariannu sydd ar waith ar hyn o bryd yn parhau dros y 10 mlynedd nesaf.[181] Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru fod y cynllun yn cefnogi 120 o athrawon y flwyddyn, a nododd fod un o bob ysgol gynradd wedi manteisio ar y cynllun sabothol yn y pum mlynedd diwethaf yn y de-ddwyrain.[182]

## Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon

**114.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg, o'r nifer a gafodd eu derbyn i gael eu hyfforddi'n athrawon yn 2024, fod tua 20 y cant o'r hyfforddeion ysgolion cynradd a 18 y cant o'r hyfforddeion ysgolion uwchradd yn rhai cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn brin o ddyhead Llywodraeth Cymru am 30 y cant, a dywedodd fod y ffigur wedi bod yn brin ers rhai blynyddoedd.[183] Mae data sy'n mynd yn ôl ymhellach yn dangos mai'r gyfran o athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ers 2020/21 yw tua 20 y cant, a hynny'n dilyn cynnydd yn 2018/19 o 16 y cant i 22 y cant yn 2019/20.[184]

**115.** Daw'r niferoedd hyd yn oed yn is wrth edrych ar bynciau lle mae prinder. Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg am yr athrawon newydd yn 2024:

> *"... we turned out 27 new maths teachers, of which three had their teacher training through the medium of Welsh. Physics was seven in total, of which two had their training through the medium of Welsh."*[185]

[178] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 165 a 167
[179] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 13 (Saesneg yn unig)
[180] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 40
[181] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 52
[182] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 41
[183] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 236
[184] Llywodraeth Cymru (StatsCymru) Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl gallu i addysgu yn y Gymraeg, lefel yr ysgol a blwyddyn
[185] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 242

**116.** Dywedodd ASCL Cymru fod recriwtio i hyfforddiant cychwynnol athrawon yn parhau'n broblem, yn enwedig ar lefel ysgolion uwchradd ac nad yw'n cyrraedd ei dargedau ar hyn o bryd. Nododd nad oedd digon o athrawon yn gwneud cais i hyfforddi mewn pynciau lle mae prinder mewn ysgolion Cymraeg ac i hyfforddi mewn Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.[186] Dywedodd Medr hefyd fod yna frwydr i recriwtio niferoedd digonol i hyfforddiant cychwynnol athrawon.[187]

**117.** Ar hyn o bryd, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu adnoddau ar gyfer addysgu darparwyr hyfforddiant:

> *"… i'w cynorthwyo i gynnwys 35 awr o hyfforddiant dysgu Cymraeg fel rhan o'r cwrs, a hynny ar hyd y continwwm (o A1 i C2). … Credwn fod y cydweithio hyn yn sail i ddatblygiad pellach yn yr Athrofa i integreiddio mwy o ddarpariaeth dysgu Cymraeg, gan gynnwys cyfleoedd dwys, fel rhan annatod o hyfforddi fel athro yng Nghymru ac i sicrhau parhad llyfn i raglen datblygiad proffesiynol y Gweithlu Addysg. Bydd Gweithlu Addysg cymwys o ran y Gymraeg yn allweddol wrth sicrhau llwyddiant y Bil, yn ogystal â gwireddu amcanion Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol."*[188]

**118.** Dywedodd Cymdeithas yr Iaith fod angen trawsnewid hyfforddiant i athrawon fel bod pawb sy'n cwblhau'r hyfforddiant yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid gwneud hyn drwy "ychwanegu cyfnodau o ddysgu Cymraeg dwys i'r cwrs, gan ymestyn y cwrs blwyddyn presennol i hyd at ddwy flynedd yn dibynnu ar sgiliau iaith yr hyfforddeion dan sylw."[189]

**119.** Dywedodd CYDAG fod angen "edrych o ddifrif ar gynnwys llwybrau cymhwyso i fod yn athrawon" a galwodd am ddatblygu sgiliau Cymraeg i fod yn "rhan o gynnwys" cyrsiau yn y dyfodol. Dywedodd y dylid "ystyried o ddifrif" gosod disgwyliad bod "cyrraedd lefel benodol o hyfedredd yn y Gymraeg yn hanfodol i gymhwyso i addysgu yng Nghymru yn y dyfodol."[190]

**120.** Galwodd Comisiynydd y Gymraeg am "integreiddio'r ddarpariaeth fydd yn cael ei datblygu fel rhan annatod o hyfforddi i ddysgu yng Nghymru."[191] Dywedodd y dylai "rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg" fod yn "rhan greiddiol o bob cwrs

---

[186] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 12 (Saesneg yn unig)
[187] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 6.2
[188] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 3.2
[189] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[190] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.5.4
[191] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 2.3

Addysg Gychwynnol i Athrawon, ac yna yn parhau fel rhan ofynnol o gyfnod sefydlu a datblygiad proffesiynol athrawon newydd am bedair blynedd cyntaf eu gyrfa."[192] Dywedodd UCAC fod rhaid i hyfforddiant cychwynnol athrawon ystyried gofynion y Bil a sicrhau bod "hyfforddiant priodol" yn cael ei gynnig.[193]

**121.** Ceir nifer o gynlluniau gwahanol i gefnogi ac annog unigolion i gael eu hyfforddi i ddod yn athrawon ac yn arbennig mewn pynciau lle mae prinder sy'n cynnwys y Gymraeg.

**122.** Dywedodd Dyfodol i'r Iaith fod y cynlluniau hyn yn "ceisio gwneud iawn ddiffygion yn nhrefn recriwtio a chadw gweithlu, heb allu mynd i'r afael ag elfen sylfaenol ddiffygiol, sef y ganran anghynaladwy a chynyddol fawr o fyfyrwyr sy'n astudio y tu allan i Gymru."[194]

**123.** Dywedodd UCAC pan fydd cymhellion ar gael y dylid olrhain teithiau gyrfa derbynwyr, ac y dylid pennu amodau fel ymrwymiad i addysgu yng Nghymru am gyfnod penodol.[195]

**124.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg nad oedd cymhellion yn anghyffredin mewn llawer o wledydd a phroffesiynau. Ond dywedodd ei bod hi'n bwysig adolygu a yw rhaglenni cymhelliant wedi gweithio a bod gwerth iddynt.[196]

**125.** Rhoddodd ragor o wybodaeth am y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar bobl i ymuno â'r proffesiwn addysgu. Roedd y rhain yn cynnwys "cymhelliad cynhenid/brwdfrydedd i addysgu" a "sicrwydd swydd." Nododd hefyd y "nifer o fentrau cadarnhaol a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru i ddenu darpar athrawon yn ystod y blynyddoedd diwethaf." Yn eu plith roedd:

- diwygio Addysg Gychwynnol i Athrawon;
- newidiadau i'r gofynion o ran cymwysterau;
- cynyddu nifer y lleoedd TAR cyflogedig;
- cyflwyno llwybrau rhan-amser;
- sefydlu Addysgwyr Cymru; a

[192] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 2.4
[193] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.4
[194] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01 Dyfodol i'r Iaith, paragraff 37
[195] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.3
[196] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 267-268

- gwahanol gymhellion ariannol.

Nodwyd hefyd rai o'r cyfyngiadau ar recriwtio athrawon gan gynnwys; cystadleuaeth ymhlith cyflogwyr ar gyfer graddedigion; llwyth gwaith; hyblygrwydd / cydbwysedd bywyd a gwaith; atebolrwydd; ymddygiad mewn ysgolion; cyflog a buddion; dilyniant cyflog a'r ffordd y caiff addysgu ei bortreadu.[197]

**126.** Clywsom nad yw'r system addysg ei hun "yn creu digon o siaradwyr Cymraeg i ddiwallu'r nifer o athrawon sydd [eu h]angen."[198] Rhybuddiodd Cyngor y Gweithlu Addysg nad hyfforddiant cychwynnol athrawon yw'r ateb i bopeth. Dywedodd mai'r gadwyn gyflenwi o siaradwyr Cymraeg sy'n dod drwodd sydd wedyn yn gallu dewis bod yn athrawon neu'n staff cymorth sydd wrth wraidd hyn.[199] Nodwyd ffigurau ar gyfer disgyblion sy'n sefyll Safon Uwch Iaith Gymraeg yn 2024, sef 0.5 y cant. Dywedodd nad yw hyn yn argyhoeddiadol.[200]

**127.** Amlygwyd hefyd yr her o gael mynediad at bynciau hyd at Safon Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bosibl y bydd hyn wedyn yn lleihau nifer y bobl a fyddai'n gallu cael hyfforddiant addysgu yn Gymraeg.

> *"Felly, sut ŷn ni'n disgwyl creu gweithlu os nad yw plant yn gallu gwneud pynciau lefel A trwy gyfrwng y Gymraeg a dod nôl i fyw i'w cynefinoedd nes ymlaen? Os nad yw'r pwnc ar gael yn Gymraeg yn lefel A lle bynnag, yna rŷch chi'n lleihau'r gallu iddyn nhw ddod nôl i'w cynefin i fod yn dysgu'r pwnc yna ac i fod yn ysbrydoliaeth i'r genhedlaeth nesaf. Felly, mae'n rhaid inni edrych ar le mae'r gwendidau a mynd i'r afael â'r gwendidau yn ôl lle maen nhw i adeiladu'r llun cyfan."*[201]

## Ein barn ni

**128.** Mae'n gwbl amlwg fod llwyddiant y Bil yn dibynnu ar sicrhau'r gweithlu addysg i'w gyflawni. Mae hyn yn cynnwys staff cymorth a gweithwyr addysg proffesiynol yn narpariaeth blynyddoedd cynnar ac ôl-16 yn ogystal ag athrawon mewn ysgolion. Fel y nodwyd gennym yn y Bennod flaenorol, mae hwn yn Fil a fydd yn cael ei gyflawni dros oes sawl Senedd a Llywodraeth. Mae'r Bil yn pennu cyfeiriad clir ac yn gosod gofynion ar Weinidogion Cymru yn y dyfodol i gyflawni'r

[197] Gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor y Gweithlu Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 30 Hydref 2024
[198] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[199] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 240
[200] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 280
[201] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 200

ymrwymiad hwn, ond gellid gwneud mwy mewn perthynas ag elfen y gweithlu yn y Bil.

**129.** Nodwn sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet fod y gweithlu yn greiddiol drwy gydol y Bil. Ond, i'r gwrthwyneb, teimlai rhai rhanddeiliaid y dylai materion yn ymwneud â'r gweithlu fod yn fwy amlwg yn y Bil ei hun.

**130.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Asesiad Effaith ar Lwyth Gwaith fel rhan o'r ddogfennaeth ategol ar gyfer y Bil, rydym yn dychmygu nad yw hyn mor gynhwysfawr â'r Asesiad Effaith y mae undebau llafur wedi bod yn galw amdano. Nodwn hefyd fod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi ei ddisgrifio fel asesiad effaith arbrofol, sy'n codi cwestiynau am ba mor gadarn a chynhwysfawr ydyw. Nid ydym yn teimlo ei fod yn gadarn nac yn ddigon cynhwysfawr ychwaith. Byddem yn annog yr Ysgrifennydd Cabinet i ystyried hyn ymhellach. Credwn fod angen Asesiad Effaith fwy cadarn o'r Gweithlu. Mae'r effaith ar y gweithlu yn destun pryder sylweddol a gwirioneddol i lawer ac mae angen rhoi ystyriaeth ddifrifol i hynny

**Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyflwyno Asesiad Effaith manylach o'r gweithlu. Dylid datblygu hwn drwy ymgysylltu â'r sector addysg, a'i gynrychiolwyr o'r gweithlu, mewn ffordd ystyrlon. Dylid defnyddio'r Asesiad hwn wrth ddatblygu Cynllun y Gweithlu ac yna dylid ei ddiweddaru yng ngoleuni Cynllun y Gweithlu. (Gweler Argymhelliad 3).

**131.** Credwn ei bod yn bwysig cydnabod lefel y newid y mae'r system addysg wedi bod yn mynd drwyddo dros y blynyddoedd diwethaf. Newidiadau ym mholisi'r Llywodraeth, megis y Cwricwlwm newydd i Gymru a diwygiadau ADY sy'n gyfrifol am rywfaint o'r newid hwn ond mae digwyddiadau annisgwyl, fel y pandemig, hefyd wrth wraidd hyn. Fel y tynnwyd sylw ato ym mharagraff 7, defnyddir addysg yn aml fel cyfrwng i gyflawni nodau polisi ehangach, felly nid yw maint y newid y mae'r sector yn ei wynebu yn ymwneud yn uniongyrchol â newidiadau mewn polisi addysg yn unig.

**132.** Ar hyn o bryd, mae'r holl staff addysg, athrawon, cynorthwywyr addysgu, timau arwain ysgolion, staff cegin ac ystadau, llywodraethwyr ysgolion, staff addysg awdurdodau lleol ac eraill, yn gweithio'n galed i ymateb i'r heriau a'r blaenoriaethau niferus hyn. Mae rhaid i ni gydnabod effaith lefel y newid hwnnw, ac mae rhaid i ni fod yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar bawb yn sgil hyn. Roedd yr undebau athrawon yn gadarn o'r farn nad yw'r addewidion sy'n cael eu gwneud ynghylch cymorth ac adnoddau, ar ôl i ddiwygiadau eraill ddod i rym, bob amser wedi'u gwireddu. Ni ellir ailadrodd y camgymeriad hwn.

**133.** Mae'r Bil hwn yn uchelgeisiol, ac mae angen newid sylweddol i'w gyflawni. Mae hyn i'w ganmol. Ond ar yr ochr arall, mae gosod uchelgeisiau fel hyn yn golygu y gall fod yn heriol i'w gwireddu. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gweithlu addysg a'i gynrychiolwyr i sicrhau bod y Bil yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n dod â phawb ynghyd ag ef, ac nad yw'n creu pwysau gormodol diangen ar system sydd eisoes o dan bwysau. Mae ewyllys da yn hanfodol i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn teimlo bod ganddynt berchnogaeth dros yr iaith waeth beth yw lefel eu rhugldER. Mae'n ddealladwy pam y gallai rhai fod yn nerfus ynghylch y Bil hwn, ond mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos ei hystyriaethau manwl o ran yr effaith ar y gweithlu, a nodi'n glir y camau y bydd yn eu cymryd i leddfu neu ddileu'r pwysau hyn er mwyn lliniaru pryderon.

**134.** Cyflwynodd nifer o randdeiliaid ddadl dros gynllun gweithlu statudol, a gosod targedau statudol ar wyneb y Bil. Rydym yn ymwybodol iawn fod recriwtio a chadw staff yn faterion llawer ehangach na'r rhai a nodwyd yn y Bil hwn (ac i gydnabod hyn, byddwn yn edrych ar y materion hynny yn fuan drwy ymchwiliad pwrpasol). Mae prinder o ran y gweithlu ar gyfer nifer o wahanol bynciau a chyfrwng Cymraeg, gan gynnwys Cymraeg, gwyddoniaeth ac ieithoedd tramor modern. Mae angen dull cyfannol, ac nid un sy'n edrych ar un rhan o'r system addysg ar ei phen ei hun. Mae'n rhy bwysig i ddilyn dull tameidiog ac anghyson. Mae rhai materion sy'n ymwneud â'r economi a'r farchnad swyddi yn ehangach. Ni all ysgolion unigol nac awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r rhain. Yn hytrach, mae angen dull gweithredu cenedlaethol a gall Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am lunio a rheoli'r dull hwn. Heb weledigaeth gyffredinol gan Lywodraeth Cymru, mae perygl y bydd unrhyw gynlluniau i gynyddu capasiti yn methu.

**135.** Rydym yn gweld newidiadau i sut y mae cymdeithas ac unigolion yn ymdrin â gyrfaoedd a swyddi yn gyffredinol. Mae pobl yn fwy tebygol o newid gyrfa yn ystod eu hoes, weithiau sawl gwaith. Mae hyn yn darparu cyfleoedd yn ogystal â heriau i ehangu'r gweithlu addysg. Mae angen ystyried pob un ohonynt mewn cynllun gweithlu sydd â grym statudol.

**136.** Mae angen cynllun fwy clir ar sut y gellir mynd i'r afael â'r holl faterion hyn. Nid yw 2050 mor bell i ffwrdd ag y mae'n ymddangos, ac ni chawsom ein hargyhoeddi gan farn yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y gweithlu. Ni chredwn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn dibynnu ar ostyngiad yn y gyfradd genedigaethau i fynd i'r afael â bylchau o ran y gweithlu ysgolion, a byddem am

weld mwy o wybodaeth a data ar hyn yn cael eu cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol.

**137.** Mae'r holl ffactorau hyn wedi ein hargyhoeddi bod angen dull mwy cadarn o gynllunio'r gweithlu gyda chynllun gweithlu statudol sy'n cynnwys targedau, a allai edrych ar y system addysg a Chymru mewn ffordd gyfannol.

**138.** Rydym yn cydnabod bod hyn y tu allan i gwmpas y Bil oherwydd byddai cynllun o'r fath yn edrych y tu hwnt i allu'r gweithlu addysg i ddarparu naill ai addysgu'r Gymraeg fel pwnc, neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym felly'n galw ar Lywodraeth Cymru i nodi'r dull deddfwriaethol priodol ar gyfer cyflwyno dyletswydd i lunio cynllun gweithlu statudol. Byddwn yn edrych yn fanylach ar y mater hwn yn ein hymchwiliad ar recriwtio a chadw athrawon sydd ar y gweill. Ond am y tro, mae'n amlwg bod achos wedi'i wneud i ni ar gyfer sefydlu cynllun statudol o'r fath. Bydd hyn yn hanfodol o safbwynt rhoi'r Bil hwn ar waith, yn ogystal â sicrhau manteision ehangach i fynd i'r afael â phrinderau eraill ar draws y gweithlu addysg.

**Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r dull deddfwriaethol mwyaf priodol i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cynllun gweithlu addysg statudol sy'n cynnwys targedau, ac amserlen, ar gyfer recriwtio a chadw. Dylai'r cynllun gweithlu hwn gwmpasu pob agwedd ar y gweithlu addysg, gan edrych yn benodol ar feysydd lle mae prinder, yn ogystal â'r angen tebygol yn y dyfodol, a'r ffyrdd yr eir i'r afael â'r angen hwn. Dylai ystyried yr amrywiadau ledled Cymru.

**139.** Er y bydd cynllun a thargedau o'r fath yn chwarae rhan bwysig wrth gynyddu capasiti'r gweithlu addysg, rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn hollbwysig sicrhau bod digon o gyllid ar gael. Mewn rhai ffyrdd, mae cyllidebau yn bwysicach na thargedau. Gwyddom ein bod mewn sefyllfa anodd o ran cyllid cyhoeddus, ond mae hwn yn fater y byddwn yn parhau i'w ddilyn gyda diddordeb brwd drwy gydol ein holl waith craffu ar bolisïau a chyllid.

**140.** Gall cynlluniau cymhelliant chwarae rhan bwysig wrth annog mwy o bobl i ymuno, ond dim ond un rhan o'r darlun ehangach ydynt.

**141.** Mae'n amlwg yn hanfodol ein bod yn annog mwy o bobl i ymuno â'r gweithlu addysg, boed hynny fel athro, gweithiwr cymorth neu weithiwr proffesiynol arall. Y gwir yw bod llawer o'r naratif am y system addysg ar hyn o bryd yn gallu bod yn negyddol yn aml, a all annog pobl i beidio ag ymuno â'r gweithlu. Ar y llaw arall, gall gweithio ym maes addysg fod yn un o'r rolau sy'n rhoi'r boddhad mwyaf fel y mae nifer ohonom yn gwybod o'n profiad personol ein

hunain. Mae angen gwneud mwy i daflu goleuni ar fanteision a'r pleser o weithio ym maes addysg. Heb y newid diwylliannol hwn, bydd yn anodd inni gynyddu'r niferoedd sy'n ymuno â'r proffesiwn.

**142.** Nodwn y dystiolaeth sy'n awgrymu bod yna ddigon o gapasiti Cymraeg o fewn y gweithlu nad ydym yn manteisio arno ar hyn o bryd. Ond credwn fod angen gwneud mwy o waith i ddeall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio, neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a hynny er mwyn gallu eu defnyddio'n broffesiynol. Dylai gwaith o'r fath hefyd edrych ar y ffyrdd y gellid goresgyn y rhwystrau hyn.

**143.** Mae'r Cynllun Sabothol a mentrau eraill i ddatblygu'r capasiti o ran y Gymraeg o fewn y gweithlu presennol yn amlwg yn bwysig iawn. Ond mae angen lefelau digonol o gyllid ac adnoddau arnynt. Er ein bod yn nodi nad yr Ysgrifennydd Cabinet sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynlluniau hyn, dyma pwy sy'n gyfrifol am gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. Er iddo ymrwymo i sicrhau bod y cynllun Sabothol yn parhau, ni wnaeth ymrwymo, yn ystod ein sesiynau ni, i unrhyw gyllid ychwanegol y tu hwnt i'w ddyraniad blynyddol o £3.8 miliwn. Mae angen ymrwymiad clir a pharhaus y bydd y rhaglen hon yn cael ei hariannu'n llawn ac o bosibl yn cynyddu os yw'n mynd i wneud gwahaniaeth go iawn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ysgolion yn gallu sicrhau staff cyflenwi i athrawon sydd i ffwrdd yn ymgymryd â hyfforddiant ar y rhaglen hon. Mae cyllid yn hanfodol i sicrhau'r newid sylweddol yn y gweithlu sydd ei angen i gyflawni'r Bil hwn.

**144.** Drwy gydol ein gwaith casglu tystiolaeth, rydym wedi clywed am brofiadau rhyngwladol perthnasol, yn enwedig rhai Gwlad y Basg. O ran y gweithlu, adroddwyd yn eang fod Llywodraeth gwlad y Basg wedi buddsoddi'n helaeth mewn hyfforddiant i athrawon drwy ei chynllun sabothol cyfatebol a mentrau eraill i gynyddu nifer yr athrawon a allai siarad ac addysgu drwy gyfrwng Basgeg. Mae llawer y gallwn ei ddysgu gan wledydd eraill, yn enwedig y rhai lle mae iaith leiafrifol yn cydfodoli ag iaith sy'n dominyddu'n rhyngwladol fel Saesneg neu Sbaeneg. Mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn edrych ar enghreifftiau rhyngwladol wrth ddatblygu'r Bil a pholisi iaith yn ehangach. Ond, wrth iddi symud i'r cam gweithredu, mae'n bwysig ei bod yn parhau i wneud hyn. Gallwn ddysgu o'r heriau y mae eraill wedi'u hwynebu, sut y maent wedi eu goresgyn, ac yn benodol, sut y maent wedi buddsoddi'n llwyddiannus i ymdrin â'r materion hyn. Mae hefyd yn bwysig bod rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, hefyd yn parhau i gynnal a datblygu'r perthnasoedd rhyngwladol hyn.

# 4. Rhan 1: Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg

Mae Rhan 1 yn rhoi sail statudol i'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn cytuno â'r dull hwn. Yn y bennod hon, rydym yn edrych ar y targed statudol a materion sy'n ymwneud â sut y mae diffinio pwy sydd yn siaradwr Cymraeg a phwy nad yw'n siaradwr Cymraeg.

## Y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg

**145.** Mae adran 1 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnwys targed Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn eu strategaeth iaith Gymraeg. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu targedau i gynyddu'r canlynol:

- y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol;
- y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle;
- y ddarpariaeth o addysg Gymraeg; a
- nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg.

**146.** Mae adrannau 2 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd o leiaf unwaith bob pum mlynedd gyda "dadansoddiad o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru."[202] Os yw'r dadansoddiad hwn yn dangos ei bod yn annhebygol y bydd y targed yn cael ei gyflawni, mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod datganiad yn esbonio pam nad yw'r targed hwnnw'n debygol o gael ei gyflawni, a'r camau a gymerir i sicrhau bod hyn yn digwydd.

**147.** Mae adran 3 yn gwneud darpariaeth ar sut y cyfrifir nifer y siaradwyr Cymraeg at ddibenion adrannau 1 a 2. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'r ffynonellau data i'w defnyddio i gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg. Er hynny, mae'n nodi bod rhaid ystyried unrhyw ddata

---

[202] Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), adran 2(1), fel y'i cyflwynwyd, Gorffennaf 2024

perthnasol o'r Cyfrifiad. Mae'r adran hon hefyd yn nodi mai'r sail ar gyfer penderfynu pa un a yw person yn siaradwr Cymraeg ai peidio yw hunanasesiad.

**148.** Roedd cefnogaeth eang i bennu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg ar sail statudol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- CCAC[203];
- y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[204];
- CYDAG[205];
- Cyngor y Gweithlu Addysg[206];
- Dyfodol i'r Iaith[207];
- Medr[208];
- Mudiad Meithrin[209];
- NAHT[210];
- y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol[211];
- RhAG[212];
- Cyngor Abertawe[213];
- UCAC[214];
- Comisiynydd y Gymraeg[215]; a
- CLILC[216].

[203] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 23
[204] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 1.2
[205] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.2.1
[206] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[207] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01 Dyfodol i'r Iaith, paragraff 1
[208] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 197
[209] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 218
[210] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 08, NAHT (Saesneg yn unig)
[211] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.3
[212] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 153
[213] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 31, Cyngor Abertawe (Saesneg yn unig)
[214] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 1.1
[215] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 10
[216] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 17

**149.** Nid oedd ASCL yn cefnogi gosod targed statudol, gan ddweud ei fod yn afrealistig ac y byddai'n rhoi pwysau sylweddol ar arweinwyr ysgolion i benderfynu sut i ddefnyddio adnoddau a hynny ar draul blaenoriaethau addysgol eraill. Er hynny, nid oeddent yn gwrthwynebu targed anstatudol.[217] Dywedodd NEU er ei fod yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 nad oedd yn siŵr a ddylai'r targed fod yn statudol yn enwedig heb ymrwymiad am gyllid sylweddol. Cyfeiriodd at y pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol ac ysgolion.[218]

**150.** Er bod Medr yn cydnabod bwriad y polisi o roi'r targed ar sail statudol, dywedodd ei bod yn bwysig peidio ag ystyried yr amcanion polisi drwy gyfrwng targedau yn unig. Dywedodd fod angen dull mwy cynnil i daro cydbwysedd rhwng monitro cynnydd i gyrraedd y targedau ar y naill law a chymorth parhaus i'r rhai sy'n ceisio cyflawni'r targedau ond nad ydynt wedi llwyddo hyd yn hyn.[219]

**151.** Galwodd yr Athro Gwenno Ffrancon am gadarnhau targedau penodol, ac i'r amserlen gael ei thynhau i sicrhau nad oes llithriad yn y ddarpariaeth o ran strategaeth Cymraeg 2050.[220]

**152.** Gwnaethom archwilio pa effaith y byddai pennu'r targed ar sail statudol yn ei chael yn ymarferol. I nifer o ymatebwyr, byddai'n cynyddu ei statws ac yn gwneud pwysigrwydd yr uchelgais yn glir, gan gynnwys:

- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs[221];
- CYDAG[222];
- Medr[223];
- NAHT Cymru[224];
- Yr Athro Gwenno Ffrancon; a
- CLlLC[225].

[217] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraffau 5-5 (Saesneg yn unig)
[218] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[219] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 3.1
[220] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 121
[221] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 26, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
[222] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 235
[223] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 169
[224] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 08, NAHT (Saesneg yn unig)
[225] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 17

Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y gallai alluogi Llywodraeth Cymru i gynyddu disgwyliadau mewn llythyrau grant a chylch gwaith.[226]

**153.** Roedd rhesymau eraill yn cynnwys sicrhau nad oedd yn destun newidiadau mewn blaenoriaethau gwleidyddol. Nododd CCAC yr un peth.[227] Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg y byddai'n helpu i sicrhau bod arweinyddiaeth yn cael ei "darparu a'i chynnal dros gyfnod."[228] Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y byddai'n golygu na fyddai'r dyheadau presennol yn cael eu "lleihau [n]a'u glastwreiddio" yn y dyfodol.[229]

**154.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y byddai gosod y targed ar sail statudol yn "tanlinellu pwysigrwydd y targed a gwarchod y targed i'r dyfodol."[230] Dywedodd uwch-gyfreithiwr Llywodraeth Cymru y byddai'r ddeddfwriaeth yn "[g]yrru perfformiad" oherwydd bydd y targedau'n "gyrru'r" ymddygiad sydd ei angen ar gyfer newid.[231]

**155.** Serch hynny, cawsom ein rhybuddio na ddylai'r targed fod yn un uchelgeisiol yn unig, a bod angen cyllid ac adnoddau i gyflawni'r targed.[232] Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg na ellir "tanamcangyfrif" yr heriau a wynebir yn sgil cyrraedd y targed hwn.[233] Edrychwyd ar y materion sy'n ymwneud â'r gweithlu yn y Bennod flaenorol.

**156.** Dywedodd Cymdeithas yr Iaith fod Llywodraeth Cymru yn "ceisio newid diffiniad y miliwn" drwy'r Bil hwn. Roedd yn galw am ddiwygiadau i sicrhau mai'r Cyfrifiad, cyhyd ag y mae'n cael ei gynnal, ddylai fod y sail ar gyfer cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg.[234] Mynegodd rhai, gan gynnwys Mudiad Meithrin, bryderon am barhad y Cyfrifiad yn y dyfodol a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg. Roedd hyn yn dangos yr angen am:

> *"… cyfundrefn fonitro drylwyr a gwrthrychol er mwyn mesur cynnydd a pherfformiad a lle mae angen rhoi sylw mwy penodol i'r targed hwn dros amser."*[235]

[226] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 34
[227] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 23
[228] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[229] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 10
[230] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 220
[231] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 244
[232] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 08, NAHT (Saesneg yn unig)
[233] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[234] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[235] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 1.1

**157.** Galwodd CCAC am fwy o eglurder ynghylch sut y bydd y targedau'n cael eu pennu. Galwodd am dargedau "realistig" a fydd yn ystyried cyd-destunau lleol. Holodd hefyd "sut y gellir dadansoddi data cywir o fewn cylchoedd pum mlynedd" pan fo data'r Cyfrifiad ar gael bob 10 mlynedd.[236]

**158.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai'r bwriad yw defnyddio'r Cyfrifiad fel man cychwyn oherwydd bod hyn wedi bod yn "ganolog" yn y gorffennol. Ond dywedodd "allwn ni ddim dibynnu ar y cyfrifiad at y dyfodol" oherwydd efallai na fydd yn parhau. Dywedodd fod y darpariaethau yn galluogi gwahanol bwyntiau data i gael eu defnyddio ochr yn ochr â'r Cyfrifiad. Roedd yn glir nad bwriad y Llywodraeth yw "r[h]oi'r cyfrifiad ar un ochr."[237]

**159.** Croesawodd rhanddeiliaid y cynnig i bennu targed ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol. Dywedodd Mentrau Iaith Cymru ei fod yn croesawu hyn yn "arbennig", gan dynnu sylw at y "[f]rwydr barhaol" sy'n eu hwynebu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n barhaol yn y gymuned.[238]

**160.** Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at bwysigrwydd cofnodi'r defnydd o'r Gymraeg. Galwodd Dyfodol i'r Iaith am ystadegau ar y defnydd llafar o'r Gymraeg. Dywedodd y gall y rhain fod yn "bwysicach" nag ystadegau syml o ran faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.[239] Roedd hefyd am weld mwy o fesur o ran defnydd o'r iaith yn fwy cyffredinol.[240] Roedd Mentrau Iaith Cymru yn pryderu am y "diffyg pwyslais" ar fesur defnydd o'r Gymraeg.[241] Tynnodd RhAG sylw at y dull a ddefnyddir yng Ngwlad y Basg sy'n defnyddio "dull cymdeithasol o gyfri siaradwyr drwy gynnal arolwg stryd." Gofynnodd i'r syniad hwn gael ei ystyried ymhellach.[242]

**161.** Dywedodd yr Athro Enlli Thomas fod cofnodi defnydd iaith yn "allweddol" i ddeall os cafwyd "[c]ynnydd ystyrlon." Dywedodd fod defnydd yn nodi hyfywedd iaith, ac y gallai data ar hyn "symud y naratif i ffwrdd o'r Gymraeg fel iaith y lleiafrif" sy'n bwysig i roi statws cryfach i'r Gymraeg.[243] Cytunodd yr Athro Gwenno Ffrancon mai defnydd iaith ac nad nifer y siaradwyr sy'n dangos hyfywedd iaith.[244]

**162.** Tynnodd Comisiynydd y Gymraeg sylw at yr arolwg defnydd iaith sy'n cael ei gynnal pob pum mlynedd ar hyn o bryd ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Fodd

[236] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 33-34
[237] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 58
[238] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 1.1
[239] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01 Dyfodol i'r Iaith, paragraff 3
[240] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 345
[241] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 1.4
[242] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.3
[243] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 123
[244] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 124

bynnag, byddai'n croesawu "ymrwymiad cadarnach" iddo gael ei gynnal yn rheolaidd, neu gytundeb tymor hwy iddo gael ei wneud mewn ffordd fwy systematig.[245] Dywedodd Mentrau Iaith Cymru nad yw'r arolwg hwn wedi bod yn "ddigon cyson nac yn ddigon cynhwysfawr." Dywedodd fod angen iddo fesur defnydd ar lefel genedlaethol ac ar lefel ward, yn yr un modd â'r Cyfrifiad. Bydd hyn, ym marn y sefydliad, yn creu darlun fwy real.[246]

**163.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai cynnwys targedau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn anodd mewn perthynas â diffiniadau a chasglu data. Teimlai y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain at fesur dibynadwy o ran defnydd o'r Gymraeg.[247] Atgoffodd ni fod strategaeth Cymraeg 2050 hefyd yn cynnwys uchelgais i ddyblu'r defnydd o'r Gymraeg.[248]

**164.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru fod disgresiwn i bennu targedau ar y defnydd o'r Gymraeg. Tynnodd sylw hefyd at yr arolwg defnydd iaith, gan ddweud ei fod yn "eithaf eang." Dangosodd yr arolwg diweddaraf fod y rheini sy'n hyderus yn siarad Cymraeg yn fwy tebygol o'i defnyddio yn ddyddiol.[249]

**165.** Gwnaethom archwilio i'r ddarpariaeth ar sut y bydd siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyfrifo. Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar y mater hwn. Amlygodd Cymdeithas yr Iaith fod "asesiadau cyson" yn cael eu cynnal drwy gydol addysg disgyblion ac y byddai naill ai asesiad diwedd Cyfnod Allweddol neu TGAU yn fesur mwy dibynadwy heb fod angen asesiadau ychwanegol. [250]

**166.** Roedd UCAC o'r farn bod y Bil yn amwys o ran pwy fyddai'n cael ei ystyried yn siaradwr Cymraeg. Roedd yn pryderu am gadernid data Cyfrifiad 2021. Galwodd CCAC ac CLlLC am fwy o eglurder ynghylch sut y byddai siaradwr Cymraeg yn cael ei gyfrifo a'i gofnodi.[251]

**167.** Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin fod profiadau'r Cyfrifiad yn dangos bod "nifer yn tanamcangyfrif" eu gallu yn y Gymraeg. Galwodd am ffordd gyson o gasglu data.[252]

[245] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 16
[246] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 348
[247] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 231
[248] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 232
[249] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 233
[250] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[251] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[252] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 19, Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin

**168.** Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet yr egwyddor bod hunanasesiadau wrth wraidd adnabod siaradwyr Cymraeg. Dywedodd er bod hyn yn gallu achosi rhai canlyniadau dyrys ei bod yn egwyddor wirioneddol bwysig.

> *"You know, if Welsh belongs to everybody, then, it is the individual's own assessment of the extent to which they believe themselves to be users of the Welsh language that we have to rely on, and that principle is at the heart of this Bill as well."*[253]

Dywedodd y byddai cyflwyno'r Fframwaith Ewropeaidd (gweler y Bennod nesaf) yn golygu y byddai'n dod yn haws i bobl ganfod eu lleoliad ar y raddfa honno. Ychwanegodd y gall diffyg canllaw o'r fath ar hyn o bryd arwain at amrywiaethau ar y naill ben a'r llall i'r sbectrwm ac y byddai'r Fframwaith Ewropeaidd yn helpu i ymdrin â rhai o'r materion dyrys hyn.[254]

**169.** Gwnaeth Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru hefyd y cysylltiadau â'r Fframwaith Ewropeaidd, yn ogystal â'r data a fydd ar gael gan ysgolion. Pwysleisiodd bwysigrwydd plant a phobl ifanc o ran cyflawni targed Cymraeg 2050. Dywedodd y bydd cysylltiadau rhwng y Fframwaith Ewropeaidd a'r cwricwlwm, ac y bydd y data hynny "yn glir gennym ni."[255]

**170.** Buom yn archwilio'r darpariaethau yn adran 2 ar y gofynion adrodd sydd ar Weinidogion Cymru bob pum mlynedd. Nid oedd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried bod gwrthdaro rhwng y gofynion statudol sydd ar ei swyddfa i gyhoeddi adroddiad pum mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg, a'r gofynion newydd y mae'r Bil hwn yn eu gosod ar Weinidogion Cymru. Dywedodd fod yr adroddiadau "yn bethau gwahanol iawn." Mae adroddiad y Comisiynydd yn "annibynnol" ac "yn edrych ar ystod o feysydd polisi" pan fo gofynion y Bil hwn yn "mynd i ganolbwyntio'n naturiol fwyfwy ar addysg, a dylanwad hwnnw." Dywedodd y byddai'n bwysig cael sgyrsiau gyda Llywodraeth Cymru i osgoi dyblygu. Yn olaf, dywedodd fod gan Lywodraeth Cymru "fwy o gapasiti … ac arbenigedd" wrth gynnal gwaith ymchwil.[256]

**171.** Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd y gwahaniaethau rhwng y ddau adroddiad. Dywedodd fod adroddiad y Comisiynydd yn "lot ehangach na hynny" a thynnodd sylw at natur annibynnol adroddiad y Comisiynydd. Dywedodd ei fod yn

[253] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 229
[254] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 230
[255] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 259
[256] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 14

"hyderus" o ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio ar unrhyw feysydd lle gallai fod gorgyffwrdd rhwng y ddau adroddiad.[257]

**172.** Gwnaethom hefyd ystyried amseriad y gofynion adrodd. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet yr ystyriwyd y materion hyn yng nghyd-destun cylchoedd etholiadol gwahanol (y Senedd ac awdurdod lleol), a'r amseru o ran canlyniadau'r cyfrifiad.

> *" …y neges oddi wrth y WLGA yw eu bod nhw eisiau cadw at bum mlynedd iddyn nhw. Amseriad cyhoeddi canlyniadau'r cyfrifiad—bydd hwnna bob degawd, so mae hwnna'n helpu os ŷn ni'n ei rannu hanner a hanner—a'r ffaith bod gan y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg presennol weledigaeth 10 mlynedd—. So, mae lot—. Rŷn ni'n trio ffitio i mewn gyda lot o amserlenni eraill, ac, ar ddiwedd y dydd, ar hyn o bryd, rŷn ni'n meddwl bod bob pum mlynedd, bydd hynny'n mynd i weithio'n fwy effeithiol."*[258]

## Adolygu safonau'r Gymraeg

**173.** Mae adran 4 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu safonau'r Gymraeg a bennir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r adolygiad hwn.

**174.** Croesawodd Comisiynydd y Gymraeg y ddyletswydd hon. Dywedodd fod gan y safonau a nodir yn y Bil "botensial i wneud gwahaniaeth." Mae'r cysylltiad sy'n cael ei wneud rhwng polisi addysg a'r gyfundrefn safonau i'w groesawu'n "fawr."[259] Ychwanegodd, er bod y safonau yn "gyfyngedig ar hyn o bryd" o ran effaith, gyda newidiadau pellach a mwy o gefnogaeth gan ei swyddfa, y gallent "chwarae rhan allweddol" wrth gynyddu defnydd o'r Gymraeg.[260]

**175.** Tynnodd sylw hefyd at y ffaith fod yr adolygiad yn bwysig i ystyried datblygiad y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg (gweler y Bennod nesaf). Roedd yn disgwyl y byddai disgrifyddion y Cod yn cael eu cynnwys mewn safonau diwygiedig a fyddai'n helpu "er mwyn cau'r cylch" fel bod gweithluoedd yn gwybod pa lefel sydd ei hangen ar gyfer pob rôl.[261]

---

[257] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 227
[258] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 225
[259] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 1.7
[260] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 1.9
[261] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 35

**176.** Croesawyd y ddyletswydd hon hefyd gan randdeiliaid, gan gynnwys:

- y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[262];
- CYDAG[263];
- Dyfodol i'r Iaith[264];
- Mentrau Iaith Cymru[265];
- y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol[266]; a
- RhAG[267].

## Ein barn ni

**177.** Mae'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 wedi apelio at y dychymyg mewn ffordd nad yw polisïau eraill y llywodraeth yn ei wneud yn aml. Mae'n glir ac yn ddealladwy, a gall pobl weld i ba gyfeiriad y mae'n mynd. Mae'n teimlo bod hwn yn darged sy'n eiddo i Gymru gyfan, pa un a ydych yn siaradwr Cymraeg ai peidio. Gallwn ni i gyd chwarae ein rhan, waeth beth fo lefel ein rhuglder neu ein hyder unigol. Bydd gwneud y targed yn statudol yn helpu i gryfhau a chyfleu'r uchelgais hwn yn glir i'r genedl.

**178.** Nid oes amheuaeth ei fod yn darged uchelgeisiol, ac mae'n effeithio ar waith bron pob corff cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal â'r trydydd sector a'r sector preifat. Mae'n bolisi a fydd yn rhaeadru i bob unigolyn sy'n byw yng Nghymru ac yn effeithio arnynt mewn rhyw ffordd. Bydd yn cymryd degawdau i gyrraedd y targed, ac mae angen ymrwymiad sawl gweinyddiaeth y Llywodraeth. Mae ei roi mewn deddfwriaeth yn lleihau'r risg y caiff ei wanhau, a bydd yn helpu i ysgogi penderfyniadau ariannu a pholisi a fydd yn helpu sefydliadau i'w gyflawni.

**179.** Y Cyfrifiad fu'r sail ar gyfer cyfrif nifer y siaradwyr Cymraeg ers degawdau. Ond nid yw'r Cyfrifiad ei hun yn berffaith, ac rydym yn ymwybodol iawn y gall pobl yn hawdd naill ai danamcangyfrif neu oramcangyfrif eu sgiliau Cymraeg, gan wyrdroi canfyddiadau'r cyfrifiad. Fodd bynnag, nodwn farn yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai cyflwyno'r Fframwaith Ewropeaidd fel sail i ddisgrifio gallu Cymraeg helpu i leihau'r risgiau hyn dros amser. Mae'n bwysig, cyhyd â bod y Cyfrifiad yn parhau i

[262] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 1.3
[263] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.2.3
[264] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01 Dyfodol i'r Iaith, paragraff 4
[265] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 4.1
[266] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.8
[267] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.4

gael ei gynnal, y dylai barhau'n sylfaen ar gyfer unrhyw gyfrif. Y Cyfrifiad yw'r prawf asid i ganfod a ydym yn bodloni prawf Cymraeg 2050.

**180.** Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad yw'n bwysig ystyried pa fesurau eraill y gellir eu defnyddio i sicrhau bod gennym y ddealltwriaeth fwyaf soffistigedig o nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, a sut y maent yn defnyddio'r Gymraeg. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gwahanol bwyntiau data, a'r ffordd orau o helpu i gasglu a dadansoddi'r data hyn.

**181.** Pwysleisiodd sawl rhanddeiliad bwysigrwydd mesur y defnydd o'r iaith yn ogystal â nifer y siaradwyr. Ond clywsom hefyd am gymhlethdodau mesur defnydd. Rydym yn ymwybodol o'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yn y maes hwn, fel yr arolwg defnydd iaith sy'n cael ei gynnal bob pum mlynedd ar hyn o bryd.[268]

**182.** Roedd y rhai a roddodd eu barn ar y darpariaethau mewn perthynas â safonau'r Gymraeg – yn enwedig Comisiynydd y Gymraeg – yn gyson yn eu cefnogaeth i'r cynigion. Yn sgil yr holl newidiadau y mae'r Bil hwn yn eu cyflwyno ym maes polisi'r iaith Gymraeg, mae'n synhwyrol bod cyfle i adolygu. Bydd yn helpu i sicrhau cysondeb a chydlyniad o ran holl elfennau'r fframweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol. Yn benodol, mae'n bwysig bod safonau'r Gymraeg yn cyd-fynd â'r Cod (edrychwn ar hyn yn fanylach yn y Bennod nesaf).

[268] Llywodraeth Cymru, tudalen we arolwg defnydd iaith [fel ar 22 Tachwedd 2024]

# 5. Rhan 2: Disgrifio gallu yn y Gymraeg

Mae'r Cod ar allu yn y Gymraeg yn elfen hanfodol o'r Bil. Mae'n seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd, sef fframwaith hirsefydlog sy'n cael ei ddefnyddio mewn llawer o wledydd. Rydym yn cefnogi'r dull gweithredu a ddefnyddir yn y Rhan hon o'r Bil.

## Y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd

**183.** Mae adran 5 ac Atodlen 1 yn sefydlu fframwaith newydd safonedig ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg. Mae'n seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd ("y Fframwaith Ewropeaidd"). Mae'r tabl yn Atodlen 1 yn atgynhyrchu un o Dablau'r Fframwaith Ewropeaidd. Mae'r tabl hwn yn pennu tri math o ddefnyddiwr Cymraeg (Sylfaenol, Annibynnol a Hyfedr). Mae hefyd yn cyflwyno chwe lefel wahanol sy'n disgrifio'r tri math hyn, sef:

- Defnyddiwr sylfaenol (lefelau A1 ac A2);
- Defnyddiwr annibynnol (lefelau B1 a B2); a
- Defnyddiwr hyfedr (lefelau C1 ac C2).

**184.** Mae adran 5 hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r Tabl yn Atodlen 1 drwy reoliadau. Ond mae'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu i wneud newidiadau dim ond pan fo angen gwneud hynny mewn ymateb i newidiadau a wneir i'r Fframwaith Ewropeaidd gan Gyngor Ewrop.

**185.** Mae adran 6 yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i lunio Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg sy'n seiliedig ar y Fframwaith Ewropeaidd. Rhaid i'r Cod hwn esbonio sut y dylid defnyddio'r lefelau cyfeirio cyffredin a nodir yn Nhabl 1 o'r Atodlen a rhaid iddo ddisgrifio "nodweddion penodol" pob lefel.

**186.** Mae adran 7 yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi ac adolygu'r Cod. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw un sy'n briodol yn eu barn hwy cyn cyhoeddi'r Cod.

**187.** At ei gilydd, croesawyd cyflwyno Cod safonedig. Dywedodd Mudiad Meithrin y byddai cysoni o'r fath yn "gam pwysig ymlaen" a fyddai o gymorth wrth gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau unigolion, ac yn hwyluso prosesau recriwtio.[269] Dywedodd UCAC y byddai'n cefnogi'r alinio rhwng cymwysterau a chyflogaeth. Roedd o'r farn y byddai'n "sylfaen ar gyfer unigolion, ysgolion, byrddau arholi, awdurdodau lleol a gweithleoedd."[270] Disgrifiodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd y Cod fel un sy'n gosod "sail gadarn". Roedd cysondeb yn air a ddefnyddiwyd yn rheolaidd mewn cysylltiad â'r cynigion hyn, gyda Chyngor Sir Caerfyrddin,[271] ColegauCymru,[272] CYDAG[273] a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol[274] i gyd yn ei ddefnyddio.

**188.** Dywedodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys CCAC ac CLlLC,[275] y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[276] ac Estyn,[277] y byddai o gymorth i gyflogwyr. Dywedodd CBAC y byddai'n ddefnyddiol iddo fel cyflogwr wrth recriwtio.[278] Dywedodd yr Athro Gwenno Ffrancon o Brifysgol Abertawe fod y brifysgol wrthi ar hyn o bryd yn cyflwyno'r Fframwaith Ewropeaidd yn ei pholisïau cyflogaeth.

**189.** Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at hyn, gan awgrymu y bydd yn hwyluso dull mwy soffistigedig o recriwtio:

> *"Ar hyn o bryd, os yw pobl yn hysbysebu am bobl i wneud y gwaith, yr unig ddewis sydd gyda nhw yw dweud 'Cymraeg yn hanfodol' neu 'ddim yn hanfodol', bron. Nawr, bydd cyfle i gyflogwr ddweud, 'Rŷm ni'n edrych am rywun sy'n gallu siarad Cymraeg' ar lefel maen nhw eisiau yn gweithlu. A thrwy ddefnyddio'r fframwaith nid jest yn yr ysgol, ond tu fas, dwi'n meddwl, ar y daith, y bydd pobl yn dod i weld a dod yn fwy cyfarwydd gyda'r fframwaith, a thrwy hynny, bydd yn helpu pobl i fod yn gliriach eu hunain, pan fydd y cwestiwn yn cael ei ofyn, 'Ydych chi'n siarad Cymraeg?', i ddweud, 'Wel, dwi yn siarad*

[269] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 2.1
[270] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 1.2
[271] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 19, Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin
[272] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 20, ColegauCymru
[273] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.3.1
[274] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 48
[275] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[276] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 48
[277] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 317
[278] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 13, CBAC

*Cymraeg, ond dwi'n siarad Cymraeg ar y lefel yma' a chyfeirio at y fframwaith …"*[279]

**190.** Cyfeiriodd rhai at bwysigrwydd sefydlu continwwm ieithyddol, sef yr hyn y byddai'r Cod yn ei wneud. Dywedodd Estyn fod continwwm o'r fath yn bwysig er mwyn dangos bod yr iaith i bawb a bod "rhywbeth gyda ni lle dŷn ni'n gallu symud i'r camau nesaf i helpu pobl i symud. Ond dŷn ni angen dathlu'r ffaith bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg ym mha bynnag gyd-destun, ac i wneud yn sicr bod pobl yn frwdfrydig ac yn hyderus i ddefnyddio pa bynnag Gymraeg sydd gyda nhw. …"[280] Ategwyd hyn gan CLlLC, a ddywedodd y byddai'n helpu i hybu dysgu Cymraeg fel sgìl gydol oes.[281]

**191.** Fel y nodwyd yn y Bennod flaenorol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod fframwaith cyffredin yn helpu o ran hunanasesu, ac y gallai o bosibl olygu y bydd pobl yn gallu hunanasesu eu gallu yn y Gymraeg yn fwy hyderus. Ategwyd hyn gan CCAC ac CLlLC.[282]

**192.** Fodd bynnag, roedd rhywfaint o wahaniaeth barn ynghylch a ddylai'r Cod fod yn seiliedig ar y Fframwaith Ewropeaidd.

**193.** Ymhlith y rhai a oedd yn cefnogi defnyddio'r Fframwaith Ewropeaidd roedd:

- y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[283];
- ColegauCymru[284];
- CYDAG[285];
- Estyn[286];
- yr Athro Enlli Thomas[287];
- Mudiad Meithrin[288];

[279] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 256
[280] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 278
[281] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 49
[282] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[283] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 48
[284] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 351
[285] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.3.1
[286] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[287] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor
[288] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 239

- y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol[289];
- Comisiynydd y Gymraeg[290]; ac
- UCAC[291].

**194.** Dywedodd yr Athro Enlli Thomas mai un o'r heriau yn y gorffennol o ran mesur llwyddiant y Gymraeg oedd nad oedd y Fframwaith Ewropeaidd ar gael. Dywedodd y bydd y labeli a gynigir gan y Fframwaith Ewropeaidd a'r hyblygrwydd y mae'n ei gynnig, fel continwwm dysgu, yn helpu i gefnogi dysgwyr "i fod yn ymwneud â dysgu'r Gymraeg ar hyd oes."[292]

**195.** Dywedodd rhai, fel yr Athro Enlli Thomas[293] a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol[294] y byddai'r Bil yn galluogi'r Fframwaith Ewropeaidd i gael ei addasu i adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig. Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod y cyfle i ddefnyddio'r Fframwaith Ewropeaidd a'i deilwra at y cyd-destun Cymreig yn gyfle i "greu rywbeth sydd yn wirioneddol bwerus ac yn helpu nodau polisi'r Bil a thu hwnt."[295]

**196.** Rhannodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ei phrofiadau hithau o addasu'r Fframwaith Ewropeaidd i'r cyd-destun Cymreig. Dywedodd fod ganddi "brofiad helaeth", a bod y Fframwaith Ewropeaidd yn mesur "cyrhaeddiad rhywun ar hyd y ffordd." Ond pwysleisiodd ei bod yn bwysig bod pobl yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg, yn hytrach nag aros nes eu bod wedi cyrraedd lefel benodol.[296] Roedd hefyd o'r farn y gellir cymhwyso a theilwra'r Fframwaith Ewropeaidd i blant "oed cynradd ymlaen."[297] Fe'i galwodd yn "fframwaith effeithiol, sy'n gallu gweithio i ystod o gynulleidfaoedd, ac ystod o bobl wahanol."[298]

**197.** Tynnodd y Comisiynydd sylw at y gwaith hwn yn y sector oedolion sy'n dysgu hefyd. Roedd o'r farn y byddai gwaith yn digwydd i sicrhau y gallai'r Cod fod yn gymwys i blant a phobl ifanc. Roedd yn cefnogi defnyddio'r Fframwaith Ewropeaidd yn sail i ddisgrifio a mesur gallu plant a phobl ifanc yn y Gymraeg.[299]

---

[289] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.4
[290] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 30
[291] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 1.2
[292] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 127
[293] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor
[294] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 49
[295] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 49
[296] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 53
[297] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.4
[298] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 43
[299] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 30

**198.** Dywedodd Mudiad Meithrin nad yw dysgu Cymraeg yn “sylfaenol wahanol” i ddysgu ieithoedd eraill, a gofynnodd felly pam na fyddai’r Fframwaith Ewropeaidd yn gweithio yng Nghymru.[300] Ar y llaw arall, soniodd Cymwysterau Cymru am natur “enerig” y Fframwaith Ewropeaidd, gan ddweud y byddai angen gwneud gwaith manwl i weld sut y mae’n trosi i gyd-destun Cymreig. Fel rhan o’r gwaith hwn, gellid ystyried cymwysterau a’r cwricwlwm. Dywedodd fod cyfatebiaeth rhwng sut olwg fydd ar y fframwaith a’r hyn sydd yno ar hyn o bryd.[301] Nid oedd yn meddwl y byddai unrhyw elfennau penodol sy’n wahanol rhyngddynt.[302]

**199.** Roedd Mudiad Meithrin yn croesawu symud oddi wrth ddefnyddio termau fel hyderus neu rugl, gan ddweud ei bod yn aml yn anodd diffinio’r naill derm a’r llall. Mae asesu hyfedredd, meddai, fel y mae’r Fframwaith Ewropeaidd yn ei wneud, yn haws nag asesu rhugldet.[303]

**200.** Dywedodd UCAC y byddai defnyddio’r Fframwaith Ewropeaidd yn golygu y gellid gwneud gwaith cymharu er mwyn deall yn well sut y mae’r model dysgu Cymraeg yn gweithio o gymharu â dulliau gwahanol mewn gwledydd eraill.[304]

**201.** Cododd y rhai nad oeddent yn cefnogi seilio’r Cod ar y Fframwaith Ewropeaidd bryderon ynghylch ei ddefnyddio mewn ysgolion, neu ar gyfer pobl y mae’r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.

**202.** Nid oedd Cymdeithas yr Iaith yn cytuno y dylid defnyddio’r Fframwaith Ewropeaidd o gwbl. Dywedodd nad yw’n briodol i’w gymhwyso i’r Gymraeg, ac fe’i galwodd yn “ddargyfeiriad”. Cyfeiriodd at y disgrifiadau o lefelau cyrhaeddiad sydd ar gael ac yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd mewn ysgolion, a gofynnodd pam nad yw’r rhain yn cael eu defnyddio yn y Bil. Esboniodd eu bod yn “ddealladwy”. Dywedodd na fyddai defnyddio’r Fframwaith Ewropeaidd i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn golygu bod y dysgwr yn “well ei fyd” . Dywedodd na fyddai “chwarae o gwmpas gyda phethau sydd ddim, mewn gwirionedd, yn mynd i wneud llawer o wahaniaeth” yn mynd i’r afael â “gwraidd y broblem, sef bod y system addysg yn methu ein plant ni.”[305]

**203.** Dywedodd Dyfodol i’r Iaith nad yw’r Fframwaith Ewropeaidd yn “gwbl berthnasol” i ddysgu a defnyddio’r Gymraeg mewn ysgolion. Dywedodd ei fod wedi’i ddatblygu ar gyfer defnyddwyr ail iaith, a’i fod yn gweithio’n bennaf mewn

---

[300] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 241
[301] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 316
[302] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 317
[303] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 242
[304] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 174
[305] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 360-361

cyd-destunau proffesiynol (ac roedd yn cefnogi ei ddefnyddio ar gyfer hynny[306]). Dywedodd ei fod yn "llai buddiol" i ysgolion ac "yn enwedig i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf." Galwodd am lunio "cod sgiliau yn ôl y gwahanol fedrau yr anelir atynt yn ôl oedran, cyfryngau dysgu a phrofiadau cyfoethogi."[307] Eglurodd pam nad oedd yn meddwl ei fod yn berthnasol i addysg plant:

> *"Fe gewch chi blant cefn gwlad, yn ôl eu gallu, yn siarad Cymraeg yn hollol hyderus ac efallai na fyddan nhw'n dod yn agos at C1. Mae'n rhaid inni fesur iaith plant yn ôl eu hoed ac yn ôl eu gallu cynhenid, ac rwy'n credu bod angen system wahanol o fesur cyrhaeddiad a gallu plant ysgol, yn arbennig yn y sector gynradd. … ond mae hynny' rhoi'r holl ysgolion Saesneg yng Nghymru mewn anhawster mawr, achos fyddan nhw byth yn gallu cyrraedd y lefelau sydd yn bosibl i'r rhai sydd yn mynychu ysgolion Cymraeg. Ai continwwm yw'r ateb? Posib taw e. Ond, yn y bôn, mae'n rhaid inni feddwl am system realistig sydd yn addas i blant ac ysgolion, fel bod pob plentyn a phob disgybl sydd mewn ysgol yn hyderus o ran defnyddio'r iaith sydd ganddo. O ran ysgolion Saesneg, fe fyddai'n llawer iawn mwy defnyddiol rhoi pwyslais mawr ar yr iaith lafar yn hytrach nag ar lefelau proffesiynol fyddai eu hangen i gyrraedd lefel C1, … Mae'n rhaid anelu at y math o iaith byddai disgyblion yn gallu defnyddio'n realistig. … Mae'n rhaid inni gael lefelau sydd yn addas i ddisgyblion ac addas i'w defnyddio mewn bywyd bob dydd, ac mae'n rhaid i hwnna fod, yn y sector Saesneg yn bennaf, ar lafar; … buaswn i dipyn bach yn amheus o dderbyn, fel fframwaith, CEFR fel yr unig fframwaith y mae sôn amdano yn y Bil hwn."*[308]

**204.** Cynigiodd rhanddeiliaid awgrymiadau er mwyn sicrhau bod y Cod yn gweithio mor effeithiol â phosibl:

| Awgrym | Cynigiwyd gan |
|---|---|
| **Cynnwys manylion hawdd eu deall am bob lefel sgiliau** | Mudiad Meithrin[309] |

[306] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 355-356
[307] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 5
[308] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 356
[309] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 3.12

| Awgrym | Cynigiwyd gan |
|---|---|
| **Cynorthwyo cyrff cyhoeddus sy'n defnyddio lefelau iaith eraill i newid i'r fframwaith newydd** | Mentrau Iaith Cymru[310] |
| **Cynnwys ffordd o gynorthwyo aseswyr i gydnabod hyder yn ogystal â gallu** | Mentrau Iaith Cymru[311] |
| **Canllawiau clir i sicrhau y caiff ei weithredu'n gyson** | CCAC ac CLlLC[312] |
| **Ailenwi'r categorïau a chael tri chategori ar wahân, sef "sylfaenol, canolig ac uwch".** | Blynyddoedd Cynnar Cymru[313] |
| **Gwneud yr iaith a ddefnyddir yn y Cod yn haws i rieni a phlant ei deall** | CCAC[314] |

**205.** Disgrifiodd yr Ysgrifennydd Cabinet y Fframwaith Ewropeaidd fel rhywbeth "mor gyffrous", a dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y blynyddoedd o brofiad o'i ddefnyddio i helpu i lywio'r ffordd y caiff ei weithredu yng Nghymru.[315]

**206.** Roedd o'r farn bod y Fframwaith Ewropeaidd yn briodol ar gyfer pobl y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Dywedodd mai dyna sut y mae'r Fframwaith Ewropeaidd wedi'i ddefnyddio yng Ngwlad y Basg ac yn y Ffindir. Er ei fod wedi dechrau fel offeryn i'w ddefnyddio ar gyfer ail iaith, dywedodd ei fod bellach yn cael ei ddefnyddio'n helaeth mewn mannau lle mae dwy iaith yn cael eu defnyddio'n gyffredin.[316]

**207.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru fod y "system oll yn gweithio yn holistaidd efo'i gilydd" mewn gwledydd sy'n defnyddio'r Fframwaith Ewropeaidd. Dywedodd ei fod yn galluogi cyflogwyr i ofyn am sgiliau mewn ffordd fwy soffistigedig.[317]

**208.** Disgrifiodd y Cod fel yr edau arian sy'n rhwymo'r Bil, a dywedodd y byddai'n creu continwwm gydol oes ac yn rhwymo ac yn pontio rhwng addysg yn yr ysgol a'r gweithle.[318] Amlinellodd y Dirprwy Gyfarwyddwr hefyd y cynlluniau ar gyfer

[310] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 2.1
[311] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 2.2
[312] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[313] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 30, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Saesneg yn unig)
[314] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 65
[315] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 248
[316] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 97-99
[317] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 250
[318] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 82

ymgynghori ar y Cod, gan ddweud y byddai hyn yn golygu ymgynghori'n ystyrlon â'r holl sectorau perthnasol, yn ogystal â defnyddio arbenigwyr Ewropeaidd.[319]

**209.** Gwnaethom drafod yr ystod o alluoedd y mae'r Fframwaith Ewropeaidd yn ei chwmpasu. Awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg y gallai fod angen edrych ar lefelau cyn-A1 "i blant ifanc."[320] Fodd bynnag, nid oedd Estyn yn rhagweld y byddai problemau o ran sgiliau cyn-A1, gan nodi bod cyfnod cyn lefel A1 y Fframwaith Ewropeaidd wastad wedi bod wrth "groesawu pobl i'r iaith."[321] Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ei fod yn darparu "ystod eang", gan gyfeirio at y lefel cyn-A1 a dweud bod lefelau C1 ac C2 yn mesur sgiliau "siaradwyr sydd â meistrolaeth lwyr dros y Gymraeg."[322]

**210.** Dywedodd NAHT Cymru na fyddai'r Cod yn cwmpasu plant ar y naill ben a'r llall i'r sbectrwm iaith. Dywedodd nad oedd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer ysgolion. Fodd bynnag, roedd yn dal o'r farn ei fod yn gam calonogol ymlaen.[323]

**211.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd y Cod yn "tynnu bron bob un i fewn." Ond roedd yn cydnabod y bydd rhai pobl nad ydynt ar lefel A1, ac eraill a fydd yn uwch nag C2.[324] Dywedodd y bydd gan y Cod ddisgrifyddion sy'n galluogi pobl i weld a ydynt ar odre'r system hon, ac y bydd y Cod yn cael ei ddefnyddio i gynnig cymorth i bobl wybod sut i wneud hynny.[325]

**212.** Wrth sôn am y Cod, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… it will help not just with the pre-A1 issues, but the way in which, in practice, in other places where the code is more well-known and embedded, there are those sort of plus and minus categories that are used when people are moving, or are on the cusp of, 'Am I B1? Am I B2?' and I think it will offer a helpful flexibility to people on the ground. … It'll be for individuals to decide how they use it. … It will offer them a bit of extra flexibility, not designed to complicate their lives, but just to help them in the work that they do."*[326]

[319] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 87
[320] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 32
[321] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 276
[322] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 44-45
[323] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 48
[324] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 255
[325] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 75
[326] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 80

**213.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 y byddai manylder i'r Cod a fyddai'n adlewyrchu'r gwahanol lefelau ym mhob lefel o'r Fframwaith Ewropeaidd (e.e. A1.1 ac A1.2). Ond dywedodd y byddai'r Cod yn adlewyrchu gofynion penodol y Gymraeg.[327]

**214.** Mewn gohebiaeth, tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at y ffaith bod disgrifyddion lefel cyn-A1 wedi'u hychwanegu pan adolygwyd y Fframwaith Ewropeaidd ddiwethaf yn 2020. Byddai'r lefel hon yn "cynnwys rhywun ar ddechrau eu taith i ddysgu iaith." Fodd bynnag, mae'r lefel hon yn "is-lefel ac nid yw'n berthnasol i bob un o raddfeydd disgrifiadol y CEFR." Nododd fod y Fframwaith Ewropeaidd yn cydnabod lefelau uwchlaw C2, nad ydynt wedi'u nodi yn y fframwaith. Yn ogystal, mae gan y Fframwaith Ewropeaidd hefyd ddisgrifyddion lefel 'plws' i "gynrychioli cymhwysedd cryf iawn ar lefel nad yw eto'n cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer y lefel nesaf."[328]

**215.** Daeth yn amlwg o lythyr yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd y Cod yn mynd ymhellach na'r Fframwaith Ewropeaidd wrth ddisgrifio gallu amrywiol pobl yn y Gymraeg. Dywedodd mai "offeryn cyfeirio yn unig yw'r CEFR a ddefnyddir i hwyluso'r broses hon" o ddatblygu'r Cod, a fydd yn "cynnwys disgrifyddion a ddatblygir yn benodol ar gyfer y Gymraeg."[329]

**216.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn y llythyr hwnnw:

> *"Mae'r darpariaethau yn adran 6 o'r Bil yn caniatáu i'r 'Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg' gynnwys unrhyw beth arall sy'n ymwneud â disgrifio gallu yn y Gymraeg, gan gynnwys disgrifyddion lefel cyn-A1 a lefelau 'plws' y CEFR. Wrth ddatblygu'r Cod o dan adran 6, ystyrir i ba raddau y gellir defnyddio 'dewislen' gyfan y CEFR o raddfeydd i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg."*[330]

**217.** Roedd y cysylltiad rhwng y Fframwaith Ewropeaidd a'r Cwricwlwm i Gymru yn bwnc trafod pwysig arall. Dywedodd Mudiad Meithrin fod cysylltu'r Fframwaith Ewropeaidd â chymwysterau TGAU a Safon Uwch yn "elfen sylfaenol" y mae ei hangen i sicrhau "cysondeb rhwng y disgrifiadau safonol o allu yn y Gymraeg a'r

---

[327] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 83
[328] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 11 Hydref 2024
[329] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 11 Hydref 2024
[330] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 11 Hydref 2024

graddau" y mae pobl yn eu cael. Dywedodd fod hyn eisoes wedi digwydd gyda'r arholiadau Cymraeg i Oedolion.[331] Pwysleisiodd RhAG hefyd fod angen i'r Cod gydweddu ag "anghenion cymwysterau."[332]

**218.** Dywedodd Estyn fod angen ystyried sut i fapio'r Fframwaith Ewropeaidd i weithio mewn cyd-destunau gwahanol, fel ysgolion. Cyfeiriodd at waith treialu gyda "nifer fach o ysgolion uwchradd" yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i weld sut y gellid mapio'r Fframwaith Ewropeaidd mewn ysgolion uwchradd. Roedd hefyd yn gwybod am "lond llaw o beilotiaid" gyda blynyddoedd 8 a 9 mewn ysgolion i weld sut y gall y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol "esblygu'r cwricwlwm sydd ganddyn nhw, yn seiliedig ar y CEFR, ar gyfer cyd-destun ysgol."[333]

**219.** Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fod "cydberthynas" rhwng y fframwaith llythrennedd a'r Fframwaith Ewropeaidd. Roedd o'r farn y gellid cydweddu'r ddau yn "weddol hwylus". Mae eisoes wedi dechrau ar y gwaith hwnnw.[334]

**220.** Tynnodd CBAC hefyd sylw at y gwaith sydd wedi'i wneud i alinio cymwysterau Cymraeg i Oedolion â'r Fframwaith Ewropeaidd. Dywedodd y byddai'n croesawu'r cyfle i ddatblygu cymwysterau eraill yn y dyfodol yn unol â'r Fframwaith Ewropeaidd. Byddai hynny, meddai, yn creu "un continwwm dysgu Cymraeg" o gymwysterau TGAU i gymwysterau Cymraeg i Oedolion.[335] Roedd yn derbyn bod rhywfaint o waith i'w wneud, a dywedodd y byddai llawer o waith paratoadol yn digwydd mewn ysgolion cyn cyrraedd lefel TGAU hefyd.[336] Dywedodd fod y disgrifyddion presennol yn weddol gyfyngedig ac y byddai angen eu haddasu, gan gynnwys sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r cwricwlwm, y cymwysterau a'r fanyleb a'r gyfer dysgwyr 14-16 oed.[337]

**221.** Dywedodd CYDAG ei bod yn bwysig edrych ar sut y bydd y Fframwaith Ewropeaidd yn mapio yn erbyn cymwysterau. Galwodd am drafod ac ymgynghori "manwl" ag ysgolion i'w cynorthwyo i'w roi ar waith.[338] Tynnodd Mentrau Iaith

[331] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 2.3
[332] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.5
[333] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 273
[334] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 54
[335] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 13, CBAC
[336] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 314
[337] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 320
[338] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 245

Cymru hefyd sylw at yr angen i fapio'r Fframwaith Ewropeaidd yn erbyn dulliau asesu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.[339]

**222.** Dywedodd Cymwysterau Cymru, unwaith y bydd y Cod wedi'i lunio, y bydd modd dechrau mapio cymwysterau yn erbyn y Fframwaith Ewropeaidd, yn ogystal â'i fapio yn erbyn y cwricwlwm.

> *"There is one area where the Bill, if it progresses, and the CEFR work to develop a more detailed code, can have a more immediate impact, in that whilst GCSEs have been designed with the intent to have seamless progression into existing A-Levels, we are about to initiate the WJEC review of AS and A-levels, which we think will be a light-touch exercise for most subject areas, and really like a due diligence exercise to make sure there are no broken links from progression, not by looking at GCSE upwards but by looking at A-Level backwards. But we do think that there is probably scope for more substantive changes for Welsh and Welsh second language A-levels."*[340]

**223.** Dywedodd ASCL Cymru ei bod ar ddeall bod ystyriaeth wedi'i rhoi i lefelau'r Fframwaith Ewropeaidd wrth ddatblygu elfen Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu y cwricwlwm. Roedd yn pryderu y gallai fframwaith ychwanegol fel y Fframwaith Ewropeaidd greu mwy o waith a dryswch i'r rhai sy'n gweithio gyda'r disgrifyddion dysgu presennol a'r Cod Cynnydd.[341] Galwodd am wneud y Fframwaith Ewropeaidd yn rhan o'r cwricwlwm er mwyn osgoi gwneud y system yn fwy cymhleth.[342]

**224.** Dywedodd RhAG fod fframwaith llythrennedd llwyddiannus[343] yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru "ers degawdau", a dywedodd fod rhaid i'r fframwaith newydd fod yn "un sydd yn addas at yr oedran o'r blynyddoedd cynnar hyd at ôl 16 a thu hwnt"[344] Gofynnodd a oes angen y Cod mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gan ddweud bod y fframwaith presennol yn gweithio ac y gallai'r Cod danseilio

[339] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 358
[340] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 306
[341] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraffau 8-9 (Saesneg yn unig)
[342] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 52
[343] Sefydlodd Llywodraeth Cymru fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol statudol yn 2013, a oedd yn disodli elfennau o fframwaith sgiliau anstatudol blaenorol. Ymgorfforwyd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi hynny mewn rhaglenni astudio statudol ar gyfer Saesneg, Cymraeg a Mathemateg ac yna yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle, wedi rhoi adolygiad o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith fel rhan o'r gwaith i gefnogi llythrennedd a'i rôl o ran gwella safonau.
[344] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.5

hynny. Fodd bynnag, roedd yn agored i'r Cod gael ei ddefnyddio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.[345]

**225.** Dywedodd Estyn ei bod yn "allweddol" i "raglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a chynorthwywyr dosbarth"[346] fynd law yn llaw â'r Cod newydd.

## Ein barn ni

**226.** Mae cyflwyno'r Cod yn amlwg yn elfen allweddol er mwyn datgloi gweddill darpariaethau'r Bil. Mae achos cryf wedi'i gyflwyno dros ddefnyddio'r Fframwaith Ewropeaidd yn sail i'r Cod hwn. Mae gennym eisoes enghreifftiau o ddefnyddio'r Fframwaith Ewropeaidd yn llwyddiannus mewn cyd-destun Cymreig gyda'r cwricwlwm Cymraeg i Oedolion. Mae'n amlwg ei fod yn fframwaith priodol i'w ddefnyddio ar gyfer dull sy'n seiliedig ar sgiliau. Bydd yn helpu i ddatblygu continwwm dysgu gydol oes ar gyfer y Gymraeg. Y gobaith yw y bydd hyn yn helpu i gynorthwyo pobl i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol. Bydd hefyd yn helpu i gynorthwyo cyflogwyr i nodi lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen arnynt yn eu gweithlu, a thrwy hynny'n helpu o ran recriwtio a dysgu a datblygu.

**227.** Credwn fod lle i fod yn hyderus y bydd y Cod, o'i ddatblygu a'i hysbysebu'n dda, yn galluogi pobl i hunanasesu eu sgiliau iaith yn well. Y gobaith yw y bydd hyn, yn ei dro, yn sicrhau y bydd data ynghylch a yw rhywun yn siaradwr Cymraeg at ddibenion y Cyfrifiad, neu gasglu data ar y Gymraeg mewn unrhyw ffordd arall, yn fwy cadarn.

**228.** Rydym yn obeithiol y bydd y Cod yn helpu i ddangos nad rhywbeth deuaidd yw gallu yn y Gymraeg: eich bod naill ai'n siaradwr Cymraeg neu ddim. Mewn gwirionedd, mae lefelau gwahanol y bydd mwy o bobl yn gallu uniaethu â hwy. Mae'n bosibl y gallai hyn roi mwy o hyder i bobl o ran eu sgiliau iaith eu hunain, ni waeth ble y maent ar y continwwm iaith. Gallai hefyd helpu i annog pobl i ddatblygu eu sgiliau ymhellach, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rydym o'r farn y bydd yn helpu mwy o bobl i weld manteision diwylliannol ehangach byw mewn gwlad ddwyieithog.

**229.** Nid ydym yn rhannu pryderon nifer bach o randdeiliaid ynghylch addasrwydd y Fframwaith Ewropeaidd i'w ddefnyddio yn y cyd-destun Cymreig. Mae enghreifftiau eisoes lle y mae'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol mewn

[345] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 162-163
[346] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn

gwledydd sydd â siaradwyr iaith gyntaf, fel y Ffindir a Gwlad y Basg, yn ogystal â'r rhai sy'n dysgu iaith fel ail, trydedd neu hyd yn oed bedwaredd iaith.

**230.** Roedd yn galonogol cael gwybod gan yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r Cod yn cynnwys disgrifyddion manylach na'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 1 i'r Bil. Yn benodol, byddem yn croesawu rhagor o ddisgrifyddion ar gyfer y rheini nad ydynt eto wedi cyrraedd lefel A1.

**231.** Roedd yn galonogol hefyd clywed sylwadau sefydliadau fel Estyn, CBAC a Cymwysterau Cymru ynghylch addasrwydd Cod sy'n seiliedig ar y Fframwaith Ewropeaidd i'w ddefnyddio mewn ysgolion. Bydd yn hollbwysig bod y gwaith y maent i gyd wedi'i ddisgrifio o ran mapio'r Fframwaith Ewropeaidd yn erbyn y cwricwlwm a chymwysterau yn digwydd, er mwyn sicrhau y gellir integreiddio'r Cod mewn ffordd synhwyrol yn y cwricwlwm a'r fframweithiau asesu. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch.

# 6. Rhan 3: Addysg Gymraeg

## Roedd pryderon ynghylch y diffiniad o addysg Gymraeg, a chategorïau ysgolion. Credwn fod hwn yn faes yn y Bil lle y mae angen mwy o eglurder mewn nifer o leoedd.

**232.** Mae Rhan 3 o'r Bil yn ymwneud â darpariaeth Gymraeg ysgolion. Mae adran 8 yn rhoi trosolwg o'r Rhan hon.

### Diffiniadau

**233.** Mae adran 8 hefyd yn diffinio dau derm allweddol at ddibenion y Rhan hon, sef 'addysg Gymraeg' ac 'ysgol'. Mae'n dweud, ar gyfer y Rhan hon, mai ystyr addysg Gymraeg yw addysgu'r Gymraeg, ac addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgol, i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol. Golyga hyn nad yw'n cynnwys darpariaeth feithrin na darpariaeth chweched dosbarth ysgol. Ystyr ysgol yw ysgol a gynhelir. (Diffinnir y term "ysgol a gynhelir" yn ddiweddarach yn y Bil, yn adran 49.)

**234.** Roedd y diffiniad o addysg Gymraeg yn fater y cododd rhai rhanddeiliaid bryderon yn ei gylch, gan gynnwys:

- y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[347];
- Cymdeithas yr Iaith[348];
- Dyfodol i'r Iaith[349];
- Mudiad Meithrin[350];
- RhAG[351]; a
- Chomisiynydd y Gymraeg[352].

[347] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 4.4
[348] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[349] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 8
[350] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 3.11
[351] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.6
[352] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 4.5

**235.** Dywedodd Dyfodol i'r Iaith fod y diffiniad hwn yn cyfuno dau fater gwahanol. Drwy ddefnyddio "addysg Gymraeg" i gynnwys addysgu'r Gymraeg a darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, "collir ystyr 'addysg Gymraeg'".

> *"Nid yw dysgu iaith fel pwnc erioed wedi cael ei ystyried yn 'addysg'. Os ydyw, mae modd dweud bod ysgol sy'n dysgu Ffrangeg fel pwnc yn cynnig 'addysg Ffrangeg'. Tra bod 'addysg Ffrangeg' yn cael ei chynnig yn y gwersi Ffrangeg, nid yw'n ffeithiol gywir dweud bod yr ysgol yn cynnig 'addysg Ffrangeg'. Mae'r ysgol yn debygol o gynnig addysg Gymraeg / Saesneg / ddwyieithog.*
>
> *Rydym yn bendant o'r farn bod angen gwahaniaethu rhwng 'addysg Gymraeg', sef ysgolion sy'n cynnig y rhan fwyaf o'u haddysg i bob disgybl trwy gyfrwng y Gymraeg, ac eraill.*
>
> *Mae honni bod pob ysgol yng Nghymru'n gallu cynnig 'addysg Gymraeg' yn gam ganfyddiad, ac yn debygol o ddrysu cynllunio addysg a chymysgu disgwyliadau rhieni ac arwain at benderfyniadau hirdymor anaddas i ddisgyblion."*

Dywedodd fod defnyddio "addysg Gymraeg" drwy gydol y Bil yn "gamarweiniol". Mae'r ffordd y mae'r term hwn yn cael ei ddefnyddio yn "groes" i drafodaethau â Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r trafodaethau "a fu yng Nghymru'n gyffredinol ers yr ail ryfel byd."[353]

**236.** Roedd hefyd yn pryderu am y diffyg termau yn y Bil i ddisgrifio ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r ffaith nad oes unrhyw gyfeiriad at addysg drochi oedran cynnar, yr oedd yn ei ddisgrifio fel "sylfaen adferiad iaith yng Nghymru ers yr ail ryfel byd, a'r safon i anelu ati." Cynigiodd awgrymiadau ar gyfer newid y diffiniadau yn yr adran hon i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

> *"Ein cynnig ni yw bod y diffiniad yn Rhan 3, 8(2) yn newid i hyn:*
>
> *(a) Ystyr 'addysg Gymraeg' yw (i) addysg drochi yn y cyfnod o dan 7 oed (ii) addysg mewn ysgolion Cymraeg lle mae 100% o'r disgyblion yn derbyn o leiaf 80% o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg*
>
> *(b) Ystyr 'darpariaeth Gymraeg' yw (i) addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion Cymraeg (ii) addysg a*

[353] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 8

*hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion Cymraeg."*[354]

**237.** Roedd RhAG hefyd yn pryderu ynghylch cyfuno'r ddau gysyniad hyn mewn un diffiniad. Dywedodd fod hyn, yn ôl pob tebyg, er mwyn bod "yn gryno", ond bod perygl iddo "fod yn gamarweiniol" yn hytrach na gwneud pethau'n fwy eglur. Dywedodd fod y diffiniad presennol o addysg Gymraeg "wedi hen sefydlu" a bod perygl gyda'r term newydd y gallai "deilliannau ieithyddol gael eu cymhlethu ymhellach gyda'r diffiniad hwn." Mae rhieni a gofalwyr, meddai, yn deall y term a sut y mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.[355] Dywedodd fod y diffiniad yn y Bil yn "gwanhau" ystyr addysg Gymraeg.[356]

**238.** Roedd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd bryderon am y "diffyg gwahaniaethu" rhwng y ddau. Dywedodd y gallai hyn arwain at "ddiffyg ffocws ar warchod a chynyddu 'addysg cyfrwng Cymraeg'", sy'n ganolog i gyflwyno Cymraeg 2050. Galwodd am i'r Bil fod yn "gwbl glir".[357] Roedd o'r farn y byddai'r newidiadau yn "gymharol fach" ac yn fater o ddiffinio "addysg cyfrwng Cymraeg, gwersi Cymraeg, a'r Gymraeg fel pwnc" ar wahân yn y Bil.[358]

**239.** Heb hyn, roedd yn pryderu y gallai "lesteirio ar allu'r fframwaith cenedlaethol i fynd i'r afael â'r gwahanol anghenion."[359] Yn benodol, roedd o'r farn y byddai'n ei gwneud yn anos nodi a gweithredu'r gefnogaeth a'r ymyriadau cywir. Y rheswm am hyn yw y bydd yr ymyriadau sydd eu hangen yn wahanol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, a'r Gymraeg fel pwnc.[360]

**240.** Roedd gan Gymdeithas yr Iaith hefyd bryderon ynglŷn â'r diffiniad. Dywedodd fod yr ailddiffinio yn "cymylu'r dyfroedd yn ddiangen, ac mae perygl iddo danseilio" amcanion y Bil. Fel Dyfodol i'r Iaith, roedd am weld yr adran hon yn cael ei diwygio. Roedd am i'r cyfeiriad at "addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg" gael ei ddileu.[361]

**241.** Dywedodd Mudiad Meithrin fod y diffiniad "yn dod ag elfen o amwysedd i ddehongliad traddodiadol y term." Galwodd am wahaniaethu rhwng disgwyliadau i addysgu'r Gymraeg, a disgwyliadau o ran darparu addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yn pryderu y gallai'r diffiniad

[354] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 8
[355] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.6
[356] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 172
[357] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 4.4
[358] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 69
[359] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 62
[360] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 71
[361] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith

presennol arwain at roi mwy o flaenoriaeth i addysgu'r Gymraeg nag i addysg cyfrwng Cymraeg.[362]

**242.** Roedd RhAG hefyd yn pryderu ei fod yn "peri trafferthion nes ymlaen yn y Bil gan ddefnyddio'r term yn rhy llac a chyffredinol o lawer heb fanylu digon" ynghylch pa elfen o addysg Gymraeg y mae'n cyfeirio ati. Galwodd am wneud y gwahaniaeth yn fwy eglur yn y diffiniad ond hefyd ym mhob un o'r cyfeiriadau at addysg Gymraeg yn y Rhan hon.[363]

**243.** Cododd Comisiynydd y Gymraeg y mater hwn hefyd, yn enwedig o ran y darpariaethau yn adran 1 sy'n galw am osod targedau i gynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg. Dywedodd nad yw'r "cysyniad o 'gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg' yn gwahaniaethu rhwng y ddau."[364] Dywedodd, er ei bod yn credu bod y bwriad polisi yn y Bil ac yn y Memorandwm Esboniadol yn glir, ei bod yn meddwl "ei bod yn fater o eirio mewn rhai llefydd er mwyn gwneud hynny'n gliriach, achos dwi ddim am weld lleihad na glastwreiddio'r cysyniad o addysg cyfrwng Cymraeg, a bod hynny'n glir."[365]

**244.** O ran y diffiniad mewn perthynas ag adran 1 yn benodol, a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, nodwn nad oes diffiniad ar hyn o bryd. Cododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hyn gyda'r Ysgrifennydd Cabinet,[366] a dywedodd y byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach.[367]

**245.** Roedd Medr o'r farn bod tipyn o amwysedd yn y Bil, a oedd i'w weld at ei gilydd, meddai, drwy gydol y Bil pan fo'n cyfeirio at fathau o ddysgu a allai ddod o fewn y diffiniad hwnnw sy'n disgrifio dysgu Cymraeg, y Gymraeg fel pwnc, a dysgu a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Dywedodd y byddai diffiniadau gwell a mwy eglur yn helpu darparwyr a hefyd yn cefnogi sefydliadau fel Medr. Roedd hefyd yn pryderu bod angen i'r iaith y mae'n ei defnyddio yn ei gynllun strategol gyd-fynd ag iaith y Bil.[368] Roedd Prifysgolion Cymru hefyd o'r farn nad oedd y Bil yn glir ynghylch beth yw ystyr addysg Gymraeg.[369]

---

[362] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 3.11
[363] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.6
[364] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 4.5
[365] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 86
[366] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 24 Hydref 2024
[367] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 15 Tachwedd 2024
[368] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 158
[369] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 294

**246.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y diffiniad wedi'i gynllunio'n fwriadol i gwmpasu'r ymdrech yr oeddent am ei gweld ac yr oeddent am ei chefnogi. Nid oedd o'r farn y byddai'r diffiniad yn tanseilio addysg cyfrwng Cymraeg, ac fe'i disgrifiodd fel diffiniad a oedd wedi'i ystyried yn ofalus iawn ac y bu llawer o drafodaeth amdano.[370] (Rydym yn trafod materion sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg yn yr adran nesaf.)

**247.** Er bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch y diffiniad, nid oedd yn credu y byddai'r Bil yn cael yr effaith "ymarferol" yr oedd rhai wedi'i hawgrymu. Dywedodd:

> *"… mae'r ffaith ein bod ni'n defnyddio'r term 'addysg Gymraeg' yn y Bil i fynd yn fwy na hynny, dydy hwnna ddim yn taro yn erbyn popeth rŷn ni wedi'i wneud yn barod, a phopeth rŷn ni eisiau'i wneud yn y dyfodol— …"*[371]

**248.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru nad oedd y diffiniad hwn yn "ymgais … i newid beth ydy'r term". Dywedodd fod y diffiniad "ar gyfer gweithredu Rhan 3, a sut mae'r cynlluniau cyflawni'n gweithredu."[372] Fodd bynnag, defnyddir y cysyniad o "addysg Gymraeg" a'r un diffiniad o'r term hefyd yn Rhan 4, sy'n ymdrin â'r Fframwaith Cenedlaethol (adran 35(a)).

## Categorïau iaith

**249.** Mae adran 9 yn sefydlu system statudol o gategorïau iaith ysgolion yn ôl darpariaeth addysg Gymraeg yr ysgol. Nid yw hyn yn cynnwys ysgolion arbennig, yr ymdrinnir â hwy yn adran 20. Mae'r Bil yn pennu tri chategori:

- Prif Iaith -Cymraeg;
- Dwy Iaith; a
- Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg.

**250.** Mae system categorïau iaith ysgolion eisoes wedi'i nodi mewn canllawiau anstatudol.[373] Mae'r system honno'n cynnwys tri chategori ac un is-gategori:

---

[370] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 106-107
[371] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 139-140
[372] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 211
[373] Llywodraeth Cymru, Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2021)

- 1. Cyfrwng Saesneg;
- 2. Dwy iaith;
- 3. Cyfrwng Cymraeg; ac
- Is-gategori 3P. Cyfrwng Cymraeg penodedig (lle mae pob disgybl yn ymgymryd ag o leiaf 90 y cant o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg).

**251.** Mae adran 9 yn nodi y bydd categori iaith ysgol yn penderfynu'r swm o addysg Gymraeg y mae rhaid ei darparu.

**252.** Mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'r swm o addysg Gymraeg ar gyfer pob categori. Mae'r swm i'w bennu ar ffurf amrediad. Mae adran 10(2) yn nodi y bydd y swm yn cael ei bennu fel canran dros y flwyddyn ysgol gyfan, a'i fod yn gyfyngedig i "sesiynau ysgol". Golyga hyn nad yw'r ganran yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol. Mae adran 10(3) yn pennu na chaiff Gweinidogion Cymru osod isafswm ar gyfer yr amrediad sy'n llai na 10 y cant ar gyfer ysgolion yn y categori 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'. Corff llywodraethu pob ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer ei chategori.

**253.** Mae adran 11 o'r Bil yn pennu nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori o ysgolion:

- 'Prif Iaith – Cymraeg' – bod disgyblion yn cyrraedd lefel "hyfedr" erbyn iddynt adael addysg orfodol. (Mae hyn yn cyfateb i C1/C2 ar raddfa'r Fframwaith Ewropeaidd.)
- 'Dwy Iaith' – bod disgyblion yn cyrraedd lefel "annibynnol" erbyn iddynt adael addysg orfodol. (Mae hyn yn cyfateb i B1/B2 ar raddfa'r Fframwaith Ewropeaidd.) Bydd rhaid iddynt gyrraedd B2 o ran llafaredd erbyn dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.
- 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg' – bod disgyblion yn cyrraedd lefel "sylfaenol" erbyn iddynt adael addysg orfodol. (Mae hyn yn cyfateb i A1/A2 ar raddfa'r Fframwaith Ewropeaidd.) Yn y dyfodol, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau i newid y nod iaith fel bod disgwyl i ddisgyblion gyrraedd lefel "annibynnol" (B1 neu B2) ac, erbyn dyddiad pellach a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau, lefel B2 o ran llafaredd.

**254.** Mae adran 12 yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud trefniadau asesu o dan y Cwricwlwm i Gymru o dan adran 56 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, y cânt wneud darpariaeth at ddiben sicrhau cynnydd disgyblion tuag at nod dysgu Cymraeg ysgol. Mae adran 12(3) yn diwygio Deddf 2021 i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r nodau dysgu Cymraeg wrth lunio ac adolygu'r Cod Cynnydd.

**255.** Mae adran 13 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach am gategorïau iaith ysgolion. Mae hyn yn cynnwys pwerau i ddiwygio adran 9 ac adran 10(3). Byddai'r pŵer i ddiwygio adran 9 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu neu ddiwygio categori iaith. Byddai'r pŵer i ddiwygio adran 10(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynyddu, dros amser, yr isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgol yn y categori 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'. Nid yw adran 13 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, ond mae'n gosod dyletswydd arnynt i ystyried arfer y pŵer i gynyddu'r isafswm o addysg Gymraeg unwaith bob pum mlynedd.

**256.** Mae adran 21 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal a chyhoeddi cofrestr o gategorïau iaith ysgolion yn eu hardal. Rhaid i'r gofrestr hon gynnwys manylion am unrhyw ysgolion sydd wedi'u hesemptio rhag darparu'r isafswm, a manylion ynghylch pryd y daw'r esemptiad hwnnw i ben. Rydym yn trafod esemptiadau'n ddiweddarach yn y Bennod hon.

**257.** Roedd cefnogaeth eang i'r cysyniad o gategorïau ysgolion, sy'n nodwedd o gyfundrefn addysg Cymru ers rhai blynyddoedd. Dywedodd Mudiad Meithrin y bydd hyn yn "sicrhau cysondeb", ac roedd yn croesawu'r ffaith y byddant yn seiliedig ar y swm o addysg Gymraeg.[374] Roedd o'r farn y byddai hefyd yn "gam pendant" i sicrhau bod lefelau presennol y ddarpariaeth yn cael eu cynnal.[375] Roedd CCAC ac CLlLC hefyd o'r farn y byddai categoreiddio'n sicrhau mwy o gysondeb a thryloywder.[376]

**258.** Ymhlith y rhai eraill a oedd yn cytuno â chyflwyno categorïau ysgol statudol roedd:

- CCAC[377];

[374] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 3.1
[375] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 3.14
[376] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[377] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 84

- Cyngor Sir Caerfyrddin[378];
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs[379];
- Blynyddoedd Cynnar Cymru[380];
- Estyn[381];
- Cyngor Abertawe[382];
- Comisiynydd y Gymraeg[383]; a
- CBAC[384].

**259.** Roedd Mentrau Iaith Cymru yn croesawu'r categoreiddio, gan ddweud y byddai'n "sicrhau atebolrwydd clir rhwng maint y ddarpariaeth ac ansawdd a natur y ddarpariaeth, ac yn rhwym o sbarduno cynnydd mewn deilliannau disgyblion."[385] Dywedodd yr Athro Enlli Thomas fod symlrwydd y categorïau i'w "gymeradwyo." Dywedodd ei bod yn gwybod am athrawon sydd "ddim yn berffaith siŵr" ar hyn o bryd ym mha gategori o ysgol y maent yn gweithio.[386] Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg hefyd y byddai'n rhoi "mwy o eglurder", ac yn sicrhau bod pob ysgol yn cyfrannu at gaffael y Gymraeg.[387]

**260.** Er bod Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn y dylai manylion y categorïau gael eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth, roedd yn teimlo bod angen mwy o fanylder ar wyneb y Bil "ynghylch natur sylfaenol" y categorïau. Roedd o'r farn bod hwn yn "fater rhy bwysig a sylfaenol i fod mewn rheoliadau yn unig; mae'n gwbl greiddiol i ystyr a goblygiadau gweddill y Bil."[388] Dywedodd CYDAG ei bod yn cytuno'n llwyr â'r dystiolaeth hon gan Gomisiynydd y Gymraeg.[389]

**261.** Roedd UCAC hefyd yn cytuno, a galwodd am fwy o fanylion am y categorïau, gan ddweud eu bod yn ganolog i "lwyddiant neu fethiant y Bil."[390] Roedd Estyn hefyd o'r farn bod angen diffiniadau mwy penodol o'r categorïau, ac roedd yn

[378] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 19, Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin
[379] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 26, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
[380] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 30, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Saesneg yn unig)
[381] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 282-283
[382] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 31, Cyngor Abertawe (Saesneg yn unig)
[383] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 46
[384] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 13, CBAC
[385] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 3.1
[386] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 150
[387] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[388] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 3.2
[389] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.4.2
[390] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 3.1

pryderu y gallai hyn “beri dryswch i’r awdurdodau ac i rieni fel ei gilydd.”[391] Roedd yn croesawu symleiddio’r categorïau, ond dywedodd ei fod am eu gweld yn arwain at gynnydd yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg.[392]

**262.** Roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn pryderu bod y pŵer i wneud rheoliadau yn “rhy benagored.” Dywedodd fod angen “datgan yn glir ar wyneb y Bil” fod y swm o addysg Gymraeg “yn berthnasol i bob disgybl o fewn yr ystod berthnasol.” Dywedodd na ddylai fod yn gyfartaledd ar draws carfannau oherwydd y gallai hynny arwain at symiau gwahanol i grwpiau gwahanol. Os yw hynny’n digwydd, meddai, “bydd angen eu dynodi dan gategorïau gwahanol.”[393] Roedd hefyd yn pryderu, oherwydd y bydd y manylion ynghylch y categorïau’n cael eu nodi drwy reoliadau, fod risg y bydd hynny’n “gwanhau” y diffiniad o addysg cyfrwng Cymraeg, a allai “danseilio gallu’r system addysg i gyrraedd y targedau a osodir drwy’r Fframwaith Cenedlaethol.”[394]

**263.** Roedd gan Gymdeithas yr Iaith “bryderon gwirioneddol” am y categorïau. Fe’u disgrifiodd fel rhai “statig”, a dywedodd nad yw’r Bil yn rhoi sicrwydd y bydd ysgolion yn symud ymlaen drwy’r categorïau. Roedd hyn, meddai, yn “codi cwestiynau sylfaenol am effeithiolrwydd y Bil.” Roedd am weld y categorïau’n cael eu dileu, ond gydag ysgolion ‘Prif Iaith – Cymraeg’ yn cael eu diffinio yn y Bil fel ysgolion lle y Gymraeg yw cyfrwng pob gwers heblaw am wersi Saesneg.[395] Dywedodd nad oedd yn credu mewn categoreiddio ysgolion.[396]

**264.** Gofynnodd NEU pam roedd y categorïau ysgolion yn cael eu newid mor fuan ar ôl yr adolygiad diwethaf yn 2021. Dywedodd nad yw’r newidiadau hynny wedi cael digon o amser i gael effaith wirioneddol eto ar gyflawni Cymraeg 2050. Roedd yn pryderu bod y darpariaethau’n ymateb i sefyllfa nad yw wedi cael digon o amser eto i gael ei gweithredu’n llawn, ac y gallai hynny arwain at ganlyniadau anfwriadol.[397]

**265.** Cyfeiriwyd at fonitro darpariaeth yn erbyn yr isafswm ar gyfer pob categori. Mae hyn yn gymwys i bob un o’r tri chategori iaith ar gyfer ysgolion. Roedd NASUWT, fel y nodir ym mharagraff 313, yn pryderu ynghylch rhoi rôl i Estyn yn hyn. Dywedodd Mudiad Meithrin y dylai rôl Estyn yn hyn o beth fod yn “un

[391] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[392] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 283
[393] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraffau 3.1-3.4
[394] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 3.6
[395] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[396] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 401
[397] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)

gydweithredol ac anogol, yn hytrach nag yn un fygythiol".[398] Awgrymodd UCAC mai awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ddylai wneud y gwaith monitro.[399] Dywedodd Mentrau Iaith Cymru nad oedd yn siŵr pwy fyddai'n monitro a yw'r isafswm yn cael ei gyflawni.[400]

**266.** Dywedodd Estyn y byddai'n "sicrhau" bod arolygiadau'n "rhoi sylw dyledus" i'r swm o ddarpariaeth Gymraeg, er mwyn sicrhau nad yw ysgolion "yn mynd islaw'r isafswm." Pwysleisiodd ei bod yn bwysig edrych ar ansawdd y ddarpariaeth hefyd.[401]

### Y categori ysgolion 'Cymraeg – Prif Iaith'

**267.** Wrth ystyried y darpariaethau ynghylch categoreiddio ysgolion, clywsom am bryderon ynghylch y cydbwysedd yn y Bil rhwng darpariaeth Gymraeg a darpariaeth Saesneg. Roedd rhai o'r farn nad oedd y Bil yn dweud digon am ysgolion Cymraeg. Yn eu plith roedd CYDAG,[402] Dyfodol i'r Iaith,[403] a RhAG.[404]

**268.** Galwodd Dyfodol i'r Iaith hyn yn "un o brif ddiffygion y Bil" ac roedd am weld "adran gyfan" ar ysgolion Cymraeg yn cael ei hychwanegu at y Bil.[405] Dywedodd fod angen i'r Bil "sôn am dwf addysg Gymraeg." Dywedodd y byddai hynny'n golygu newid "llawer iawn o eiriad y Bil, bron o'r dechrau i'r diwedd, o ran categoreiddio ysgolion a hefyd diffinio beth yw addysg Gymraeg."[406]

**269.** Er ei bod yn croesawu darpariaethau'r Bil mewn perthynas ag ysgolion cyfrwng Saesneg, dywedodd Comisiynydd y Gymraeg na ddylai datblygiadau yn y sector hwnnw fod "ar draul datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg".[407] Gofynnodd RhAG pam mae'r Bil yn "anwybyddu'r union sector sydd wedi bod yn tyfu…" Awgrymodd fod hyn yn "llithro'n ôl".[408]

**270.** Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fod:

[398] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 3.17
[399] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.9
[400] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 391
[401] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[402] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 228
[403] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 8
[404] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.6
[405] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 8
[406] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 399
[407] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 57
[408] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.6

> *"... datblygu'r Gymraeg ym mhob ysgol yn bwysig ac na ddylai hi wir fod yn ddadl ynglŷn â datblygu'r Gymraeg yn y naill ar draul y llall. ..."*[409]

Dywedodd fod angen parchu a gwarchod cyfraniad un rhan o'r sector addysg ond bod angen "datblygu yn ogystal y gyfundrefn ble mae'r mwyafrif o'n pobl ifanc ni yn dod i gyswllt â'r Gymraeg."[410]

**271.** Clywsom yn gyson am bwysigrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg (y categori 3P anstatudol Cyfrwng Cymraeg Penodedig ar hyn o bryd)[411] er mwyn creu'r siaradwyr mwyaf rhugl a hyderus. Ymhlith y rhai a gododd hyn roedd:

- Cymdeithas yr Iaith[412];
- CYDAG[413];
- Dyfodol i'r Iaith[414];
- Mentrau Iaith Cymru[415];
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol[416];
- RhAG[417]; a
- Chomisiynydd y Gymraeg.[418]

**272.** Dywedwyd wrthym mai darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw'r "safon aur" ac mai dyma'r unig fodel:

> *"... (a) sy'n galluogi'r ysgol i fod yn gymuned Gymraeg a (b) y profwyd ei allu i gynhyrchu siaradwyr Cymraeg rhugl, waeth*

[409] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 87
[410] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 88
[411] Ysgol yw hon sy'n cyflwyno pob maes dysgu a phrofiad drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda 100 y cant o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 90 y cant o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.
[412] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[413] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 4.1
[414] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 9
[415] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 3.1
[416] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 87
[417] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.7
[418] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 4.2

*beth fo'u cefndir ieithyddol. Y model hwn yw'r unig ffordd o ddarparu addysg Gymraeg gynhwysol."*[419]

**273.** Dywedodd RhAG nad addysgu yn y dosbarth yn unig sy'n cefnogi rhugldder, ond:

> *"… holl ethos yr ysgol, y sgyrsiau a geir ac a glywir gyda staff addysgu a staff ychwanegol yr ysgol, y rhai sydd yn gweini cinio, y rhai sydd yn cynnal clybiau cyn ac ar ôl oriau ysgol, ymwelwyr i'r ysgol, y gymuned ehangach o gwmpas yr ysgol - y profiadau cyfannol cyfan hynny sydd yn creu unigolyn hyfedr a hyderus yn y Gymraeg."*[420]

**274.** Tynnodd Dyfodol i'r Iaith sylw hefyd at y rhan y mae'r ysgolion hyn yn ei chwarae o ran bod "yna bontio rhwng y Gymraeg maen nhw'n ei defnyddio yn yr ysgol a'r Gymraeg maen nhw'n ei defnyddio yn y cymunedau".[421]

**275.** Roedd y materion hyn yn gysylltiedig â'r categorïau ysgolion a gynigir yn y Bil, ac yn benodol â'r diffiniad o gategori ysgolion 'Prif Iaith – Cymraeg'. I lawer, byddai cyflwyno categori ychwanegol, a fyddai'n adlewyrchu'r categori 3P anstatudol presennol, sef 'Ysgol cyfrwng Cymraeg benodedig', yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Clywsom fod y cynigion presennol yn y Bil yn rhy eang.

**276.** "Gofid mwyaf" Dyfodol i'r Iaith am y Bil fel ag y mae oedd nad yw'n cynnwys y categori ychwanegol hwn.[422] Dywedodd nad yw'r categori 'Prif Iaith – Cymraeg' yn dod yn agos at ddiffinio sut mae ysgolion Cymraeg yn gweithredu. Roedd yn pryderu y byddai'r categori hwn yn cwmpasu ysgolion lle y mae "51% o'r disgyblion yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg." Ond dywedodd fod ysgolion Cymraeg yn cynnig "addysg drochi gyflawn" i ddisgyblion ac nad oes yr un categori arall yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd am weld categori ychwanegol:

> *"… (ch) y categori 'ysgol Gymraeg, sef ysgolion lle mae 100% o'r disgyblion yn derbyn o leiaf 80% o'u haddysg yn Gymraeg'".*[423]

---

[419] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 9
[420] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.8
[421] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 400
[422] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 400
[423] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 9

**277.** Roedd Mentrau Iaith Cymru yn pryderu, heb gategori uwch, na fyddai symbyliad i ysgolion gynnig yr addysg drochi gyflawn. Gall hynny yn ei dro, meddai, effeithio ar brofiadau disgyblion:

> *"Y perygl yw y byddai ysgol sy'n darparu'r canran a bennir o ddysgu Cymraeg ar gyfer y categori uchaf ond ddim yn darparu profiad cyfannol Cymraeg i'r disgybl yn syrthio i'r un categori ag ysgol sy'n ofod Cymraeg lle mae disgyblion yn cael eu trochi yn y Gymraeg, a dim felly i glustnodi ac adnabod y gwahaniaeth rhwng y ddau fath o ysgol."*[424]

**278.** Roedd gan CYDAG bryderon "sylweddol" am y categori fel y'i nodir yn y Bil. Dywedodd nad yw'n adlewyrchu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol, a bod rhaid "gwarchod a chynnal y sector addysg cyfrwng Cymraeg heb wanhau'r ddarpariaeth bresennol na glastwreiddio'r diffiniad o addysg cyfrwng Cymraeg."[425] Dywedodd Mudiad Meithrin y dylai'r isafswm gyfateb "o leiaf" i'r hyn sydd yn y canllawiau anstatudol presennol. Dywedodd na ddylai'r categorïau newydd hyn "danseilio" y ddarpariaeth bresennol, sef 90 y cant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig, a 70 y cant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn rhai penodedig.[426]

**279.** Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn pryderu am yr "amrediad eang a allai fod" yn y categori hwn.[427] Roedd o'r farn y gellid diwygio'r Bil, i gynnwys adran ychwanegol yn adran 10 a fyddai'n pennu isafswm ar gyfer y categori hwn o ysgolion. "Er enghraifft, gellid nodi na chaiff Gweinidogion Cymru wrth bennu'r amrediad ar gyfer y categori 'Prif Iaith – Cymraeg' bennu isafswm ar gyfer yr amrediad sy'n llai na 80% o ddarpariaeth addysg Gymraeg."[428]

**280.** Dywedodd Cymdeithas yr Iaith fod cael y math hwn o gategori yn "hollbwysig". Roedd hefyd am iddo fod "y Cam Cynnydd olaf ar y Continwwm, a'r gyrchfan ar gyfer pob ysgol."[429] Roedd RhAG hefyd am weld y Bil yn cael ei ddiwygio i gynnwys y math hwn o ysgol. Dywedodd fod hynny'n "hanfodol", gyda'r "ganran uchaf" yn cael ei diffinio'n "gadarn" ar wyneb y Bil.[430] Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y byddai risg o ran cyflawni amcanion polisi'r Bil pe na bai'r rheoliadau'n sicrhau bod y categori 'Prif Iaith – Cymraeg' yn cyfateb i'r

[424] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 3.1
[425] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.4.3
[426] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 257
[427] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 47
[428] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 1.1
[429] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[430] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.7

categori 3P presennol.[431] Roedd CYDAG hefyd am weld y “pedwerydd” categori hwn.[432]

**281.** Roedd yr Athro Gwenno Ffrancon hefyd am weld newidiadau i’r Bil, fel bod y categori ‘Prif Iaith – Cymraeg’ yn cael ei ddiffinio ar y sail “…mai addysgu cyfrwng Cymraeg yn unig fyddai yn yr ysgol yna, heblaw am ddysgu’r Saesneg fel pwnc, a darparu eglurder a gwarchod cyfle i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ddatblygu sgiliau yn llawn trwy gyfrwng y Gymraeg, felly.”[433]

**282.** Roedd CYDAG yn pryderu bod risg ychwanegol i’r categori presennol o ran “ysgolion yn camgyfleu’r hyn ydyn nhw – eu bod nhw’n ysgolion â’u prif iaith yn Gymraeg.”

> *“Ar sail canran, efallai eu bod nhw, ar bapur, ond gallai hwnna fod yn bell iawn, iawn o fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg sy’n trochi’n llwyr ac yn darparu addysg yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn gadael yn rhugl ac yn hyfedr i drafod pob un pwnc y maen nhw wedi’i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ond hefyd fod yr ethos Gymraeg a Chymreig yna hefyd o fewn bywyd yr ysgol.”*[434]

**283.** Nid oedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn credu y byddai diffiniad mwy uchelgeisiol o addysg cyfrwng Cymraeg yn cael effaith ar “ben arall y continwwm”. Roedd yn pryderu am “ganlyniadau anfwriadol” i’r sector ysgolion cyfrwng Cymraeg ac roedd am weld yr ysgolion hynny sy’n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn cael eu gwarchod.[435]

**284.** Roedd Mudiad Meithrin[436] a Chymdeithas yr Iaith ill dau am i bob ysgol newydd yng Nghymru fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Galwodd Cymdeithas yr Iaith am i’r holl gyfundrefn addysg fod yn un cyfrwng Cymraeg erbyn 2050. Roedd am i darged statudol ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg gael ei gynnwys yn y Bil. Dywedodd fod profiad blaenorol wedi dangos “gwendidau gosod targedau anstatudol”. Dywedodd y dylai’r targed hwn nodi “y bydd 100% o blant yn cael addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050.”[437] Galwodd RhAG am beidio ag agor

[431] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 3.5
[432] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.4.4
[433] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 160
[434] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 267-268
[435] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 74
[436] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 3.7
[437] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith

ysgolion cyfrwng Saesneg newydd mwyach, gyda “system” sy’n symud ysgolion cyfrwng Saesneg presennol “ar hyd continwwm”.[438]

**285.** Dywedwyd wrthym y byddai’r dull hwn yn “normaleiddio” addysg Gymraeg, yn helpu i gynyddu’r galw, ac yn cyfrannu’n sylweddol at gyflawni strategaeth Cymraeg 2050.[439]

**286.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet yn glir nad oedd o’r farn bod y Bil yn tanseilio addysg cyfrwng Cymraeg, sydd, meddai, wedi bod yn hynod lwyddiannus yn y 30 mlynedd diwethaf. Dywedodd ei bod wedi bod yn llwyddiant mawr. Roedd y Bil, meddai, yr un mor gefnogol i dwf yn y sector hwn ag yr oedd i wella gallu ysgolion cyfrwng Saesneg i greu siaradwyr hyderus a galluog.[440] Dywedodd fod y Bil yn ceisio gwneud yn fawr o ymdrechion ledled y sector addysg, ac mai’r maes lle’r oedd angen adennill tir fwyaf oedd y sector cyfrwng Saesneg.[441] Dywedodd:

> *“… I think the language of, ‘Does the Bill do too much for this and not enough for that?’ does play in a bit to that view that some people have that somehow this is a zero-sum game—you know, if you do more over here you must be doing less over there—and I just don’t believe that that is the case.”*[442]

**287.** Dywedodd wrthym nad oedd pryderon am ehangder y categori ‘Prif Iaith – Cymraeg’ yn ystyried yn briodol y pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil. Bydd y pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi’r amrediad ar gyfer ysgolion ‘Prif Iaith – Cymraeg’ a ‘Dwy Iaith’.[443] Dywedodd nad oedd angen nodi’r rhain yn y Bil oherwydd bod categorïau a chanrannau eisoes ar gael ar gyfer yr ysgolion eraill hyn, sy’n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Cafodd yr isafswm o 10 y cant a osodir ar gyfer y categori ‘Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg’ ei nodi yn y Bil, meddai, er mwyn creu isafswm sylfaenol y gall pob ysgol ei gyrraedd.[444] Fe wnaethom ofyn am y ffaith nad oes categori ‘Penodedig Gymraeg’ yn y Bil, a dywedodd y byddai hyn yn cael ei gynnwys drwy’r broses o wneud rheoliadau.[445]

---

438 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 177
439 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 3.7
440 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 106-107
441 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 109
442 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 110
443 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 112
444 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 116
445 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 114

**288.** Nid oedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn cytuno y byddai'r categorïau yn y Bil yn achosi unrhyw ddryswch. Dywedodd:

> *"Those schools exist. They already advertise what they do. They are already understood by parents who use them. I don't think the Bill adds any degree of confusion in that way, and, as I say, there will be regulations, it will be laid out there. Schools, in their delivery plans, will be obliged to reflect the obligation that the regulations place on them.*
>
> *… I think some of the evidence undervalues the sophistication of parents in making the choices that they do, because I think they will be weighing up all sorts of things when they make a choice. And I sometimes think that some of the evidence teeters into a belief that the Bill should narrow parental choice in a way that I don't think would be sensible. … It will guide the choices that they make and, in the end, we must allow parents to make those calculations for themselves."*[446]

### Y categori ysgolion 'Dwy iaith'

**289.** Roedd CCAC ac CLlLC yn pryderu am y dryswch posibl rhwng y categori 'Dwy Iaith', a'r categori 'Dwy Ffrwd' blaenorol. Cyn i ganllawiau categoreiddio 2021 gael eu hadolygu, roedd ysgolion Dwy Iaith yn cael eu galw'n ysgolion Dwyieithog.

**290.** Dywedodd ADEW ac CLlLC:

> *"Mae ysgolion 'dwy iaith' angen eglurder o ran natur y ddarpariaeth gan na ellir diffinio'r disgwyliadau mor glir â chyfrwng Cymraeg (3) neu gyfrwng Saesneg (1). Mae categori 'dwy iaith' yn cael ei chysylltu â'r categori blaenorol 'dwy ffrwd' a'i ddrysu."*[447]

**291.** Roedd CCAC o'r farn bod angen "diffinio newid i gategori 2." Dywedodd y byddai hyn yn ei gwneud yn eglur mai ysgol lle mae'r addysgu'n digwydd yn y ddwy iaith yw hon, ac nid ysgol a chanddi ffrwd Saesneg a ffrwd Gymraeg. Byddai hyn yn gwneud y disgwyliadau o ran y categori hwnnw o ysgolion yn gliriach i bawb, meddai.[448]

[446] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 118-119
[447] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[448] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 85

**292.** Roedd gan Mudiad Meithrin hefyd bryderon ynghylch sut y byddai ysgol dwy iaith yn cael ei diffinio.[449]

## Y categori ysgolion 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'

**293.** Yn wahanol i'r categorïau eraill, mae'r Bil yn pennu isafswm o ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'. Mae'r Bil yn gosod isafswm o 10 y cant ar eu cyfer, gyda phwerau i Weinidogion Cymru gynyddu'r isafswm yn y dyfodol. Roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â hyn yn ymwneud â lefel y newid y byddai hyn yn ei olygu i ysgolion, a pha mor gyraeddadwy yw hynny. Trafodir materion yn ymwneud ag esemptiadau dros dro, ac a fyddai 10 y cant yn bodloni'r nodau dysgu Cymraeg ai peidio, yn yr adrannau nesaf.

**294.** Fel y dywed y Memorandwm Esboniadol, mae'r canllawiau anstatudol presennol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cyfrwng Saesneg ddarparu 15 y cant o'u darpariaeth yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth gwricwlaidd a darpariaeth allgyrsiol. Oherwydd y bydd y categorïau iaith yn statudol, dywed:

> *"… nid yw'n ymarferol gosod gofyniad statudol ar ysgolion mewn perthynas â'u darpariaeth allgyrsiol – yn anad dim gan ei bod yn llawer anos monitro darpariaeth allgyrsiol."*[450]

**295.** Gwnaethom drafod i ba raddau yr oedd 10 y cant yn gyraeddadwy. Roedd cysylltiad agos rhwng llawer o hyn a materion ehangach y gweithlu a drafodir ym Mhennod 3. Dywedodd Estyn ei fod yn "rhesymol." Er bod isafswm amser yn bwysig, meddai, mae'n ymwneud ag ansawdd "y ddarpariaeth … addysgeg, a wedyn yr effaith mae hwnna'n ei chael" ar ddysgu. Roedd yn bwysig nad oedd yr amser yn cael ei dreulio "yn gwneud yr un patrymau iaith, er enghraifft, a'r un peth drosodd a throsodd".[451]

**296.** Dywedodd CLlLC fod 10 y cant yn gyraeddadwy os oes digon o arian ac adnoddau yn cael eu 'taflu' at hynny.[452] Dywedodd fod angen 'map ffordd' ynghyd â'r modd i'w gyflwyno. Pwysleisiodd yr agwedd gadarnhaol at y Gymraeg mewn ysgolion ledled Cymru. Roedd o'r farn bod digon o ewyllys i gyflawni hyn, ond nad oes digon o fodd ar hyn o bryd.[453] Dywedodd CCAC ei fod yn realistig ond y

---

[449] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 258
[450] Llywodraeth Cymru, y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.114, Gorffennaf 2024
[451] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 263-265
[452] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 38
[453] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 82

byddai'n her mewn rhai ardaloedd. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd cyllido, a rhoi'r newid ar waith yn raddol.[454]

**297.** Cododd rhai bryderon fod yr isafswm o 10 y cant yn is na'r canllawiau anstatudol presennol. Gofynnodd Mudiad Meithrin sut y bydd "lleihau'r isafswm oriau cyswllt yn cyfrannu at ddatblygu" sgiliau Cymraeg.[455] Dywedodd hefyd, pe bai'r Gymraeg ddim ond yn aros mewn gwersi Cymraeg ffurfiol (ac roedd yn credu mai dyna fyddai'n digwydd gydag isafswm o 10 y cant), y byddai'n anodd gwella rhuglder.[456]

**298.** Roedd Cymdeithas yr Iaith hefyd yn pryderu am y swm hwn. Dywedodd fod y Gymraeg wedi bod yn orfodol ers 1988 a bod "bron pob un plentyn yn derbyn yr isafswm yma yn barod 20 mlynedd yn ôl." Dywedodd nad yw'r swm hwn yn "creu siaradwyr Cymraeg hyderus." Galwodd am isafswm o 30 y cant, gydag ysgolion yn gweithio tuag at hyn "yn syth, gyda chefnogaeth sylweddol gan y Llywodraeth i wneud hynny", a rheidrwydd ar bob ysgol i gydymffurfio â'r gofyniad hwn "o fewn pum mlynedd".[457] Ymhlith eraill a oedd yn cytuno â phryderon ynghylch a yw 10 y cant yn ddigon i greu siaradwyr rhugl roedd Mentrau Iaith Cymru, a alwodd am gynyddu'r isafswm.[458]

**299.** Dywedodd yr Athro Enlli Thomas hefyd, pe bai pethau'n parhau fel ag y maent, gyda 10 y cant yn cael ei gyflwyno drwy addysgu'r Gymraeg fel pwnc, na fyddai cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Dywedodd, "dydy'r sefyllfa fel ag y mae hi ddim yn gweithio." Roedd o'r farn bod hwn yn "gyfle euraidd i gynnig rhywbeth newydd."[459] Dywedodd fod strategaethau y gallai'r Athrofa Genedlaethol newydd (gweler Pennod 8) helpu ysgolion i'w gwreiddio a fyddai'n helpu.[460]

**300.** Dywedodd CYDAG fod 10 y cant yn "ganran isel iawn" o amser disgybl yn yr ysgol, ac esboniodd nad oedd yn ddigon uchelgeisiol, yn enwedig yng nghyd-destun amcanion polisi'r Bil.[461]

**301.** Dywedodd UCAC ei bod yn bwysig bod yr ysgolion hyn yn gorfod "darparu digon o oriau cyswllt i sicrhau bod y dysgwyr yn datblygu'n siaradwyr hyderus." Roedd yn pryderu na ddylai fod canlyniad anfwriadol lle y mae ysgolion cyfrwng Saesneg yn cynnig "arlwy mwy amrywiol o bynciau" nag ysgol cyfrwng Cymraeg,

[454] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 41-43
[455] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 3.8
[456] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 253
[457] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[458] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 374
[459] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 171
[460] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 172
[461] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 278

oherwydd nad oes angen i'r ysgol Saesneg "gynnig cymaint o oriau cyswllt o ran y Gymraeg."[462]

**302.** Dywedodd Estyn fod 10 y cant "o bob blwyddyn ysgol i bob disgybl yn adeiladu yn swm sylweddol erbyn diwedd cyfnod statudol mewn ysgol." Dywedodd, wrth greu continwwm lle y mae cyfle "i gael datblygiad bwriadus o fewn hynny, mae posibilrwydd wedyn o greu siaradwyr annibynnol." Roedd o'r farn bod y system bresennol yn "rhy ddernynnol" i wneud hyn.[463]Awgrymodd hefyd, pan fo 10 y cant o amser yn cael ei dreulio ar y Gymraeg ar hyn o bryd, nad yw hynny'n arwain at gynnydd yn nefnydd y disgyblion o'r Gymraeg.[464]

**303.** O ran yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, clywsom bethau gwahanol. Dywedodd ASCL fod y rhan fwyaf o ysgolion yng nghyfnod allweddol 4 yn agos iawn at y 10 y cant, ond ei fod yn is yng nghyfnod allweddol 3.[465] Ategwyd hyn gan bennaeth ysgol uwchradd a oedd yn cynrychioli NAHT, a ddywedodd fod ei ysgol ef yn agos at 10 y cant yng nghyfnod allweddol 4, ond mai tua 6 y cant oedd y ganran yng nghyfnod allweddol 3.[466]

**304.** O ran ysgolion cynradd, dywedodd NAHT y byddai hyn yn amrywio o ysgol i ysgol, ac, o gymryd 10 ysgol gynradd wahanol, y byddai canrannau pob un ohonynt yn wahanol. Roedd hyn yn aml yn ymwneud â chapasiti'r gweithlu.[467] (Rydym yn trafod hyn yn fanylach ym Mhennod 3.)

**305.** Dywedodd cynrychiolydd CLlLC o Flaenau Gwent, er bod y Gymraeg yn cael ei siarad a'i haddysgu ym mhob ysgol ym Mlaenau Gwent, ei bod yn hyderus nad yw pob ysgol yn cyrraedd 10 y cant ar hyn o bryd.[468] Roedd hefyd o'r farn y byddai cyrraedd 10 y cant yn naid fawr.[469]

**306.** Dywedodd CCAC fod y darlun yn amrywio'n "sylweddol" ar draws Cymru, a'i fod yn dibynnu ar y cyd-destun lleol.[470]

**307.** Yn ein harolwg o blant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (yr ydym yn cydnabod nad oedd yn sampl gynrychioliadol ledled Cymru) dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr fod y Gymraeg yn cael ei haddysgu iddynt ar hyn o bryd am rhwng

[462] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.9
[463] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 266
[464] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 285
[465] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 72
[466] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 76
[467] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 73
[468] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 71
[469] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 73
[470] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 77

2.5 a 6 awr yr wythnos. Pan gawsant eu holi ynghylch isafswm o 10 y cant, roedd y farn yn gymysg, gyda rhai yn falch, rhai yn ddifater, a rhai yn negyddol. Dywedodd y rhai a oedd yn negyddol am y cynnig fod yr iaith yn ddiflas neu'n anodd i'w dysgu.[471]

**308.** Codwyd pryderon ynghylch gosod isafswm o 10 y cant. Er bod NEU Cymru yn cytuno y dylid pennu isafswm o ddarpariaeth, nid oedd o'r farn y dylai'r isafswm hwn ymwneud ag oriau cyswllt Cymraeg. Galwodd am gymryd gofal wrth bennu isafswm ar ysgolion cyfrwng Saesneg, yn enwedig os nad oes ganddynt y capasiti o ran y Gymraeg yn y gweithlu.[472]

**309.** Dywedodd y Comisiynydd Plant ei bod yn bwysig bod yr isafswm o ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei gyflwyno ar y cyd, "gan gynnwys dysgwyr, i sicrhau ei fod yn ymateb yn effeithiol i anghenion amrywiol – yn arbennig yn achos y rhai nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddyn nhw, yn ogystal â dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol."[473]

**310.** Roedd Cyngor y Gweithlu Addysg hefyd yn cytuno y bydd rhai ysgolion:

> *"… lle mae cysylltiad cyfran fwy o ddysgwyr â'r Gymraeg gartref neu yn eu cymuned leol yn gyfyngedig. Mewn rhai cymunedau o'r fath, efallai bod cyfran uchel o ddysgwyr sy'n dod o gartrefi lle bod Saesneg yn iaith ychwanegol. Bydd hi'n bwysig sicrhau bod anghenion addysgol cymunedau o'r fath yn cael eu hystyried."*[474]

**311.** Trafodwyd sut olwg fyddai ar y 10 y cant. Dywedodd yr Athro Enlli Thomas fod y ddarpariaeth o 10 y cant yn "amwys" a bod angen ei hystyried ymhellach.[475] Dywedodd, pe bai hi'n gweithio mewn ysgol yn y categori hwn, "fuaswn i ddim yn siŵr iawn beth sy'n cyfri", a bod risg o "wneud y *tick-box*" er mwyn cyrraedd yr isafswm, ond efallai na fyddai hynny'n "fuddiol ar gyfer y bwriad sydd tu ôl iddo fo."[476] Gofynnodd a oedd yn ganran "o'r diwrnod… o'r wythnos… o'r pynciau. Beth yn union ydy'r syniad fanna?" Os cynyddu ymwneud y disgyblion â'r Gymraeg yw'r bwriad, meddai, "mae yna, wrth gwrs, bob math o ffyrdd o wneud hynny sydd

[471] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), Canfyddiadau arolwg, Hydref 2024, paragraffau 25-30
[472] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[473] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, Comisiynydd Plant Cymru
[474] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[475] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor
[476] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 156

efallai yn mynd i fod yn fwy buddiol i ddisgyblion…", a nododd bwysigrwydd mannau cymdeithasol mewn ysgolion er mwyn gwneud hyn.[477]

**312.** Fodd bynnag, roedd CYDAG yn croesawu'r ffaith bod y 10 y cant yn ymwneud â gweithgareddau cwricwlaidd, ac nid gweithgareddau allgyrsiol.[478]

**313.** Roedd undebau'r athrawon yn pryderu'n arbennig am yr hyn a fyddai'n digwydd pe na bai ysgol yn gallu cyrraedd yr isafswm o 10 y cant. (Rydym yn trafod y cyfle ar gyfer esemptiadau mewn adran ar wahân isod.) Dywedodd NASUWT fod angen rheoli'r canlyniadau yn sensitif pe bai hyn yn digwydd. Nid oedd yn glir, meddai, beth fyddai'r canlyniadau a beth oedd y gosb fwyaf. Dywedodd y byddai defnyddio Estyn i fonitro hyn yn mynd yn groes i ethos cydweithredol, anfygythiol datblygu iaith. Roedd yn pryderu y byddai'n effeithio'n andwyol ar iechyd meddwl athrawon di-Gymraeg.[479]

**314.** Clywsom safbwyntiau gwahanol hefyd ynghylch sut y byddai'r 10 y cant yn cael ei fesur. Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y byddai defnyddio cyfartaledd ar draws ysgol gyfan "yn cymylu'r dyfroedd", ac yn ei gwneud yn anos deall beth sy'n cael ei ddarparu ar draws gwahanol flynyddoedd ysgol. Galwodd am gategoreiddio fesul carfan o fewn ysgolion.[480] Byddai hyn yn arbennig o bwysig, meddai, yn yr ysgolion hynny sydd â ffrydiau iaith gwahanol, a dywedodd y byddai cyfartaledd ar draws y ddwy ffrwd "yn gwbl ddiystyr".[481]

**315.** Dywedodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig y gallai hyn arwain at ganlyniad anfwriadol, sef y gallai'r gofynion newydd yn y Bil greu atebolrwydd newydd sydd fel petai'n mynd yn groes i'r amcan sy'n canolbwyntio ar ethos a diwylliant Cymraeg a meithrin awydd i ddefnyddio'r iaith mewn bywyd bob dydd.[482]

**316.** Clywsom bryderon hefyd y gallai cynyddu nifer yr oriau ar gyfer addysgu'r Gymraeg gael effaith ar gwricwlwm ehangach yr ysgol. Gofynnodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a oedd y canlyniad anfwriadol posibl hwn wedi'i ystyried, yn enwedig yng ngoleuni'r ddarpariaeth o ran y cwricwlwm TGAU y gellid ei gynnig mewn ysgol.[483] Cododd NAHT hyn hefyd, gan ddweud bod y cwricwlwm presennol eisoes yn orlawn ac, os bydd cynnydd, y bydd rhaid peidio ag addysgu

[477] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 155
[478] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 263
[479] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 03, NASUWT, paragraff 9d (Saesneg yn unig)
[480] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 79
[481] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 81
[482] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 22, Gwasanaethau Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig)
[483] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 22, Gwasanaethau Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig)

rhywbeth. Byddai'n her i ysgolion nodi'r hyn na fyddai'n cael ei addysgu, meddai.[484]

**317.** O ran a yw 10 y cant yn gyraeddadwy, tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at y dystiolaeth o ymgynghoriad 2021 ar y targedau anstatudol. Dywedodd fod tua hanner yr ysgolion cyfrwng Saesneg bryd hynny yn credu bod 15 y cant o fewn eu gafael. Roedd yn cydnabod bod hynny ar adeg pan oedd yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol hefyd. Dywedodd fod rhai ysgolion bryd hynny o dan 10 y cant, ond mai'r farn oedd fod hwn yn ffigur rhesymol.[485] Cydnabu mai pump y cant oedd y ddarpariaeth isaf a welwyd yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol.[486]

**318.** O ran y pryderon a godwyd fod 10 y cant yn llai na'r canllawiau anstatudol presennol o 15 y cant, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd y Bil yn golygu na ellid defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau allgyrsiol. Tynnodd sylw hefyd at y gofyniad i ysgolion hybu ethos Cymraeg ac ymdeimlad o ddiwylliant Cymraeg ochr yn ochr â'r isafswm o ddarpariaeth Gymraeg. Dywedodd mai'r diben oedd helpu awdurdodau lleol i fesur pa weithgarwch sy'n digwydd yn eu hysgolion.

> *"… Now, the only really reliable way you can do that is to capture what goes on during the compulsory school day, because that is the one thing that is common to everybody. Different schools will have different approaches to extra-curricular activities. They're voluntary; some children will take them up, and other children will be doing other things, so you wouldn't be capturing comparable forms of data, and the effort in this part of the Bill is to improve comparability. So, that's why we decided, not in any way to devalue the importance of those extra-curricular activities, to capture, for data purposes, the things that go on inside the compulsory school day."*[487]

**319.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ei bod yn rhagweld y byddai ysgolion sy'n cyrraedd yr isafswm o 10 y cant "jest yn dysgu'r Gymraeg fel pwnc", ond nad oedd dim yn rhwystro ysgol o'r fath rhag cyflwyno'r isafswm drwy ddulliau eraill, fel astudio pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

---

[484] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 76
[485] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 30
[486] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 124
[487] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 267-268

Dywedodd nad rhywbeth "yn unig ar gyfer ysgolion categori 3" yw addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.[488]

**320.** Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn derbyn mai addysgu'r Gymraeg fel iaith fyddai'n digwydd gan mwyaf, ond dywedodd ei bod yn bwysig bod y Gymraeg hefyd yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu. Byddai hynny'n helpu i ddangos ei bod yn iaith fyw, meddai, a hefyd yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch disodli rhannau eraill o'r cwricwlwm. Dywedodd y gellid defnyddio rhannau eraill o'r cwricwlwm i gynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg,[489] er enghraifft drwy gynnal gwasanaeth ysgol wythnosol yn Gymraeg, a fyddai'n cyfrif tuag at y 10 y cant. Roedd yn hyderus, meddai, y byddai rhywfaint o greadigrwydd ac arloesi, a ffyrdd newydd o wneud pethau, ochr yn ochr â'r dulliau traddodiadol. Dywedodd:

> *"... 20 minutes a day—and you're almost there. You've then got to do some other things alongside it, and you'll be at that floor, and then we'll be in a position to push on from there."*[490]

**321.** O ran sut y byddai'r 10 y cant yn cael ei fesur, cadarnhaodd un o uwch gyfreithwyr Llywodraeth Cymru nad oedd y 10 y cant yn ffigur fesul disgybl. Dywedodd mai mater o fesur yr hyn y mae'r ysgol yn ei wneud yn gyffredinol yw hyn, yn hytrach na phob unigolyn. Ond pwysleisiodd mai amcan y Bil yw bod pob plentyn yn gadael yr ysgol â lefel benodol o sgiliau Cymraeg.[491] Bydd yr hyblygrwydd hwn yn y system, meddai, yn golygu y gellir ystyried anghenion penodol plant penodol.[492]

## Nodau dysgu Cymraeg

**322.** Dywedodd Dyfodol i'r Iaith fod ganddo "farn dra chymysg" am y nodau dysgu. Dywedodd nad oedd yn teimlo bod categorïau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer oedolion sy'n dysgu ail iaith yn "gwbl berthnasol" i gyfundrefn ysgolion y wladwriaeth.[493] (Rydym yn trafod materion sy'n ymwneud â phriodoldeb y Fframwaith Ewropeaidd mewn ysgolion ac ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf yn y Bennod flaenorol.)

**323.** Roedd rhai'n pryderu y byddai'r nodau dysgu yn gosod disgwyliadau afresymol, ac y gallent hyd yn oed atal pobl rhag dewis ysgolion 'Prif Iaith –

[488] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 210
[489] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 100
[490] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 126
[491] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 311
[492] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 313
[493] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 11

Cymraeg'. Dywedodd Dyfodol i'r Iaith nad oedd digon o "wahaniaethu", yn enwedig rhwng ysgolion 'Dwy Iaith' ac ysgolion 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'.[494]

**324.** Roedd UCAC yn pryderu mai B1/B2 yw'r nod ieithyddol ar gyfer ysgolion 'Dwy Iaith'. Dywedodd y dylid disgwyl i "nifer helaeth" o ddisgyblion yr ysgolion hyn gyrraedd C1/C2. Roedd yn pryderu y bydd disgwyliadau rhai ysgolion "yn gostwng" ac "na fydd y disgwyliadau'n ddigon heriol."[495]

**325.** Cododd UCAC bryderon hefyd am ysgolion sy'n dweud ar hyn o bryd eu bod yn ddwyieithog "ond, yn y pen draw, dydyn nhw ddim yn ysgolion dwyieithog o gwbl." Dywedodd fod "sawl enghraifft o'r ysgolion hynny ym mhedwar ban" Cymru.[496]

**326.** O ran pryderon am unrhyw gamgyfleu posibl o ran categori ysgol, dywedodd un o uwch gyfreithwyr Llywodraeth Cymru fod gofynion ar gyfer pob categori y mae rhaid eu bodloni, "felly mae yna ddadl bod hynny ynddo'i hun yn ateb y gofid".[497]

**327.** Un o'r materion a drafodwyd gennym oedd pa mor ymarferol y byddai'r nodau dysgu Cymraeg.

**328.** Roedd yr Athro Enlli Thomas o'r farn bod y nod o greu siaradwyr C1/C2 mewn ysgolion 'Prif Iaith – Cymraeg' yn "uchelgeisiol o ystyried y math o ddefnydd o Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc". Dywedodd fod ymchwil wedi "dangos dro ar ôl tro" fod gwahaniaethau rhwng plant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ar sail iaith yr aelwyd. Dywedodd nad oedd yn "awtomatig nac o reidrwydd yn gyraeddadwy" i bob disgybl yn y sector Cymraeg "oni bai bod yna gefnogaeth a hyfforddiant briodol i athrawon i ddeall sut, pryd a pham y dylid gwahaniaethu."[498]

**329.** Roedd gan Gomisiynydd y Gymraeg farn debyg a chyfeiriodd at feddylfryd y "1970au", sef bod "gollwng plentyn o gartref di-Gymraeg yn y gyfundrefn yna [ysgol cyfrwng Cymraeg] yn golygu bod y plentyn jest yn naturiol yn troi'n siaradwr rhugl a hyderus." Dywedodd, er mai'r ysgolion hyn yw'r rhai mwyaf tebygol o greu siaradwyr rhugl a hyderus, fod angen bod yn "realistig" ynghylch a fyddent yn awtomatig yn gallu cyrraedd lefelau C1/C2. Dywedodd fod risg y gallai gosod y

494 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 11
495 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.6
496 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 210
497 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 212
498 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor

targed hwnnw "gael *knock-on effects* ar y gallu iddyn nhw fod yn gwbl rhugl ac yn siaradwyr B arbennig o dda."[499]

**330.** Roedd yr Athro Enlli Thomas o'r farn bod y nod o alluogi disgyblion mewn ysgolion 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg' i gyrraedd B2 "maes o law yn heriol iawn." Ond dywedodd fod rhaid gosod targedau uchel er mwyn sicrhau newid, a bod y naill a'r llall yn bosibl "os ydi'r camau gweithredu priodol (sydd yn cael eu cynnig gan y Bil) mewn lle ac yn effeithiol."[500]

**331.** Er ei fod yn croesawu'r nodau dysgu "uchelgeisiol", dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg y gallai fod heriau ymarferol o ran eu cyflawni. Cyfeiriodd yn benodol at gael staff digon cymwys. Dywedodd y byddai angen gweithlu "cymwys tu hwnt i annibyniaeth (B1/B2), sy'n gyfystyr â safon lefel A." Cyfeiriodd hefyd at ysgolion lle y mae'n bosibl na fydd disgyblion yn cael unrhyw Gymraeg gartref neu yn eu cymuned leol.[501]

**332.** Dywedodd NEU Cymru mai ysgolion ddylai benderfynu ar ddeilliant plentyn, yn hytrach na bod disgwyliad cyffredinol o gyrraedd B2.[502]

**333.** Dywedodd Cymdeithas yr Iaith na fyddai'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn cyflawni'r nodau dysgu a osodir ynddo. Dywedodd fod "perygl y bydd dibyniaeth ar addysgu'r Gymraeg fel ail iaith fel llwybr at greu siaradwyr hyderus… mae consensws bod dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn gwbl aneffeithiol fel llwybr i greu siaradwyr hyderus."[503]

**334.** Dywedodd Mudiad Meithrin y byddai rhaid cynyddu isafswm y ddarpariaeth er mwyn i ddysgwyr "wir gyrraedd" lefelau B1/B2.[504] Nid oedd wedi'i ddarbwyllo y byddai 10 y cant yn ddigon.[505] Dywedodd Cymdeithas yr Iaith nad yw 10 y cant "yn creu siaradwyr hyderus."[506] Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod astudio'r Gymraeg yn "angenrheidiol ond yn annigonol" i gyrraedd lefel B2. Dywedodd y byddai rhaid "atgyfnerthu astudio'r Gymraeg fel pwnc gyda phrofiadau dysgu cyfrwng Cymraeg mewn meysydd dysgu eraill."[507]

[499] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 137-138
[500] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor
[501] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[502] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[503] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[504] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 252
[505] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 276
[506] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 372
[507] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 4.7

**335.** Dywedodd NEU Cymru fod y gwahaniaethau yn yr oriau dysgu dan arweiniad sy'n angenrheidiol i gyrraedd lefelau C1/C2 yn sylweddol – rhwng 320 a 400 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer B2, a rhwng 520 a 900 o oriau dysgu dan arweiniad i gyrraedd C1 ac C2:

> *"… This will have a significant impact on the timetable, and the Welsh Government need to set out what learners and the workforce can stop doing, in order to make this ambitious Bill a reality."*[508]

**336.** O ran y ffigurau hyn, dywedodd Cymwysterau Cymru, pe baent yn ymwneud â blynyddoedd 10 ac 11, y byddai hynny i'w weld yn llawer iawn o oriau, ac yn cyfateb, meddai, i bum TGAU o ran amser. Ond pe baent cyfeirio at oriau ar draws y cyfnod uwchradd cyfan, roedd o'r farn y gallai hynny fod yn realistig.[509]

**337.** Cyfeiriodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) Cymru yn benodol at y nodau iaith a phlant byddar. Roedd am weld rhywfaint o hyblygrwydd ynddynt i blant byddar, ac roedd am i'w hanghenion cyfathrebu gael eu hystyried. Roedd yn pryderu nad yw'r Bil ar hyn o bryd ond yn eithrio'r rheini mewn ysgolion arbennig rhag cyflawni'r nodau hyn. Ac eto, meddai, mae mwyafrif helaeth plant byddar mewn addysg brif ffrwd. Roedd am gael sicrwydd na fydd y plant hyn yn ei chael yn anodd sicrhau lle mewn ysgol oherwydd pryderon na fyddant yn cyrraedd lefel B2. Dywedodd y gellid unioni hyn drwy ddiwygio'r targed mewn perthynas â phlant ag ADY neu golled synhwyraidd a gydnabyddir gan awdurdod lleol.[510]

**338.** Un pwnc trafod allweddol, yn amlwg, yw sut y gallai'r nodau iaith gydblethu â chymwysterau ac asesiadau. (Rydym eisoes wedi cyfeirio yn yr adran flaenorol at rai pryderon ynghylch sut y gallai gofynion i gyflwyno rhywfaint o Gymraeg effeithio ar gyflwyno'r cwricwlwm.)

**339.** Roedd Mentrau Iaith Cymru yn "falch dros ben" fod y Bil yn cysylltu'r trefniadau asesu yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 â nodau dysgu'r Bil hwn. Dywedodd fod "sicrhau bod modd mesur deilliannau ieithyddol disgyblion mewn modd sy'n cyd-fynd gyda nod dysgu'r categorïau amrywiol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant gweithredu nodau'r bil yma".[511]

---

[508] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[509] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 327
[510] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 29, NDCS (Saesneg yn unig)
[511] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 3.4

**340.** Dywedodd Cymwysterau Cymru y byddai dysgwyr sy'n gwneud TGAU Cymraeg ail iaith ar hyn o bryd yn debygol o fod ar tua lefel A1/A2. Dywedodd y byddai cyrraedd B2 yn newid sylweddol i'r dysgwyr hyn. Dywedodd y byddai angen i lawer o bethau gyfrannu at hynny, ac y byddai'r amser sy'n cael ei neilltuo, yn ôl pob tebyg, yn un o'r pethau hynny.[512]

**341.** Dywedodd CBAC y byddai'n anodd iawn diffinio B2 fel rhywbeth sy'n gyfwerth â Safon Uwch. Ar hyn o bryd, mae angen tua 120 o oriau dan arweiniad ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Craidd, a 60 awr o ddysgu dan arweiniad ar gyfer Lefel 2 Cymraeg Craidd Ychwanegol. Dywedodd fod angen cynnig ehangach a mwy o gymwysterau cyn y gellid mapio'r Fframwaith Ewropeaidd drosodd yn uniongyrchol. Dywedodd fod angen bod yn ofalus wrth geisio eu mapio er mwyn sicrhau bod tebyg yn cael ei gymharu â thebyg, a bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno yn y ffordd fwyaf priodol.[513]

**342.** O ran yr amseru ar gyfer y nodau iaith, dywedodd Cymdeithas yr Iaith:

> *"Pryderwn yn ddirfawr am eiriad adran 11(2)(b) y Bil, sy'n gosod nod cyrhaeddiad ieithyddol plant "erbyn dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau", yn hytrach nag "erbyn 2050" fel y nodwyd yn y Papur Gwyn. Byddai hyn yn rhoi rhwydd hynt i weinidogion wthio'r targed ymlaen drwy reoliadau os nad ydynt ar drywydd i'w gyrraedd, gan ailadrodd patrwm y blynyddoedd diwethaf o ostwng targedau yn hytrach na gweithredu'n gadarn i'w cyrraedd."*[514]

**343.** Tynnodd ColegauCymru sylw at effaith bosibl y nodau dysgu hyn ar y sector addysg bellach. Gofynnodd:

> *"… beth yw'r disgwyliad ar golegau addysg bellach o ran cefnogi'r dysgwyr hynny nad oeddent wedi llwyddo i gyrraedd lefel B2? O ystyried y newidiadau i'r strwythurau TGAU, gallai hyn fod yn heriol i'w gyflawni. … Mae'n bwysig bod unrhyw oblygiadau i ddysgwyr sy'n ailsefyll TGAU Cymraeg mewn addysg ôl-16 yn cael eu hystyried yn ofalus ac yn llawn, o ran y ddeddfwriaeth a hefyd o ran datblygu cymwysterau dilynol."*[515]

---

[512] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 326
[513] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 325
[514] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[515] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 20, ColegauCymru

**344.** Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn derbyn bod cyrraedd B2 yn darged uchel, ond dywedodd fod angen iddo fod yn uchel.[516]

**345.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru nad oedd yn gwybod eto sut y mae'r Fframwaith Ewropeaidd yn cyd-fynd â graddau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, ond bod TGAU Cymraeg Ail Iaith "rhywle yn A1." O godi'r uchelgais ac uwchsgilio staff, meddai, "dros amser, mi fydd lefelau a sgiliau iaith... yn codi."[517]

## Cynnydd ieithyddol

**346.** Er bod RhAG yn croesawu'r rhagdybiaeth a nodir yn adran 11(4) y bydd disgyblion yn parhau mewn ysgol o'r un categori iaith pan fyddant yn symud i'r ysgol uwchradd, roedd am weld hynny'n cael ei gryfhau. Dywedodd fod symud rhwng y sector ysgolion Cymraeg a'r sector ysgolion Saesneg yn aml yn digwydd oherwydd bod ysgolion Saesneg "yn agosach ... neu'n haws i'w cyrraedd o ganlyniad i ddiffyg cludiant addas a hygyrch." Dywedodd fod y Bil:

> *"... yn rhoi cyfle yma i osod yn glir y rhagdybiaeth bod y plant yn symud i'r ysgol o'r un categori neu uwch. Bydd yr adran hon yn cryfhau gallu Awdurdodau Lleol ac ysgolion i bontio gydag ysgolion o'r un categori. Bydd yn alinio gyda'r awydd i roi cyfleoedd trochi hwyr ym mlwyddyn 7 ac 8 i ddisgyblion hefyd. ..."*[518]

**347.** Awgrymodd RhAG y dylid rhoi "mae yna ragdybiaeth gref" yn lle "tybir", fel y byddai adran 11(4) yn dweud:

> *Mewn perthynas â'r nodau dysgu Cymraeg ar gyfer ysgol gynradd,* **mae yna ragdybiaeth gref** *bod disgyblion yr ysgol yn parhau ag addysg mewn ysgolion o'r un categori iaith hyd nes iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol.*

**348.** Dywedodd mai yn yr ardaloedd lle y mae "yna ddilyniant ieithyddol amlwg o fewn y system addysg" y mae plant yn aros yn y cyfrwng iaith hwnnw. Dywedodd ei bod yn bwysig bod y cynnydd ieithyddol yn cael ei gefnogi "o fabandod hyd at addysg ôl-16, bellach ac uwch."[519]

---

516 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 27
517 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 260
518 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.9
519 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 186

**349.** Dywedodd un o gyfreithwyr Llywodraeth Cymru mai nod adran 11(4) oedd "rhoi'r modd cynllunio yna i'r ysgolion cynradd fel eu bod nhw'n gwybod beth fydd y taflwybr pan fydd y disgybl yna'n cyrraedd yr ysgol uwchradd".[520]

**350.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a fyddai'n fodlon ystyried newid adran 11(4) fel ei bod yn dweud "yr un categori iaith o leiaf" yn hytrach nag "yr un categori iaith", er mwyn peidio â diystyru'r posibilrwydd y gallai disgybl symud ymlaen i ysgol sydd â lefel uwch o ddarpariaeth addysg Gymraeg.

**351.** Nid oedd wedi'i ddarbwyllo ynghylch cryfhau'r ddarpariaeth hon, a dywedodd nad oedd am weld y paramedrau cynllunio yn ymddangos fel pe baent yn cyfyngu ar y dewis i deuluoedd.

> *"I think there is a relationship with the planning expectations that this section sets out, because if you state them too powerfully, I think they begin to impinge on those choices that parents can make. But it's not primarily about parental choice, it's primarily about planning parameters."*[521]

**352.** O ran plant sy'n symud allan o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Saesneg, dywedodd fod y system wedi buddsoddi ynddynt, a'i bod yn gas ganddo beidio â gweld y buddsoddiad hwnnw'n cael ei feithrin. Dywedodd ei fod yn awyddus i blant barhau drwy addysg cyfrwng Cymraeg, ond mai dewisiadau i deuluoedd eu gwneud yw'r rheini, ac nad oedd am i bobl deimlo bod y dewisiadau y maent yn eu gwneud yn cael eu barnu.[522]

## Cynlluniau Cyflawni Addysg Gymraeg

**353.** Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion lunio cynllun cyflawni addysg Gymraeg ("y cynllun cyflawni"). Rhaid i'r cynllun cyflawni nodi:

- categori iaith yr ysgol;
- y swm o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol ar adeg llunio'r cynllun;
- sut y bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg Gymraeg yn unol â'i chategori iaith;

[520] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 168
[521] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 173
[522] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 184-185

- sut y bydd yr ysgol yn hybu addysg drochi hwyr;
- cynigion y corff llywodraethu o ran y swm o addysg Gymraeg y mae'r ysgol yn bwriadu ei ddarparu yn ystod cyfnod y cynllun cyflawni, a sut yr eir ati i gynnal a chynyddu'r swm hwnnw pan fo hynny'n rhesymol ymarferol;
- cynigion y corff llywodraethu o ran sut y bydd yr ysgol yn hybu ethos a diwylliant Cymraeg o fewn yr ysgol; hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol; a hwyluso gwelliant parhaus yn addysg Gymraeg yr ysgol; a
- sut y bydd y corff llywodraethu yn paratoi ar gyfer newid categori iaith yr ysgol, os yw'n bwriadu cynyddu swm yr addysg Gymraeg a ddarperir.

Mae adran 14(2) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu roi sylw i Gynllun Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol ac ymgynghori â phobl benodedig. Mae adran 14(3) yn nodi y bydd cynlluniau cyflawni yn cael effaith am gyfnod o dair blwyddyn ysgol. Rhoddir pwerau i Weinidogion Cymru o dan adran 14(4) i wneud rheoliadau i newid hyd y cyfnod y mae cynllun cyflawni yn cael effaith amdano, ac i wneud darpariaethau am ffurf a chynnwys cynllun cyflawni.

**354.** Mae adran 15 yn nodi'r broses ar gyfer cymeradwyo cynllun cyflawni. Rhaid i gyrff llywodraethu gyflwyno drafft o'r cynllun cyflawni i'r awdurdod lleol o leiaf naw mis cyn i'r cynllun gael effaith. Mae adran 15(4) yn nodi y caiff yr awdurdod lleol:

- Gymeradwyo'r cynllun cyflawni fel y'i cyflwynwyd;
- Cymeradwyo'r cynllun cyflawni ag addasiadau y cytunwyd arnynt â'r corff llywodraethu; neu
- Wrthod y cynllun cyflawni a rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu ailystyried y cynllun cyflawni.

Nodir yn adran 15(6), os yw awdurdod lleol yn gwrthod cynllun cyflawni ysgol, fod rhaid iddo roi rhesymau dros y penderfyniad a phennu erbyn pryd y mae rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno drafft pellach. Unwaith y bydd cynllun wedi'i gymeradwyo, rhaid i gorff llywodraethu ysgol, o dan adran 15(8), gyhoeddi'r cynllun a gymeradwywyd.

**355.** Mae adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion adolygu'r cynllun cyflawni o leiaf unwaith yn ystod oes y cynllun. Mae adran 16(2) yn caniatáu i gyrff llywodraethu ysgolion ddiwygio'r cynllun (er bod adran 17 wedyn

yn nodi darpariaethau pellach os bydd corff llywodraethu am newid categori iaith yr ysgol). Mae adran 16 hefyd yn pennu darpariaethau tebyg i'r rhai ar gyfer y cynllun gwreiddiol, sef bod rhaid i'r corff llywodraethu roi sylw i'r Cynllun Strategol Lleol a chyflwyno drafft o'r cynllun diwygiedig i'r awdurdod lleol ei gymeradwyo. Unwaith eto, caiff yr awdurdod lleol gymeradwyo'r cynllun, ei gymeradwyo ag addasiadau neu ei wrthod. Unwaith y caiff ei gymeradwyo, rhaid cyhoeddi'r cynllun diwygiedig. Wrth wneud hynny, o dan adran 16(5) rhaid i'r corff llywodraethu ddarparu crynodeb o'r diwygiadau a gynigir a'r rhesymau drostynt.

**356.** Mae adran 17 yn gymwys pan fo corff llywodraethu am ddiwygio cynllun cyflawni i newid categori iaith ysgol. Nodir na chaniateir newid categori iaith:

- O gategori 'Dwy Iaith' i gategori 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'; nac
- O gategori 'Prif Iaith – Cymraeg' i gategori 'Dwy Iaith' neu gategori 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'.

**357.** Cytunwyd yn gyffredinol â'r cynigion. Roedd y rhai a oedd yn cytuno yn cynnwys:

- Cyngor Sir Caerfyrddin[523];
- Cyngor y Gweithlu Addysg[524];
- Estyn[525];
- CYDAG[526];
- UCAC[527]; a
- Chomisiynydd y Gymraeg[528].

**358.** Croesawodd Mentrau Iaith Cymru y cysylltiad rhwng cynllun yr ysgol a chynllun yr awdurdod lleol a fydd yn helpu o ran atebolrwydd ac sy'n "debygol o

[523] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 19, Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin
[524] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[525] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 290
[526] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.4.9
[527] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 214
[528] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 59

sbarduno gwelliannau."[529] Dywedodd Estyn hefyd y byddai'n "cau'r cylch" rhwng cynlluniau cenedlaethol a rhai lleol.[530]

**359.** Dywedodd RhAG fod ysgolion cyfrwng Cymraeg eisoes yn cynllunio'r ddarpariaeth drwy gynllun datblygu'r ysgol ac felly nid oedd yn gweld "anhawster" o ran y cynigion.[531] Dywedodd UCAC hefyd nad oedd hyn yn newid sylweddol i'w aelodau, a'i bod yn "allweddol" i bob ysgol gynllunio fel hyn.[532]

**360.** Roedd Cyngor y Gweithlu Addysg yn obeithiol y byddai'r cynlluniau'n helpu ysgolion i ddatblygu strategaethau sy'n addas i gyd-destun penodol yr ysgol. Roedd yn teimlo y byddai'r ymagwedd "ymgynghorol" a nodir yn y Bil yn helpu i "feithrin amgylchedd mwy cydsyniol ar gyfer gweithredu (a, lle bo galw, ehangu) addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog."[533]

**361.** Serch hynny, cododd rhai o'r ymatebwyr faterion ymarferol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar bedwar maes:

- A oedd angen cynllun annibynnol ac a ellid ei ymgorffori mewn cynlluniau eraill sy'n bodoli eisoes.
- Y capasiti a'r arbenigedd i lunio cynlluniau mewn ysgolion, ac i'w cymeradwyo mewn awdurdodau lleol.
- A fyddai angen cynllun o'r fath ar ysgolion 'Prif Iaith – Cymraeg'.
- Cyfnod amser cynlluniau o'r fath a sut y mae'n cyd-fynd â fframweithiau cynllunio eraill fel Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

**362.** Mynegodd CCAC ac CLlLC bryderon am y "baich ychwanegol" o baratoi dogfennau pellach. Gwnaethant ddweud y dylai'r cynllun cyflawni "gael ei integreiddio i gynlluniau gwella ysgolion [Cynlluniau Datblygu Ysgolion] i leihau llwyth gwaith a darparu dull cydlynol o wella ysgolion." Gwnaethant alw am ganllawiau i leihau dyblygu ac i sicrhau bod y cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg yn cyd-fynd â chynlluniau eraill gyhyd â phosibl.[534] Dywedodd CCAC fod angen iddo fod "yn rhan integredig o systemau presennol gwella ysgolion."[535] Dywedodd

[529] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 3.5
[530] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 289
[531] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.11
[532] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 214
[533] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[534] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[535] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 91

CLlLC y byddai'n gweithio'n dda iawn pe bai'n cael ei ychwanegu at gynllun gwella'r ysgol.[536]

**363.** Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cytuno y dylai'r cynllun cyflawni gael ei ymgorffori yng nghynllun datblygu'r ysgol oherwydd "ei fod yn greiddiol i waith yr ysgol." Roedd am weld templedi'n cael eu defnyddio i helpu o ran cysondeb. Awgrymwyd hefyd y gallai fod yn briodol i "ysgolion tebyg i weithio gyda'i gilydd ar gynllun os oes materion yr un peth ac yna addasu i adlewyrchu anghenion penodol yr ysgol".[537] Dywedodd ASCL Cymru fod cynllun iaith Gymraeg yn rhan o gynllun datblygu 90 y cant o ysgolion ar hyn o bryd.[538]

**364.** Galwodd Cyngor y Gweithlu Addysg ar awdurdodau lleol i "chwarae rôl gadarn yn cefnogi ysgolion".[539] Dywedodd CYDAG fod angen cydnabod y llwyth gwaith ychwanegol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.[540] Tynnodd Cyngor Abertawe sylw hefyd at bryderon ynghylch llwyth gwaith, yn enwedig y baich gweinyddol posibl ar dimau arwain ysgolion.[541]

**365.** Pwysleisiodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yr effaith bosibl ar lywodraethwyr. Dywedodd y bydd y llwyth gwaith sy'n deillio o'r cynllun cyflawni yn arwain at fwy o waith a chyfrifoldeb, a allai arwain at drafferth, yn ei dro, o ran recriwtio llywodraethwyr.[542] Serch hynny, dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg mai ymarferwyr ddylai arwain y gwaith o lunio'r cynllun "gyda llywodraethwyr yn cefnogi yn unol â'u rôl ddynodedig (sy'n strategol ac nid yn weithredol)." Galwodd hefyd am sicrhau nad yw prosesau'n cymryd gormod o amser nac yn mynd yn or-fiwrocrataidd i ysgolion.[543]

**366.** Dywedodd NASUWT nad creu cynlluniau oedd y broblem, ond eu rhoi ar waith, sy'n ymwneud ag ariannu, capasiti staffio a gweithio gyda phlant a rhieni.[544]

**367.** Tynnodd CCAC ac CLlLC sylw hefyd at y llwyth gwaith ychwanegol i awdurdodau lleol wrth iddynt orfod cymeradwyo'r cynlluniau. Bydd hyn yn "rhoi llwyth gwaith sylweddol ar Awdurdodau Lleol, hyd yn oed os oes templedi a

[536] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 95
[537] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 19, Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin
[538] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 82
[539] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[540] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.4.10
[541] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 31, Cyngor Abertawe (Saesneg yn unig)
[542] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 22, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig)
[543] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[544] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 215

chanllawiau ar gael." Gwnaethant ddweud bod yr effaith ar staff ysgolion ac awdurdodau lleol wedi'i "thanamcangyfrif."[545] Dywedodd CCAC:

> *"... os oes disgwyliad i bob awdurdod lleol gymeradwyo cynlluniau cyflawni ysgolion unigol, a chategorïau iaith, naw mis cyn gweithredu, dwi'n meddwl bod hwnna, wedyn, yn achosi problem o ran capasiti awdurdodau lleol hefyd. Mae timau swyddogion awdurdodau lleol yn fach, oherwydd eu bod wedi gorfod cwtogi dros y blynyddoedd diwethaf, a dwi yn poeni na fydd digon o ddarpariaeth, dim digon o gapasiti o fewn yr awdurdodau, i allu ymdopi ag edrych ar yr holl gynlluniau yma."*[546]

**368.** Cyfeiriodd Cyngor Sir Caerfyrddin at hyn hefyd, gan nodi y byddai 111 o ysgolion/lleoliadau dysgu yn ardal yr awdurdod lleol, gan olygu y byddai "angen mwy o amser swyddogion profiadol a chymwys."[547] Dywedodd CYDAG ei bod yn bwysig nad oedd y broses gymeradwyo yn oedi unrhyw weithredu mewn ysgolion.[548]

**369.** Dywedodd Dyfodol i'r Iaith ei bod yn "anodd credu" y byddai gan bob corff llywodraethu yr arbenigedd i lunio cynllun cyflawni o'r fath.[549] Dywedodd CCAC ac CLlLC fod angen "rhywfaint o waith" mewn cymunedau i sicrhau "bod yr holl randdeiliaid yn rhannu nodau CSCA yr Awdurdod Lleol, yn enwedig gan y bydd Cyrff Llywodraethu nawr yn cael y dasg o ddarparu cynlluniau cyflawni addysg Cymraeg ysgolion." Roeddent o'r farn bod hyn yn rheswm arall dros sicrhau bod cyllid digonol a hyblygrwydd yn yr amserlen ar gyfer newidiadau. Gwnaethant hefyd nodi y gallai fod angen hyfforddiant ychwanegol ar rai llywodraethwyr i'w helpu i gyflawni'r gwaith hwn.[550]

**370.** Fodd bynnag, roedd Estyn yn meddwl na fyddai'r cynlluniau'n rhy "feichus, ac ni ddylai fod yn waith".[551]

---

545 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
546 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 90-91
547 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 19, Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin
548 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.4.10
549 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 14
550 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
551 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 289

**371.** Gofynnodd nifer o randdeiliaid a fyddai angen cynllun o'r fath ar ysgolion 'Prif Iaith – Cymraeg'. Roedd hyn yn cynnwys Dyfodol i'r Iaith a ddywedodd ei fod yn "amherthnasol" i'r ysgolion hyn gan fod eu polisi iaith eisoes wedi ei bennu.[552]

**372.** Dywedodd CCAC ac CLlLC fod y cyfnod tair blynedd ar gyfer y cynlluniau cyflawni yn "llawer byrrach" na'r cyfnod amser ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.[553]

**373.** Mynegodd ASCL Cymru bryderon ynghylch sut y byddai'r cyfnod amser ar gyfer y cynlluniau cyflawni yn cyd-fynd â'r cylch cynllunio ariannol. Er mwyn bod yn strategol, dywedodd fod angen cynlluniau tymor hwy, er enghraifft cynlluniau ar gyfer tair, pump neu saith mlynedd, ond, meddai, ar hyn o bryd mae arweinwyr ysgolion yn ffodus os oes ganddynt gynllun ariannol un flwyddyn. Felly, heb sicrhau'r sefydlogrwydd ariannol hirdymor hwnnw yn gyntaf, roedd o'r farn bod unrhyw waith cynllunio yn arwynebol, ac y gallai olygu na ellir cyflawni'r nod y bwriedir ei gyflawni.[554]

**374.** Un o'r materion penodol a nododd Medr oedd y goblygiadau i ysgolion sydd â chweched dosbarth. Mae chweched dosbarth ysgolion yn hollbwysig i addysg Gymraeg, yn ôl Medr, ond mae'r drefn reoleiddio yn gymhleth. Medr sy'n gyfrifol am oruchwylio a rheoleiddio chweched dosbarth ysgolion. Roedd am i'r rôl hon gael ei chydnabod yn y Memorandwm Esboniadol, fel ei bod yn amlwg i ysgolion, wrth lunio'r cynllun cyflawni, fod rhaid iddynt ystyried gofynion rheoleiddio Medr a nodir yn benodol, er enghraifft, yn y cod ymgysylltu â dysgwyr.[555]

**375.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd y cynllun cyflawni yn "gynllun mawr." Dywedodd na fyddai angen iddi fod yn "ddogfen fawr" ond ei bod yn bwysig bod rhywle lle y mae arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion yn "gallu canolbwyntio ar sut y gallan nhw symud beth sy'n digwydd yn yr ysgol ymlaen". Dywedodd ei fod yn ymwneud a mwy nag iaith a'i fod hefyd yn ymwneud â "diwylliant a phopeth sy'n mynd gyda hwnna." Am y rhesymau hyn, dywedodd fod "pwrpas" i ysgolion Cymraeg gael cynllun cyflawni.[556]

**376.** O ran cyfnod amser y cynllun cyflawni, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn ymgais i'w gysoni â chyfnod y cynlluniau datblygu ysgolion.[557]

---

552 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 14
553 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
554 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 82
555 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 208-209
556 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 153
557 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 156

**377.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru, yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, wedi gofyn barn pobl am y cynnig i roi'r rôl o gymeradwyo cynlluniau i awdurdodau lleol, a "chroesawyd hyn gan fwyafrif yr ymatebwyr", meddai.[558]

## Esemptiadau

**378.** Mae adran 18 yn darparu y caiff corff llywodraethu ysgol, pan fo'n llunio neu'n diwygio ei gynllun cyflawni cyntaf, wneud cais i'r awdurdod lleol am esemptiad dros dro rhag y gofyniad i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg sy'n ofynnol fel y'i nodir yn adran 10(3) (sef 10 y cant ar hyn o bryd). Mae adran 18(2) yn nodi'r hyn y mae rhaid i'r cynllun cyflawni ei nodi mewn perthynas â'r esemptiad arfaethedig:

- Y rhesymau pam nad yw'n rhesymol ymarferol i'r ysgol ddarparu'r isafswm.
- Sut y mae'r ysgol yn cynnig darparu'r isafswm.
- Y dyddiad erbyn pryd y bydd yr ysgol yn gallu darparu'r isafswm, y mae rhaid iddo fod o fewn cyfnod tair blynedd y cynllun cyflawni.
- Gwybodaeth am y gefnogaeth y mae ei hangen ar yr ysgol i'w galluogi i ddarparu'r isafswm o ddarpariaeth.

Mae adran 18(3) yn darparu y rhoddir esemptiad dros dro os yw awdurdod lleol yn cymeradwyo cynllun cyflawni'r ysgol gyda'r wybodaeth uchod wedi'i chynnwys ynddo.

**379.** Mae adran 19 yn darparu y caiff ysgol wneud cais am esemptiad pellach am dair blynedd pan fo'n llunio ei hail gynllun cyflawni. Mae hyn yn gymwys pan fo corff llywodraethu yn parhau o'r farn nad yw'n rhesymol ymarferol i'r ysgol ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg ar gyfer ysgol yn y categori 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'. Dim ond ar ddechrau cyfnod yr ail gynllun cyflawni y caniateir yr esemptiad hwn, ac nid yn ystod cyfnod y cynllun cyflawni. Dim ond i ysgolion a gafodd eu hesemptio o dan eu cynllun cyflawni cyntaf y mae hyn ar gael. Mae adran 19(2) yn nodi pa wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn y cynllun cyflawni wrth geisio esemptiad pellach:

[558] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 11 Hydref 2024

- Pam na chafodd y cynigion yn y cynllun cyflawni cyntaf eu gweithredu, neu pam nad oeddent wedi llwyddo.
- Y rhesymau pam nad yw'n rhesymol ymarferol o hyd i'r ysgol ddarparu'r isafswm.
- Y cynigion pellach ar gyfer sut y bydd yr ysgol yn darparu'r isafswm.
- Dyddiad erbyn pryd y bydd yr ysgol yn gallu darparu'r isafswm (na chaiff fod yn hwyrach na diwedd cyfnod y cynllun cyflawni tair blynedd).
- Gwybodaeth am y gefnogaeth y mae ei hangen ar yr ysgol i'w galluogi i ddarparu'r isafswm o ddarpariaeth.

Rhaid i'r awdurdod lleol gymeradwyo esemptiad o'r fath, fel rhan o'i gymeradwyaeth i'r ail gynllun cyflawni. Fodd bynnag, mae adran 19(3)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi gwybod i Weinidogion Cymru y rhesymau pam y cymeradwywyd y cynllun cyflawni, a gwybodaeth am y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i'r ysgol.

**380.** Roedd safbwyntiau cymysg ar yr esemptiadau. Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg eu bod yn "ddoeth". Nododd ei bod yn bwysig bod "cymorth targedig i ysgolion a chynllun am gynnydd (gydag amserlen glir)… yn cyd-fynd â'r broses esemptiadau."[559] Dywedodd CCAC fod awdurdodau lleol yn cefnogi'r cynigion o ran esemptiadau.[560]

**381.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn deall pam roedd y cynigion hyn yn cael eu gwneud. Dywedodd, "hyd yn oed mewn sefyllfa o eithriad, fe ddylai'r cynllunio ddechrau nawr. Ond dwi'n croesawu'r cysyniad a'r dull sy'n cael eu hawgrymu."[561] Pwysleisiodd Estyn hefyd bwysigrwydd cynllunio, a bod hynny'n dechrau nawr.[562]

**382.** Dywedodd ASCL Cymru fod y darpariaethau esemptio yn gohirio'r broblem heb wneud unrhyw beth i'w datrys, ac nad yw ond yn lliniaru pethau. Dywedodd na fydd esemptiadau yn golygu y bydd y gweithlu sydd ei angen yn ymddangos yn sydyn. Nododd ei bod yn bwysig sicrhau bod adnoddau a chyfleusterau ar gael fel nad oes angen yr esemptiad.[563]

---

559 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
560 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 111
561 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 60
562 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 301
563 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 92

**383.** Dywedodd Mentrau Iaith Cymru nad oedd yn anghytuno ag esemptiad pe bai'n gwneud y Bil yn "weithredol bosibl" ond roedd am i lefel yr esemptiad gael ei phennu ar 10 y cant. Felly, gallai ysgol ofyn am esemptiad "i rai sefyllfaoedd anarferol iawn" fel na fyddai rhaid iddi gynyddu lefel ei darpariaeth o 10 y cant. Y rheswm am hyn yw oherwydd y dylai ysgolion eisoes fod yn darparu'r lefel hon o ddarpariaeth. Ni allai weld "unrhyw fudd o gwbl" mewn rhoi esemptiad i ganiatáu i ysgolion beidio â darparu'r lefel sylfaenol hon o ddarpariaeth.[564] Am y rhesymau hyn, dywedodd Estyn ei fod yn disgwyl gweld "ychydig iawn" o esemptiadau. O ganlyniad, roedd am gael mwy o eglurder ynghylch pryd y gellid defnyddio esemptiadau.[565]

**384.** Serch hynny, roedd eraill yn anghytuno â'r cynigion, gan gynnwys Cymdeithas yr Iaith. Galwodd am i'r adrannau hyn o'r Bil gael eu dileu'n gyfan gwbl. Dywedodd ei bod yn bosibl i ysgolion gael eu hesemptio am hyd at chwe blynedd, sef "bron i chwarter (24%) y cyfnod hyd 2050." Dywedodd y byddai'r esemptiadau yn golygu y byddai plant yn colli'r cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg.[566] Tynnodd Mudiad Meithrin sylw hefyd at yr effaith ar blant mewn ysgolion sydd ag esemptiadau, gan ddweud y byddant yn colli cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg y mae plant mewn ysgolion eraill yn elwa arnynt.[567]

**385.** Dywedodd Mudiad Meithrin fod ganddo "bryder" am yr esemptiadau. Mewn achosion lle rhoddir esemptiadau, dylent fod:

> *"… am y cyfnod byrraf posib, gyda chynllun gweithredu penodol yn cael ei rhoi yn ei le gan yr ysgol a'r awdurdod lleol, cydweithio gydag ysgolion cyfagos, neu drwy ba bynnag ffyrdd, er mwyn sicrhau dydyn ni ddim yn methu'r plant, yn y tymor hir, sydd yn mynychu'r ysgol yna."*[568]

**386.** Dywedodd yr Athro Enlli Thomas nad oedd yn cefnogi esemptiadau "os nad oes yna resymau penodol iawn, iawn, iawn." Dywedodd mai'r unig reswm y gallai esemptiad fod yn briodol yn ei barn hi oedd pe na bai'r gweithlu yn ei le. Ond hyd yn oed o dan yr amgylchiadau hyn, dywedodd nad oes angen staff rhugl i "roi'r Gymraeg i ddisgyblion" neu i'w hannog i ymwneud â'r Gymraeg.[569] Yn gyffredinol, felly, nid oedd yn meddwl bod unrhyw sefyllfaoedd lle byddai angen

[564] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 374
[565] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 299
[566] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[567] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 275
[568] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 275
[569] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 164-165

esemptiad.[570] Roedd yr Athro Gwenno Ffrancon yn cytuno, a dywedodd, os caiff esemptiadau eu caniatáu, y byddai angen iddynt fod am gyfnodau "amser byr iawn" er mwyn cyflawni amcanion y Bil.[571]

**387.** Roedd rhai yn pryderu y byddai'r esemptiadau'n dod yn norm. Dywedodd Mudiad Meithrin fod rhaid cael terfynau "clir a chadarn" ar gyfnod unrhyw esemptiad. Dywedodd na fyddai'n dderbyniol i ysgolion gael "eithriad parhaol".[572] Roedd Estyn yn rhannu'r pryderon y gallai ddod yn norm.[573]

**388.** Dywedodd CYDAG na ddylai esemptiadau fod yn opsiwn. Roedd yn pryderu, "trwy alluogi ysgolion i gael eu heithrio am set o resymau, ydyn ni'n ei osod fel opsiwn iddyn nhw i'w cynnig eu hunain i gael eu heithrio?" Ni ddylai esemptiadau fod yn opsiwn ond:

> *"… proses sy'n gallu cael ei rhoi mewn lle er mwyn cydnabod y sefyllfa bresennol, am beth bynnag set o amgylchiadau, ond gyda chynllun cadarn mewn lle wedyn er mwyn sicrhau bod yna amserlen benodol i ddod â nhw allan o'r cyfnod eithrio yna, ac, yn sicr, ddim i fynd mewn i ail gyfnod o eithrio…".*

Dywedodd fod "risg" y byddai esemptiadau "yn troi'n fwy cyffredin na fyddai unrhyw un yn dymuno".[574]

**389.** Roedd UCAC yn bryderus am hyd yr esemptiadau, gan ddweud eu bod "yn peri gofid". Dywedodd fod rhaid rhoi cynlluniau ar waith "er mwyn sicrhau llwyddiant y Bil ac nad oes angen esemptiad ar unrhyw ysgol." Dywedodd y byddai esemptiadau yn fwy tebygol ar gyfer "ysgolion ar y ffin a'r rheiny sydd mewn ardaloedd Seisnig iawn."[575]

**390.** Dywedodd CCAC nad oedd yn meddwl y byddai angen dau gyfnod esemptio ar lawer o ysgolion. Dywedodd fod y darpariaethau yn adlewyrchu "gwahanol fannau cychwyn ysgolion a lle maen nhw arni ar hyd y daith a'r heriau staffio gwahanol sy'n cael eu hwynebu ar draws Cymru." Nododd eu bod hefyd yn darparu hyblygrwydd ar gyfer "unrhyw faterion neu argyfwng annisgwyl sy'n gallu codi." Dywedodd fod materion diogelwch diweddar gyda RAAC mewn rhai

[570] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 175
[571] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 166
[572] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 3.18
[573] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 298
[574] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 278-281
[575] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.7

ysgolion yn dangos y math o sefyllfa annisgwyl sy'n golygu y byddai'n dda cael hyblygrwydd.[576]

**391.** Roedd rhai cwestiynau ynghylch sut y byddai'r esemptiadau'n gweithio. Gofynnodd Cymdeithas yr Iaith a fyddai esemptiadau ychwanegol ar gael yn y dyfodol pan fyddai isafswm lefel y ddarpariaeth Gymraeg yn cynyddu, hyd yn oed pe bai ysgol eisoes wedi defnyddio ei hesemptiadau dros dro a phellach.[577] Dywedodd Estyn y byddai angen "tystiolaeth gref" yn nodi pam yr oedd esemptiad wedi'i ganiatáu.[578]

**392.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg y byddai'n croesawu "arweiniad pellach i ysgolion ar yr amgylchiadau pan all ystyriaethau llwyth gwaith fod yn ffactor wrth ganiatáu eithriadau i ysgolion."[579]

**393.** Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn glir bod y Bil yn darparu ar gyfer dau estyniad a dim estyniad pellach. Dywedodd mai diwedd yr ail gyfnod esemptio yw 2036, sy'n beryglus o agos at 2050. Dywedodd na fyddai esemptiadau parhaus yn helpu i gyflawni'r amcanion polisi. Teimlai fod dau gyfnod o esemptiadau yn rhesymol iawn.

> *"It's designed, as I say, to make sure that those schools continue to want to be on the journey, but we'll get to a point where I think you have to say, 'You've had as long as we're able to give you.'"*[580]

**394.** Dywedodd, os nad yw ysgolion yn gallu gweithio tuag at gyrraedd lefel o 10 y cant yn ystod y cyfnodau y cânt eu hesemptio:

> *"… in a way that is meaningful, in a way that does result in young people who've gone through that experience coming out of it in ways that allow them to be confident and competent users of the language—. If we can't achieve that, then the Bill really will not have achieved what it set out to do at all. … we've built in some safeguards … but the risk is one that the Bill was constructed to try to grapple with from the beginning."*[581]

[576] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 112-113
[577] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[578] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 300
[579] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[580] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 279
[581] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 308

**395.** Roedd yn glir nad oedd am weld ysgolion yn defnyddio esemptiadau “fel rhywbeth normal.” Dywedodd na fyddai modd i ysgol fanteisio ar esemptiadau fel y mynno, gan nodi y byddai rhaid cael sgwrs gyda’r awdurdod lleol, a allai ddweud nad yw’n meddwl bod angen esemptiad ar ysgol. Dyma pam y mae’n meddwl y byddant yn eithriadol. Nid oedd yn credu y bydd ysgolion yn ceisio twyllo’r system. Ond nododd hefyd:

> *“Sometimes they are not as confident as I would be of their own capacity to do the things we ask them to do. That’s why we must give them the comfort of there being some exclusions when they really are up against it, but they are exceptions. They are not the norm …”*[582]

**396.** Dywedodd fod y cyfnodau esemptio yn rhoi hyblygrwydd a mwy o amser paratoi i’r ysgolion hynny sy’n gweld bodloni’r gofyniad 10 y cant fel mwy o her. Cydnabu fod rhai ardaloedd lle y mae’n fwy tebygol y bydd angen esemptiadau, fel Blaenau Gwent (enghraifft a godwyd wrth holi’r Ysgrifennydd Cabinet). Fodd bynnag, pwysleisiodd fod yna gryn amser cyn y bydd rhaid i ysgolion fodloni’r ddarpariaeth ofynnol, gan ddweud na fydd rhaid i unrhyw ysgol fodloni hyn am o leiaf bump neu chwe blynedd arall. Dywedodd y byddai cymorth ar gael yn ystod y cyfnod hwn. Nid oedd yn meddwl ei fod y tu hwnt i allu unrhyw awdurdod addysg, yn enwedig o ystyried eu bod yn gallu cydweithio ag eraill yn hyn o beth, i gyrraedd y lefel ofynnol dros y cyfnod hir a ganiateir.[583]

## Ysgolion arbennig

**397.** Nid oes gofyniad i ysgolion arbennig ddarparu swm penodol o ddarpariaeth addysg Gymraeg nac i ddynodi eu categori iaith. Fodd bynnag, mae adran 20 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol arbennig lunio cynllun addysg Gymraeg ysgol arbennig gymunedol sy’n nodi:

- y swm o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol;
- sut y bydd y corff llywodraethu yn hybu ethos a diwylliant Cymraeg; a
- sut y bydd yn hybu defnydd o’r Gymraeg yn yr ysgol.

Mae adran 20(3) yn darparu i gorff llywodraethu ddynodi’n wirfoddol gategori iaith ar gyfer yr ysgol, os yw’n dymuno gwneud hynny.

---

[582] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 145-146
[583] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 121

**398.** Croesawyd y dull a gynigir ar gyfer ysgolion arbennig yn gyffredinol gan nifer o randdeiliaid gan gynnwys CCAC ac CLlLC;[584] Cyngor Sir Caerfyrddin;[585] a CYDAG.[586]

**399.** Fodd bynnag, cododd nifer o randdeiliaid bryderon nad yw'r Bil yn sôn am ddysgwyr ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd. Tynnodd NEU Cymru sylw at hyn, gan ddweud nad oes dim gwahaniaeth yn y disgwyliadau ar gyfer y plant hyn nac ychwaith i blant anabl nad oes ganddynt ADY a Chynllun Datblygu Unigol cysylltiedig. Roedd yn arbennig o bryderus bod carfan o blant yr aseswyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig yn flaenorol, ond nad ydynt wedi'u nodi fel rhai ag ADY o dan y system bresennol.[587] Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar y plant hyn, a gallai fod yn ddi-fudd disgwyl iddynt gyflawni lefelau uwch o ddysgu Cymraeg, heb fod cymorth yn ei le. Roedd yn teimlo y dylai ysgolion benderfynu ar y canlyniad tebygol i bob plentyn yn hytrach na bod disgwyliadau'n cael eu pennu'n gyffredinol.[588]

**400.** Tynnodd NEU Cymru sylw hefyd at y garfan hon o ddysgwyr, gan nodi bod angen ystyried hyn. Dywedodd nad yw'r grwpiau hyn yn cael y gefnogaeth gywir fel y mae, a'i bod yn anodd gweld sut y byddant yn cael yr help sydd ei angen arnynt i fod yn rhugl yn y Gymraeg hefyd.[589]

**401.** Fodd bynnag, nid oedd UCAC yn bryderus a dywedodd ei bod yn glir iawn nad yw'r Bil yn golygu bod "angen i bob disgybl ym mhob ysgol" gyrraedd safonau penodol. Dywedodd fod plant ag ADY ar hyn o bryd "yn cael addysg wahanol ar adegau" ac y bydd disgyblion "yn gallu cael mynediad i'r iaith ar y lefel sydd yn addas iddyn nhw."[590]

**402.** Dywedodd yr Athro Enlli Thomas: "nid oes arweiniad o ran plant ADY". Gofynnodd a fyddai cymorth ac adnoddau i gefnogi plant ag ADY yn dod o dan gyfrifoldebau'r Athrofa Genedlaethol a gynigir yn Rhan 5 neu Adnodd.[591] Dywedodd ei bod yn "anodd penderfynu beth yn union ydy'r gefnogaeth sydd yn angenrheidiol" yng nghyd-destun y Bil. Nododd fod "amrywiaeth eang iawn" o

[584] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[585] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 19, Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin
[586] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.4.6
[587] Gweler pennod 2 o'n hadroddiad interim ar weithredu diwygiadau addysg (Gorffennaf 2024) lle trafodir y gostyngiad mewn niferoedd AAA/ADY. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos gostyngiad o 44 y cant o 92,688 (19.5 y cant o'r holl ddisgyblion) yn 2020/21 i 51,152 (11.2 y cant o'r holl ddisgyblion) yn 2023/24.
[588] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[589] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 216-217
[590] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 218
[591] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor

blant ag ADY, ac nad oes “dim cyfeiriad yn y Bil” at hynny.[592] Galwodd am i'r Bil gynnwys cyfeiriadau at ADY, ond roedd yn derbyn, o ran y canllawiau, fod lle iddynt gael eu “datblygu'n well” mewn canllawiau eraill sy'n edrych yn benodol ar ADY.[593]

**403.** Gofynnodd CYDAG a fyddai'r darpariaethau hyn hefyd yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion. Roedd hefyd am wybod beth fyddai'r disgwyliadau i “ddysgwyr unigol” a allai fynychu naill ai ysgol arbennig neu uned cyfeirio disgyblion am gyfnod byr. Gofynnwyd a fydd “disgwyliad i gynnal darpariaeth Gymraeg i ddysgwyr sy'n mynychu'r lleoliadau hyn yn llawn amser / rhan amser am gyfnod hir, llawn amser / rhan amser am gyfnodau byr?”[594]

**404.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, er na roddir gofynion statudol ar ysgolion arbennig, fod nifer ohonynt yn hynod o ymrwymedig i addysgu'r iaith ac, yn sicr, i'r gofynion eraill i greu ethos Gymraeg yn yr ysgol.[595] Nodwyd hefyd fod y Bil yn darparu y caiff ysgolion arbennig nodi eu bod yn ysgolion arbennig cyfrwng Cymraeg, ac mai dyma'r tro cyntaf iddynt gael cyfle i wneud hynny.[596]

**405.** Gan drafod ysgolion sydd ag unedau arbennig fel rhan o'u darpariaeth, eglurodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru y byddai darpariaeth yn yr uned yn gyson â chategori'r ysgol.[597]

**406.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *“O ran y gofyniad ar yr ysgol sydd ag uned arbenigol i sicrhau ei bod yn darparu addysg Gymraeg yn unol â'r ystod a bennir gan ei chategori iaith, mae'r gofyniad hwn yn berthnasol dros flwyddyn ysgol. Nid yw'r gofyniad i ddarparu isafswm o 10%, er enghraifft, yn golygu bod yn rhaid i bob disgybl unigol o fewn yr ysgol dderbyn 10%. Mae cyfeirio at yr addysg a ddarperir dros flwyddyn ysgol yn caniatáu hyblygrwydd i ysgol ddarparu llai na 10% mewn rhai amgylchiadau lle bo angen, ac i ddarparu mwy na 10% mewn amgylchiadau eraill. Mae hyn yn debygol o*

[592] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 142-143
[593] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 145
[594] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.4.6
[595] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 302
[596] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 304
[597] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 303

*fod yn berthnasol yng nghyd-destun unedau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd."*[598]

**407.** Er bod rhaid i ysgolion arbennig gael cynllun cyflawni, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r cynnwys yn wahanol i'r cynllun cyflawni ar gyfer ysgol brif ffrwd. Yn ei farn ef, roedd hyn yn "taro'r cydbwysedd cywir rhwng cydnabod y rôl y gall ysgolion arbennig ei chwarae wrth greu siaradwyr Cymraeg ac unrhyw anghenion dwys y maent hefyd yn ymdrin â hwy."[599]

## Addysg drochi hwyr

**408.** Mae Adran 22 yn diffinio addysg drochi hwyr fel "addysg ddwys yn y Gymraeg" ar gyfer plant sy'n saith oed o leiaf ac sy'n mynychu neu'n dymuno mynychu naill ai ysgol categori 'Prif Iaith – Cymraeg' neu ysgol categori 'Dwy Iaith', sy'n "trochi plant yn y Gymraeg er mwyn eu galluogi i elwa'n llawn" o addysg mewn ysgol sy'n perthyn i un o'r categorïau hynny.[600] Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol annog y galw am addysg o'r fath a chyfranogiad ynddi. Wrth wneud hyn, rhaid iddynt sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ar gael, a chymryd pob cam rhesymol i gynnig darpariaeth drochi hwyr sy'n ateb y galw yn eu hardal.

**409.** Roedd cefnogaeth i'r darpariaethau hyn, gyda llawer yn tynnu sylw at y rôl bwysig y gall trochi hwyr ei chwarae wrth gyfrannu at Cymraeg 2050.

**410.** Clywsom fod angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r manteision a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil trochi hwyr fel bod plant a'u teuluoedd yn ymwybodol o'r opsiwn. Tynnwyd sylw at hyn gan Estyn;[601] Mudiad Meithrin;[602] ac UCAC.[603]

**411.** Dywedodd Estyn, os mai'r nod yw cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, "mae hyrwyddo a phwysleisio pwysigrwydd trochi i rieni yn angenrheidiol."[604] Ym marn RhAG, dylid cynnig y Gymraeg i "newydd-ddyfodiaid i'n cymunedau yn ddiamod yn hytrach na'u cyfeirio at addysg cyfrwng Saesneg fel sydd yn digwydd mewn rhai ardaloedd ar hyn o bryd."[605]

---

[598] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 11 Hydref 2024
[599] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 11 Hydref 2024
[600] Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), adran 22(1), fel y'i cyflwynwyd, Gorffennaf 2024
[601] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[602] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraffau 3.19 a 3.21
[603] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.8
[604] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[605] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.10

**412.** Roedd CCAC ac CLlLC yn croesawu'r dyletswyddau hyn, gan ddweud bod y galw ar gynnydd. Ond er mwyn iddo lwyddo, gwnaethant ddweud y "bydd angen mwy o gyllid i dalu costau cyfalaf a refeniw, yn ogystal â negeseuon cenedlaethol i hyrwyddo a rhoi sicrwydd i rieni di-Gymraeg o fanteision y ddarpariaeth hon i gynyddu'r galw."[606] Soniodd Cyngor Abertawe hefyd fod angen sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer mwy o ddarpariaeth drochi. Roedd yn croesawu'r cyllid wedi'i dargedu sydd wedi bod ar gael yn flaenorol, ac yn dweud y byddai cyllid cynaliadwy yn galluogi awdurdodau lleol i gynnig darpariaeth sy'n diwallu anghenion lleol.[607] Galwodd CYDAG hefyd am "fuddsoddiad ychwanegol".[608]

**413.** Dywedodd Mudiad Meithrin y dylai sicrhau bod yr opsiwn hwn ar gael i "newydd-ddyfodiaid di-Gymraeg" fod yn "fater o flaenoriaeth". Ond nododd y dylai fod ar gael i unrhyw un a oedd am newid ysgol, nid dim ond disgyblion sy'n newydd i'r ardal. Dywedodd mai'r dull mwyaf effeithiol oedd canolfannau trochi. Cynigiodd hefyd "ganolfannau trochi teuluol, gan leoli profiadau dysgu i'r plentyn ac i'r rhiant/gofalwr yn yr un lleoliad."[609] Cytunodd UCAC y dylai trochi hwyr fod ar gael i "bob plentyn", ac er mwyn i hynny ddigwydd roedd angen "rhwydwaith o ganolfannau trochi ledled Cymru."[610] Pwysleisiodd RhAG bwysigrwydd sicrhau bod darpariaeth "gyson" ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Cymru.[611]

**414.** Wrth groesawu'r darpariaethau, galwodd Cymdeithas yr Iaith am roi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol "i fynd ati i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar ddarpariaeth drochi hwyr". Galwodd am i adran 22(2)(a) ac (c) gael ei diwygio "i nodi bod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i annog cynnydd yn y niferoedd sy'n manteisio ar ddarpariaeth addysg drochi hwyr ac i gynyddu'r ddarpariaeth yn rhagweithiol dros amser."[612]

**415.** Galwodd Estyn hefyd am i eiriad y Bil gael ei gryfhau, gan awgrymu y dylid diwygio adran 22(2)(b) fel bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu ac annog trochi hwyr i blant a rhieni plant yn eu hardal.[613]

[606] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[607] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 31, Cyngor Abertawe (Saesneg yn unig)
[608] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.4.11
[609] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraffau 3.21-3.23 a 3.25
[610] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.8
[611] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.10
[612] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[613] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn

**416.** Dywedodd Mudiad Meithrin y dylid rhannu arfer da ar drochi hwyr ar draws awdurdodau lleol a sectorau eraill ledled Cymru.[614] Tynnodd CYDAG sylw hefyd at bwysigrwydd rhannu arfer da yn y maes hwn.[615]

**417.** Roedd CCAC ac CLlLC yn derbyn bod lefel y ddarpariaeth drochi ar draws Cymru ar wahanol gamau. Ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sydd ar gam cynnar, gwnaethant ddweud y byddent yn croesawu "mwy o dystiolaeth" ar "effaith hirdymor... addysg drochi ar nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg." Mewn awdurdodau lleol mwy sydd â "heriau daearyddol" ac sy'n "rhedeg darpariaeth sydd yn gostus iawn", gwnaethant ddweud bod "angen mwy o wybodaeth ar yr enillion ar y buddsoddiad cyn bod rhwymedigaeth statudol i redeg y ddarpariaeth."[616]

**418.** Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at ba mor bwysig y gall rôl y sector blynyddoedd cynnar fod o ran trochi. Dywedodd Dyfodol i'r Iaith fod "angen sylw mawr i bolisïau addysg drochi gynnar, o dan 7 oed, sef yr oed pwysicaf o ran caffael iaith."[617] Dywedodd RhAG hefyd fod angen canolbwyntio ar drochi cynnar yn y sector blynyddoedd cynnar.[618]

**419.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gwaith hybu o ran yr iaith, ac yn arbennig trochi hwyr, yn "ehangach na'r Bil." Dywedodd fod cyfle:

> *"... i ddathlu'r ffaith ein bod ni wedi creu rhywbeth eithaf newydd... Mae twf yn nifer y plant sy'n mynd trwy'r broses o drochi fel yna, mae wedi codi, ac rydyn ni wedi dangos i bobl ein bod ni'n gallu llwyddo mewn cyfnod eithaf—. Dim ond wythnosau rydyn ni'n siarad amdano..."*[619]

**420.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 mai'r astudiaethau achos lleol "sydd yn annog ac yn rhoi hyder i rieni ei fod o yn bosib."[620]

## Ein barn ni

**421.** Yn y Rhan hon y cyflwynir nifer o ddarpariaethau arwyddocaol y Bil, megis cyflwyno categorïau iaith statudol ar gyfer ysgolion, gan gynnwys nodi nodau dysgu Cymraeg a phennu swm gofynnol o addysg Gymraeg ar gyfer y categori

[614] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 3.20
[615] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.4.11
[616] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[617] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 22
[618] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.10
[619] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 177
[620] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 178

ysgolion 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod dryswch ynghylch sut y bydd rhai elfennau o'r Bil hwn yn gweithio. Mae'n bwysig mynd i'r afael â'r dryswch hwn yn ystod y broses ddeddfwriaethol. Nodwn fod nifer o randdeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch y diffiniad o addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod ymatebion yr Ysgrifennydd Cabinet i'r pryderon hyn yn galonogol, nodwn fod gwahaniaeth rhwng hynny a sefyllfa lle mae'r hyn a ddywedodd yn cael ei adlewyrchu'n ddiamwys yn y Bil. Credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried y pryderon a godwyd ymhellach.

**422.** Mae rhywfaint o'r dryswch hwn yn deillio o gyfuno, mewn un diffiniad, addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn ddau beth gwahanol, ac mewn rhai achosion nid yw'n glir pa agwedd ar y diffiniad sy'n berthnasol. Mae'n hanfodol bod deddfwriaeth yn glir ac yn ddiamwys. Credwn fod angen i'r Bil fod yn gliriach ynghylch pryd y mae'n cyfeirio at addysgu'r Gymraeg fel pwnc, a phryd y mae'n cyfeirio at addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig datrys y mater hwn, a bod y cysylltiadau rhwng y diffiniad, categorïau iaith ysgolion a'r nodau dysgu Cymraeg yn fwy eglur, pan fo hynny'n berthnasol yn y Bil.

**Argymhelliad 4.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn ceisio sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gliriach yn y diffiniad o addysg Gymraeg.

**423.** Mae angen mwy o eglurder o ran categorïau iaith ysgolion hefyd. Credwn y gall y nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori helpu i sicrhau rhywfaint o'r eglurder hwn. Wrth edrych ar y nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori, daw'n gliriach pa lefel o sgiliau Cymraeg a gyflawnir ym mhob categori o ysgol. Mae angen sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn glir i'r sector, yn ogystal ag i ddysgwyr a'u teuluoedd fel y gallant wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

**424.** Nodwn nad yw'r Bil ei hun yn pennu amrediad y swm o ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer pob categori iaith, sy'n cael ei adael i Weinidogion Cymru ei bennu mewn rheoliadau. Felly, yn y dystiolaeth a glywsom, mae pobl wedi trafod eu profiadau ar sail y symiau a bennir ar hyn o bryd yn y canllawiau anstatudol.

**425.** Ar hyn o bryd, heb ragor o wybodaeth am y swm tebygol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae'r categorïau ysgolion yn aneglur ac mae'n anodd inni lunio barn arnynt. Serch hynny, gellir dod i rai casgliadau ar sail y nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori. Er enghraifft, ni chredwn y bydd ysgol y mae 51 y cant o'i darpariaeth yn ddarpariaeth addysg Gymraeg yn gallu cyrraedd y nodau dysgu Cymraeg ar gyfer ysgol yn y categori 'Prif Iaith – Cymraeg'.

**426.** Hoffem i Lywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ar y cam hwn ynglŷn â'r categorïau, a'r hyn y maent yn debygol o'i olygu o ran y swm o ddarpariaeth Gymraeg. Wrth roi'r eglurder hwn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y dystiolaeth a'r safbwyntiau a glywsom yn galw am gategori ychwanegol i adlewyrchu'r categori 3P anstatudol presennol.

**427.** Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddarparu mwy o wybodaeth am y categori 'Dwy Iaith'. Ar hyn o bryd, nid ydym yn sicr beth fydd yn cyfrif fel ysgol 'Dwy iaith' o dan y Bil hwn. Rydym yn ymwybodol bod amrywiaeth o wahanol fodelau ledled Cymru, ond beth y mae'n ei olygu yn y Bil? Roedd dryswch ymhlith y rhanddeiliaid hefyd ynghylch hyn.

**428.** O ran diffyg eglurder, mae'r gwahanol dermau a ddefnyddir ar gyfer y mathau hyn o ysgolion yn gwneud pethau'n waeth, er enghraifft y term 'ysgol dwy ffrwd' (yr ydym yn cydnabod nad yw'n derm a ddefnyddir yn y Bil). A fyddai ysgol dwy ffrwd yn ysgol 'Dwy Iaith'? Ni wyddom ni'r ateb, ac nid oedd y rhanddeiliaid yn gwybod ychwaith. Gall amwysedd achosi dryswch, a all wedyn arwain at anghytuno a gwrthdaro. Nid ydym am i hynny fod yn ganlyniad anfwriadol i'r Bil, ac felly galwn am fwy o eglurder ar y categorïau ysgolion.

**429.** Gall ysgolion 'Dwy Iaith' chwarae rhan bwysig wrth gyrraedd miliwn o siaradwyr. Gall ysgolion o'r fath helpu i brif ffrydio'r iaith, ac os gall ysgolion o'r fath gefnogi dysgwyr i adael yr ysgol ar lefel B2 byddant yn hanfodol er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr. Ond deuwn yn ôl at y pwynt fod rhaid cael cysylltiad clir rhwng categorïau'r ysgolion a'r nodau dysgu er mwyn i bawb fod yn glir ynghylch yr hyn y gall pob categori o ysgol ei gyflawni.

**Argymhelliad 5.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o eglurder am bob un o'r categorïau iaith, yn enwedig y swm tebygol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y categorïau ysgolion 'Prif Iaith – Cymraeg' ac ysgolion 'Dwy Iaith'. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru hefyd roi mwy o eglurder o ran yr hyn y mae'r categori ysgol 'Dwy Iaith' yn ei olygu. Yn ogystal, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried y dystiolaeth a'r safbwyntiau a glywsom yn galw am gategori ychwanegol i adlewyrchu'r categori 3P anstatudol presennol.

**430.** Mae'r Bil yn pennu isafswm o ddarpariaeth Gymraeg, sef 10 y cant, ar gyfer ysgolion 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'. Serch hynny, roedd dryswch ynghylch gwir ystyr hyn yn ymarferol. Er y gwyddom na fydd yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol, fel sy'n wir ar hyn o bryd gyda'r canllawiau anstatudol, nid oedd yn glir pa weithgareddau dros weddill y diwrnod ysgol a fyddai'n gymwys. Awgrymodd yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai gynnwys gweithgareddau

fel gwasanaethau ysgol. Roedd yn glir iawn nad oedd yn meddwl y dylai'r 10 y cant ddod o addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig, ac y dylai gwmpasu gwahanol agweddau ar addysg, yn enwedig addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**431.** Mae hyn yn amwys iawn. Mae'n bwysig bod y rhai a fydd yn rhoi'r Bil hwn ar waith, yn enwedig ysgolion ac awdurdodau lleol, yn deall beth yn union y gofynnir iddynt ei wneud. Heb yr eglurder hwn, ni allant lunio cynlluniau a fydd yn arwain at weithredu effeithiol.

**432.** Nodwn fod Rhagair y Gweinidog i'r Papur Gwyn yn nodi ymrwymiad i "sicrhau dros amser bod pob plentyn yn derbyn cyfran o'u darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i'r Gymraeg fel pwnc, er mwyn meithrin sgiliau Cymraeg ar draws y cwricwlwm." Nid oedd yr ymrwymiad hwn wedi'i adlewyrchu yn y cynigion penodol yr ymgynghorwyd arnynt yn y Papur Gwyn, ac nid yw ychwaith wedi'i adlewyrchu yn y Bil. Rydym yn cydnabod bod hyn yn rhan o'r broses o ddatblygu cynigion polisi a'u troi'n ddeddfwriaeth, ond byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth gan y Llywodraeth ynghylch ai dyna yw ei bwriad. Credwn y gall wneud hyn wrth ymateb i argymhelliad 6.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir pa weithgareddau ysgol a fyddai'n cyfrif tuag at gyrraedd yr isafswm o 10 y cant o ddarpariaeth Gymraeg. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi a yw'n dal i fwriadu cynyddu'r swm o addysg a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i addysgu'r Gymraeg fel pwnc.

**433.** Yn amlwg, mae llawer o ysgolion eisoes yn cyflawni 10 y cant fel rhan o'r canllawiau anstatudol. Nodwn farn y rhanddeiliaid hynny a ofynnodd sut y bydd cynnal yr isafswm hwn yn arwain at newid sylweddol o ran deilliannau dysgu Cymraeg.

**434.** Rydym yn cydnabod barn rhai rhanddeiliaid sy'n galw am gryfhau'r geiriad yn adran 11 ar gynnydd ieithyddol, ond teimlwn fod yr adran fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn briodol. Gwyddom y gall cynnydd ieithyddol fod yn fater sy'n peri problem, ond rydym yn ymwybodol iawn y bydd rhesymau amrywiol dros symud i mewn ac allan o fath penodol o ysgol.

**435.** Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad oes digon o ddata i ddeall y rhesymau pam y mae plant yn symud i mewn ac allan o ysgol mewn categori iaith penodol, a ph'un a yw'r rhesymau hynny'n faterion y gellir mynd i'r afael â hwy yn briodol drwy bolisi. Gallai'r rhesymau hyn fod yn benodol i ardal ddaearyddol benodol. Deallwn fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar y mater hwn

yn fanylach, a bydd gennym ddiddordeb clywed canlyniadau'r gwaith hwn. Credwn hefyd y gallai hwn fod yn faes y gallai'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (gweler Pennod 8) edrych arno yn y dyfodol.

**436.** Rydym yn cefnogi'r dull o ymdrin â Chynlluniau Cyflawni Addysg Gymraeg, ond nodwn fod y Bil yn aneglur a fyddai hwn yn gynllun ar wahân neu a ellid ei ymgorffori yn y Cynllun Datblygu Ysgol ehangach. Credwn fod angen mwy o eglurder ar y mater hwn. Pa bynnag benderfyniad a wneir yn y maes hwn, mae'n bwysig bod y dull o ymdrin ag addysg Gymraeg yn gyson â rhagolygon ehangach yr ysgol ar gyfer gwella.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a ellir ymgorffori'r Cynlluniau Cyflawni Addysg Gymraeg yn y Cynlluniau Datblygu Ysgolion presennol, neu a fydd rhaid i ysgolion lunio cynlluniau annibynnol ar wahân.

**437.** Gwnaethom drafod materion yn ymwneud â'r esemptiadau dros dro posibl yn fanwl. Mae hyn yn amlwg wedi'i gysylltu'n agos iawn â materion yn ymwneud â'r gweithlu, a drafodwyd ym Mhennod 3. Mae'n debyg mai materion staffio yw'r rheswm mwyaf tebygol dros ofyn am esemptiad neu gymeradwyo esemptiad. Nodwn ei bod yn bosibl y gallai esemptiadau ddigwydd mewn clystyrau daearyddol penodol, a allai arwain at gystadleuaeth am yr athrawon hynny sydd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Dyma pam yr ydym yn galw am gynllun gweithlu statudol a fydd yn helpu i gefnogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**438.** Drwy ein gwaith ar weithredu diwygiadau addysg, ac ar fynediad plant a phobl ifanc anabl at addysg a gofal plant, rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau y gall rhai plant eu hwynebu wrth gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae llawer o sylw wedi'i roi i hyn, yn ogystal â mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i'r rhai a chanddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol, a mynegodd y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd y Gymraeg, ymhlith eraill, bryderon am hyn. Gwyddom y gall yr heriau hyn beri i deuluoedd newid iaith eu cartref am na allant gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hwn yn fater hirsefydlog a gellir dadlau na fydd y dull o ymdrin ag ysgolion arbennig yn y Bil yn newid hyn.

**439.** Ac eto, ar y llaw arall, mae ysgolion arbennig yn wynebu ystod eang o heriau a dim ond un o'r heriau hynny yw'r ddarpariaeth iaith. Maent yn wynebu'r un problemau â'r sector prif ffrwd o ran y gweithlu, ac mewn rhai achosion, broblemau gwaeth. Mae'n fater sensitif lle y mae angen ystyried nifer o fanylion cynnil, ac nid ydym yn teimlo ein bod wedi cael amser i edrych arno'n fanwl iawn. Credwn fod angen ystyried y materion hyn ymhellach.

**440.** Mae llwyddiannau addysg drochi hwyr yn glir, a gellir eu gweld mewn cymunedau ledled Cymru. Un o'r llwyddiannau sydd wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd yw plant a ddaeth i Gymru o rannau o'r byd sy'n wynebu gwrthdaro fel Wcráin ac Affganistan, sy'n dysgu'r Gymraeg yn gyflym. Mae addysg drochi hwyr yn darparu cyfleoedd i bob plentyn yng Nghymru sydd efallai'n dymuno datblygu ei sgiliau Cymraeg, ac mae'n bwysig bod y cyfleoedd hyn ar gael. Ond rydym yn ymwybodol bod addysg drochi hwyr yn ddrud. Mae cysylltiad rhwng hyn a'n barn y dylid sicrhau bod cyllid ac adnoddau ar gael i roi'r Bil ar waith.

# 7. Rhan 4: Cynllunio Addysg a Dysgu Cymraeg

Roedd cefnogaeth eang i gysylltu cynllunio ieithyddol o dan y Fframwaith Cenedlaethol â chynlluniau'r awdurdodau lleol ac yna gynlluniau datblygu ysgolion unigol.

**441.** Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaethau ynghylch cynllunio addysg Gymraeg ar lefel genedlaethol, lefel awdurdod lleol a lefel ysgolion.

## Y Fframwaith Cenedlaethol

**442.** Mae adran 23 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg ("y Fframwaith Cenedlaethol") a fydd yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ei strategaeth Gymraeg yng nghyd-destun addysg Gymraeg, caffael y Gymraeg a dysgu Cymraeg.

**443.** Mae adran 23(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Fframwaith Cenedlaethol nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy:

- Gynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion.
- Gwella'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion.
- Hybu addysg mewn ysgolion categori 'Prif Iaith – Cymraeg' a 'Dwy Iaith' a chynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hyn.
- Sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar gael i ymarferwyr addysg at ddiben gwella gallu yn y Gymraeg.
- Annog dilyniant o ran addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng addysg feithrin ac addysg i ddisgyblion oedran ysgol gorfodol, a rhwng ysgolion ac addysg a hyfforddiant ôl-16.

**444.** Mae adran 23(4) yn nodi bod rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i ddarparu cyfleoedd i bawb yng Nghymru i ddysgu Cymraeg, gan gynnwys drwy ofal plant ac addysg y

blynyddoedd cynnar, addysg orfodol, addysg drydyddol, yn y gweithle ac yn y gymuned.

**445.** Mae adran 23(5) yn darparu bod rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol gynnwys targedau i awdurdodau lleol weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol yn eu hardaloedd. Rhaid i'r targedau hyn adlewyrchu targedau cenedlaethol, gan gynnwys targedau ynghylch:

- Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael addysg mewn ysgolion categori 'Prif Iaith – Cymraeg'.
- Cynyddu nifer yr ysgolion categori 'Dwy Iaith' neu gategori 'Prif Iaith – Cymraeg'.
- Cynyddu'r swm o addysg Gymraeg mewn ysgolion categori 'Dwy Iaith' ac ysgolion categori 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'.

Mae adran 23(6) yn nodi, at ddiben gosod y targedau hyn, fod rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol gynnwys:

- Asesiad o'r addysg Gymraeg a ddarperir ar y pryd mewn ysgolion ym mhob awdurdod lleol.
- Dadansoddiad o'r swm o addysg Gymraeg y mae ei angen i gyflawni unrhyw dargedau a osodir.
- Asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg y mae ei angen ym mhob awdurdod lleol i gyflawni unrhyw dargedau a osodir.

Nodir yn adran 23(7) y caiff y Fframwaith Cenedlaethol hefyd osod targedau ar gyfer yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (a sefydlir o dan Ran 5 o'r Bil) i gynyddu nifer y bobl sydd dros oedran ysgol gorfodol sy'n dysgu Cymraeg a gwella gallu yn y Gymraeg ymhlith pobl sydd dros oedran ysgol gorfodol sy'n dysgu Cymraeg.

**446.** Mae adran 24(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol. Mae adran 24(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i gyflawni targedau a osodir ar eu cyfer yn y Fframwaith Cenedlaethol. Rhaid iddynt hefyd ddarparu unrhyw wybodaeth y mae ei hangen ar Weinidogion Cymru i osod targedau a chwblhau'r asesiadau a'r dadansoddiadau sy'n ofynnol o dan adran 23(6).

**447.** Er bod y Fframwaith Cenedlaethol yn un parhaus, mae adran 25 yn nodi bod rhaid i'r camau gweithredu ynddo gwmpasu cyfnod o 10 mlynedd, a bod rhaid iddo gael ei adolygu bob pum mlynedd. Mae adran 25(5) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol neu i lunio un newydd.

**448.** Mae adran 26 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori wrth lunio neu ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol a'i osod gerbron y Senedd. Mae adran 26(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod y Fframwaith Cenedlaethol cyntaf cyn 31 Gorffennaf 2028.

**449.** Mae adran 27 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnwys gwybodaeth am weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol yn eu hadroddiad blynyddol a'u cynllun blynyddol ar strategaeth y Gymraeg. (Mae'r adroddiad blynyddol a'r cynllun blynyddol yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.)

**450.** Roedd nifer o randdeiliaid yn cefnogi'r Fframwaith Cenedlaethol gan gynnwys:

- CCAC ac CLlLC[621];
- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig[622];
- y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[623];
- CYDAG[624];
- ColegauCymru[625];
- Dyfodol i'r Iaith[626];
- Blynyddoedd Cynnar Cymru[627];
- Estyn[628];

[621] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[622] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 22, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig)
[623] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 1.6
[624] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 307
[625] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 20, ColegauCymru
[626] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 23
[627] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 30, Blynyddoedd Cynnar Cymru(Saesneg yn unig)
[628] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn

- yr Athro Enlli Thomas[629];
- Mentrau Iaith Cymru[630];
- Mudiad Meithrin[631];
- y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol[632];
- RhAG[633];
- Cyngor Abertawe[634];
- UCAC[635]; a
- Chomisiynydd y Gymraeg[636].

**451.** Disgrifiwyd y Fframwaith Cenedlaethol fel un “uchelgeisiol” oherwydd ei fod yn cwmpasu “gofal plant, addysg feithrin, addysg statudol, addysg drydyddol ac yn dilyn trywyddau tu hwnt i addysg yn y gweithle ac allan yn y gymuned.”[637] Mae hefyd yn creu “cadwyn o atebolrwydd rhwng cynllunio ieithyddol a gynhelir ar lefel ysgol, awdurdod lleol ac yn genedlaethol.”[638] Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod y cynigion yn “llawer cryfach” na’r drefn flaenorol.[639]

**452.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd y Bil a’r Fframwaith Cenedlaethol yn sicrhau y gall pawb weld llinell glir rhwng yr uchelgais a nodir a’r broses o’i wireddu, sy’n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Dywedodd y bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn bwydo i mewn i gynlluniau cyflawni awdurdodau lleol ac yna ysgolion unigol, gan greu cysylltiad clir rhwng y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a’r uchelgais cenedlaethol.[640]

**453.** Er bod cefnogaeth eang i’r Fframwaith Cenedlaethol, tynnodd rhanddeiliaid sylw at feysydd yr oeddent yn teimlo y dylid eu cryfhau yn y Fframwaith.

[629] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor
[630] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 4.1
[631] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 305
[632] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.10
[633] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.15
[634] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 31, Cyngor Abertawe (Saesneg yn unig)
[635] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 234
[636] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 79
[637] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor
[638] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[639] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 79
[640] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 283

**454.** Fel y nodwyd gennym ym Mhennod 3, mae materion yn ymwneud â'r gweithlu wedi bod yn thema gyson drwy gydol ein hymchwiliad. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y dylid diwygio Rhan 4 o'r Bil i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi "Cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg" fel rhan o'r Fframwaith Cenedlaethol. Roedd hi'n credu y dylai "strategaeth gweithlu addysg" fod yn "ganolog" i'r Fframwaith Cenedlaethol. Byddai gofyniad o'r fath yn "gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi'r camau y byddant yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod gan y gweithlu addysg y sgiliau Cymraeg i gyflawni amcanion y Fframwaith Cenedlaethol". Dywedodd y byddai dyletswydd o'r fath yn "gyson" â gofynion eraill, ac yn "un ffordd amlwg o gryfhau'r Bil ac o fynd i'r afael ag un o brif heriau ei weithredu."[641]

**455.** Roedd RhAG hefyd yn bryderus bod "bwlch arwyddocaol o amlwg" yn y Fframwaith Cenedlaethol mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu. Galwodd am ychwanegu dyletswydd yn adran 23(3) er mwyn "cynyddu ac atgyfnerthu'r gweithlu addysg Gymraeg mewn ysgolion." Ni waeth sut y caiff hyn ei gyflawni, dywedodd, "ni allwn barhau heb gynllun â statws i ddatblygu'r gweithlu. Y mae'n gadael y cylch yn anghyflawn."[642]

**456.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg hefyd ei bod yn "bwysig" bod y Fframwaith Cenedlaethol "wedi ei alinio gyda'r mentrau cynllunio'r gweithlu yn ehangach".[643] Rydym yn edrych ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys a ddylai fod cynllun gweithlu statudol ym Mhennod 3.

**457.** Cododd rhai faterion penodol ynghylch cynnwys y Fframwaith Cenedlaethol. Dywedodd CCAC ac CLlLC y dylai'r amserlenni yn y Fframwaith Cenedlaethol ganiatáu hyblygrwydd o ran cyflawni targedau ac amcanion i helpu i "adlewyrchu newidiadau" sydd y tu hwnt i reolaeth awdurdod lleol. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at yr amser a'r adnoddau y byddai eu hangen ar gyfer casglu a dadansoddi data, gan alw'n benodol am eglurder ynghylch "unrhyw drefniadau i wella'r gwaith o asesu sgiliau'r gweithlu a rhywfaint o ymgynghori cyn gwneud penderfyniadau."[644] Mynegodd NASUWT bryderon hefyd am gofnodi, coladu a rhannu data, gan ddweud y byddai angen ystyriaeth ofalus i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r arfer presennol heb greu rhagor o rwystrau enfawr.[645]

[641] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraffau 2.6-2.7
[642] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.15
[643] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[644] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[645] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 235

**458.** Soniodd Cyngor y Gweithlu Addysg am weithredu hefyd. Dywedodd fod angen iddo gael ei ategu gan gyllid a chefnogaeth. Roedd angen osgoi gorlwytho'r system. Dywedodd ei bod yn bwysig bod newid yn cael ei sicrhau nid drwy bennu targedau, ond drwy greu'r ymdeimlad cywir o ddiwylliant, disgwyliadau, caffael iaith, a balchder yn y wlad hon a'r iaith a siaredir.[646]

**459.** Trafodir materion yn ymwneud â threfniadau teithio dysgwyr yn yr adran nesaf. Galwodd rhai, gan gynnwys Dyfodol i'r Iaith, am i'r Fframwaith Cenedlaethol gynnwys cyfeiriad at hyn. Dywedodd fod angen iddo "ddelio ag annhegwch anhwylustod cludiant i ysgolion Cymraeg sy'n groes i ysbryd a geiriad Mesur yr Iaith Gymraeg 2011."[647] Nododd Mudiad Meithrin a CYDAG hefyd bwysigrwydd trafnidiaeth er mwyn cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn benodol sut y gall y diffyg presennol fod yn rhwystr ar hyn o bryd.[648]

**460.** Roedd Mudiad Meithrin yn croesawu'r ffaith bod y Fframwaith Cenedlaethol yn cwmpasu'r blynyddoedd cynnar. Dywedodd y gallai helpu i sefydlogi cyllid ar gyfer "cynllun hyfforddi cenedlaethol 'Cam wrth Gam' a'n cynllun trochi 'Croesi'r Bont'".[649]

**461.** Mynegodd yr holl randdeiliaid ôl-16 bryder nad yw'r Fframwaith Cenedlaethol yn glir o ran sut y bydd yn gymwys i addysg ôl-16:

- y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[650];
- ColegauCymru[651];
- Medr[652];
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru[653]; a
- Prifysgolion Cymru[654].

[646] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 273
[647] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 23
[648] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 224, 293 a 311-314
[649] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 4.5
[650] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 1.8
[651] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 320
[652] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 3.6
[653] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 322
[654] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 267

**462.** Teimlai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol y gallai hyn:

> *"… arwain at ganlyniadau anfwriadol megis amwysedd a chamddealltwriaeth ynghylch cyfrifoldebau, a cholli cyfleoedd i sicrhau cynllunio strategol cyfannol fyddai'n gosod y sail ar gyfer llwybrau dilyniant i ddysgwyr."*[655]

**463.** Mae dryswch pellach ynghylch a yw'r Fframwaith Cenedlaethol yn gymwys (ac a ddylai fod yn gymwys) i addysg drydyddol dim ond yng nghyd-destun dysgu siarad Cymraeg, neu'n ehangach o ran astudiaeth uwch o'r Gymraeg fel pwnc ac addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd Medr, sef corff cyllido a rheoleiddio'r sector trydyddol, yn credu mai'r diffiniad cyntaf, culach sy'n gywir, tra bo'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn ffafrio'r ail ddiffiniad ehangach.

**464.** Dywedodd Medr fod y ffaith nad yw'r Bil yn cydnabod rôl Medr ynghyd â'r ffaith:

> *"… na ddarperir diffiniad eglur ar gyfer dysgu Cymraeg… yn golygu y gellid darllen cyfeiriadau at y sector addysg drydyddol fel rhai sy'n awgrymu bod y fframwaith yn cwmpasu addysg cyfrwng Cymraeg a phynciau Cymraeg mewn addysg drydyddol nid dim ond darpariaeth 'dysgu Cymraeg'. Mae gan hyn yn arbennig y potensial i greu dryswch ac anghydlyniant yn y sector addysg drydyddol yng nghyd-destun y cyfeiriadau at addysg uwch fel a nodir yn adrannau 23 (3) a (4) y Bil… Ein hargymhelliad ni fyddai, yn y memorandwm esboniadol, bod rôl Medr yn cael ei disgrifio'n glir mewn perthynas â Chymraeg fel pwnc a darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg drydyddol a'i gwneud yn glir nad yw o fewn cwmpas fframwaith Llywodraeth Cymru."*

Roedd o'r farn y byddai'r newidiadau hyn yn gwneud y Fframwaith Cenedlaethol yn gliriach, ac yn rhoi "sicrwydd" ynghylch rolau gwahanol gyrff.[656] Galwodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd am eglurder ynghylch rôl Medr.[657]

**465.** Roedd Medr o'r farn, yn ôl ei ddehongliad o'r Rhan hon o'r Bil, mai dim ond yn achos darparwyr sy'n darparu Cymraeg i oedolion y byddai'r Fframwaith

---

[655] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 4.2
[656] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 3.6
[657] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 28

Cenedlaethol yn effeithio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth addysg drydyddol, a dywedodd y byddai'n cyffwrdd ar ddarpariaeth chweched dosbarth ysgolion, gan ei bod yn eithaf anodd ymdrin â darpariaeth chweched dosbarth ar wahân i ddarpariaeth gyffredinol ysgol. Roedd hyn yn destun pryder oherwydd y gallai danseilio cydlyniant a symleiddio'r neges ar gyfer darparwyr. Dywedodd Medr mai'r peth olaf yr oedd eisiau ei weld oedd diffyg dealltwriaeth o ran sut y mae fframwaith cenedlaethol yn gymwys i'r sefydliadau hyn.[658] Galwodd am i'r diffiniad gael ei ddiwygio i gynnwys addysg drydyddol, gan ddweud y byddai'n sicr yn helpu ac yn sicrhau'r eglurder sydd ei angen ar bobl.[659]

**466.** Roedd Prifysgolion Cymru yn cefnogi galwad Medr am eglurder ynghylch ei rôl. Dywedodd fod rhaid sicrhau mai Medr yw'r prif gorff ar gyfer addysg drydyddol yn y cyd-destun hwn.[660] Nododd fod darparwyr yn gorfod ymdrin â môr o reoleiddwyr.[661] Roedd hefyd eisiau mwy o eglurder ynghylch rôl Medr o'i gymharu â'r Athrofa Genedlaethol.[662] Dywedodd Estyn hefyd fod angen mwy o eglurder ynghylch rôl Medr mewn perthynas â'r Fframwaith Cenedlaethol.[663]

**467.** Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei fod yn deall mai'r bwriad polisi oedd i addysg drydyddol gael ei chynnwys o fewn cwmpas y Fframwaith Cenedlaethol (a groesawyd gan y Coleg), ond nad yw'r Bil fel y'i drafftiwyd yn darparu'n glir ar gyfer hynny. Gallai hyn arwain at golli "cyfle hollbwysig… i sicrhau fframwaith cynllunio a gweithredu strategol cyfannol a fyddai'n hwyluso llwybrau dilyniant i ddysgwyr." Roedd o'r farn y gellid datrys hyn drwy ddiwygio'r diffiniad yn adran 35 (gweler yr adran isod) i gynnwys addysg drydyddol.[664] Dywedodd mai dyma'r "un newid mwyaf arwyddocaol… a fyddai'n cryfhau popeth drwyddi draw."[665] Roedd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn cytuno bod angen i'r diffiniad gynnwys addysg drydyddol.[666]

**468.** Teimlai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol y gellid cryfhau'r Fframwaith Cenedlaethol mewn perthynas â dilyniant i addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Dywedodd y gellid diwygio adran 23(3)(e)(ii) "i gyfeirio at 'annog a chynnal dilyniant'". Dywedodd y byddai hyn yn "debygol o arwain at gynllunio strategol fyddai'n canolbwyntio ar sicrhau llwybrau dilyniant priodol."[667] Tynnodd sylw hefyd

[658] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 154
[659] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 156
[660] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 267
[661] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 324
[662] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 318
[663] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[664] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraffau 1.10-1.11
[665] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 100
[666] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 322
[667] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 1.13

at y ffaith bod "annog dilyniant yn perthyn i ieithwedd y cyfnod a fu" ac mai'r nod bellach oedd "ymbweru pob dysgwr i fedru, heb orfod mynd i chwilio am y ddarpariaeth, i gael y ddarpariaeth wedi'i chynnig iddyn nhw yn ddiofyn."[668]

**469.** Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod angen i'r Fframwaith Cenedlaethol gynnwys darpariaethau penodol ar gyfer sut y bydd nodau'r Gymraeg yn cael eu monitro mewn prentisiaethau. Gallai hyn gynnwys adolygiadau rheolaidd o sut y mae hyfforddiant Cymraeg yn cael ei ymgorffori mewn fframweithiau prentisiaeth, a sut y mae'n cyfrannu at nodau ieithyddol cyffredinol Cymru.[669]

**470.** Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn derbyn bod angen i'r Llywodraeth wneud mwy o ganlyniad i'r dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor. Dywedodd ei fod o'r farn y gellid gwneud mwy yn y Memorandwm Esboniadol. Roedd rhai pethau y gallent fod am eu gwneud yn y Bil ei hun hefyd, meddai, er mwyn nodi'n fwy eglur beth yw rolau a pherthnasoedd y prif sefydliadau ym maes addysg drydyddol ôl-16. Yn ei farn ef, roedd lle i roi mwy o eglurder yn y Memorandwm Esboniadol a rhai o'r memoranda cyd-ddealltwriaeth a fydd yn cael eu creu rhwng y cyrff newydd hyn.[670]

**471.** Cynigiodd rhai rhanddeiliaid y dylid ychwanegu ymgyngoreion statudol ychwanegol ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol:

| Ymgynghorai newydd | Awgrymwyd gan |
|---|---|
| **Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol** | Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;[671] a'r Athro Gwenno Ffrancon[672] |
| **Undebau llafur cydnabyddedig y gweithlu addysg** | NEU Cymru[673] |
| **Undebau llafur** | TUC Cymru[674] |
| **Cyngor y Gweithlu Addysg** | Cyngor y Gweithlu Addysg[675] |
| **Prifysgolion** | Yr Athro Gwenno Ffrancon[676] |

[668] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 102
[669] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 15, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (Saesneg yn unig)
[670] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 193-194
[671] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 1.12
[672] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 186
[673] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[674] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 27, TUC Cymru (Saesneg yn unig)
[675] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[676] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 186

## Cynlluniau lleol

**472.** Mae adran 28 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol lunio Cynllun Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg ("Cynllun Strategol Lleol"). Rhaid i'r Cynllun Strategol Lleol nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn hybu a hwyluso addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion; a sut y bydd yn cyflawni'r dyletswyddau a osodir arno yn y Fframwaith Cenedlaethol.

**473.** Mae adran 28(2) a (3) yn nodi'r hyn y mae rhaid i awdurdod lleol ei gynnwys yn y Cynllun Strategol Lleol. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut y bydd yn:

- Gwella'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg yn ei ysgolion.
- Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg.
- Sicrhau bod digon o ymarferwyr addysg yn gweithio yn ei ardal.
- Hybu a darparu gwybodaeth am yr addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion 'Prif Iaith – Cymraeg' a 'Dwy Iaith' yn ei ardal.
- Cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 22 o'r Bil ynghylch addysg drochi hwyr.
- Hwyluso dilyniant o ran addysgu'r Gymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng addysg feithrin ac addysg ysgol, a rhwng ysgolion ac addysg drydyddol.

Rhaid i'r Cynllun Strategol Lleol hefyd gynnwys gwybodaeth am yr ymarferwyr addysg sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol ac, yn achos cynlluniau'r dyfodol, adroddiad ar y cynnydd a wnaed ers y cynllun blaenorol.

**474.** Mae adran 28(4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r Fframwaith Cenedlaethol wrth lunio'r Cynllun Strategol Lleol. Mae hefyd yn nodi'r bobl y mae rhaid ymgynghori â hwy ar y Cynllun Strategol Lleol drafft.

**475.** Mae adran 29 yn nodi cyfnod Cynllun Strategol Lleol. Bydd pob cynllun yn para pum mlynedd ond nodir yn adran 29(2) fod rhaid i'r Cynllun nodi'r camau y bydd awdurdod lleol yn eu cymryd dros 10 mlynedd. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu, drwy reoliadau, pryd y bydd rhaid i awdurdodau lleol lunio eu Cynllun Strategol Lleol cyntaf.

**476.** Mae adran 30 yn amlinellu'r broses gymeradwyo ar gyfer y Cynllun Strategol Lleol. O dan adran 30(1), rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno Cynllun Strategol Lleol

drafft i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo. Wrth gyflwyno'r Cynllun Strategol Lleol hwn i'w gymeradwyo, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a'i ymateb yntau i'r ymgynghoriad.

**477.** Mae adran 30(3) yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru:

- Gymeradwyo'r cynllun;
- Cymeradwyo'r cynllun ag addasiadau y cytunwyd arnynt â'r awdurdod lleol; neu
- Wrthod y cynllun a rhoi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol i ailystyried y cynllun.

Os bydd Gweinidogion Cymru yn gwrthod y Cynllun Strategol Lleol, rhaid iddynt roi'r rhesymau dros hyn, a phennu erbyn pryd y mae rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno drafft diwygiedig i Weinidogion Cymru. Mae hon yn broses debyg i'r broses y mae cynlluniau cyflawni ysgolion yn ddarostyngedig iddi o dan Ran 3 o'r Bil.

**478.** Mae adran 31 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi'r Cynllun Strategol Lleol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. Rhaid iddynt hefyd ei anfon at nifer o bobl benodedig. Mae adran 31(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r Cynllun Strategol Lleol a gymeradwyir.

**479.** Mae adran 32 yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu a diwygio Cynlluniau Strategol Lleol. Rhaid i awdurdodau lleol barhau i adolygu eu Cynlluniau Strategol Lleol a'u diwygio pan fo angen. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol i ystyried diwygio ei Gynllun Strategol Lleol os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod awdurdod lleol yn annhebygol o gyflawni targed yn y Fframwaith Cenedlaethol. Mae adran 32(4) yn nodi, pan roddir cyfarwyddyd o'r fath, a bod yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio â diwygio ei Gynllun Strategol Lleol, fod rhaid iddo roi'r rhesymau i Weinidogion Cymru dros beidio â diwygio'r Cynllun. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu diwygio ei Gynllun Strategol Lleol, rhaid iddo gyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo.

**480.** Mae adran 33 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â Chynlluniau Strategol Lleol.

**481.** Mae adran 34 yn diwygio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 fel y mae'n ymwneud â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

**482.** Roedd cefnogaeth eang i'r cynigion hyn sy'n adeiladu ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol. Dywedodd Mudiad Meithrin y byddai newid ffocws y Cynlluniau Strategol Lleol yn helpu i fesur cynnydd o ran cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg.[677] Dywedodd hefyd fod y cysylltiad â'r Fframwaith Cenedlaethol i'w groesawu.[678]

**483.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod y drefn Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg bresennol yn "dechrau gweithio'n dda." Ond dywedodd fod y diffyg targedau cenedlaethol yn wendid, ac y bydd y dull diwygiedig wrth gyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol yn unioni'r drefn. Dywedodd y bydd yn "rhoi mwy o gysylltiad" rhwng Cynlluniau Strategol Lleol a'r "weledigaeth a'r uchelgais genedlaethol."[679] Tynnodd CCAC sylw hefyd at y "llinell atebolrwydd clir" gan ddweud y bydd yn helpu o ran cysondeb.[680]

**484.** Fodd bynnag, dywedodd Cymdeithas yr Iaith ei bod yn "wendid amlwg nad yw'r Bil yn disodli nac yn cryfhau'n sylweddol drefniadaeth Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg." Dywedodd fod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg "wedi profi'n aneffeithiol." Galwodd am newid y Fframwaith Cenedlaethol a'r Cynlluniau Strategol Lleol er mwyn:

> *"… iddynt ymgorffori dyletswydd i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn fwriadus ac yn barhaus. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu targedau, adnoddau a chymhelliant i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyfrannu at gyrraedd addysg Gymraeg i bawb erbyn 2050."*[681]

Dywedodd fod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar hyn o bryd yn "tueddu i fod yn adroddiadau ar y sefyllfa lle maen nhw, yn hytrach na chynlluniau gweithredu i newid a sicrhau bod yna gynnydd yn y ddarpariaeth".[682]

**485.** Pwysleisiodd NASUWT Cymru hefyd pa mor bwysig yw sicrhau bod cynlluniau'n arwain at weithredu. Dywedodd y gall cynlluniau eistedd mewn cwpwrdd heb weithio mewn gwirionedd ac mai'r elfen bwysig yw'r hyn sy'n mynd

---

[677] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 4.20
[678] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 309
[679] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 89
[680] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 133
[681] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[682] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 405

i ddigwydd ar lawr gwlad; sut y bydd y cynllun yn gweithio; sut y bydd yr awdurdodau lleol yn cysylltu â'r ysgolion a'r llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill.[683]

**486.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru fod y cyfuniad o Gynlluniau Strategol Lleol ynghyd â chynlluniau datblygu ysgolion unigol yn golygu y bydd hyn oll yn nwylo'r ysgol, ac yn seiliedig ar ymgynghori rhwng pennaeth, llywodraethwyr a chymuned yr ysgol honno, fel eu bod i gyd yn gyfrifol am hynt y gwaith, ac yn deall y daith y mae'r ysgol arni o ran y Gymraeg.[684]

**487.** Yn ei Phapur Gwyn yn 2023, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai "shifft mewn meddylfryd" i un lle byddai Gweinidogion Cymru "yn gosod nod strategol yr awdurdod lleol o ran cynllunio'r Gymraeg mewn addysg. Swyddogaeth yr awdurdod lleol fydd cynllunio a gweithredu." Cynigiodd y Papur Gwyn newid teitl y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i Gynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg i adlewyrchu'r newid hwnnw o ran meddylfryd.[685] Fodd bynnag, mae'r Bil yn cadw'r teitl Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, er bod y gair "lleol" wedi'i gynnwys. Yn y Memorandwm Esboniadol, cyfeirir atynt fel "Cynlluniau Strategol Lleol", fel y gwneir yn yr adroddiad hwn.

**488.** Roedd yr holl randdeiliaid yn fodlon ar gadw'r enw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan gytuno mai'r peth pwysicaf yw'r hyn y mae'r cynlluniau'n ei gyflawni yn hytrach na'r hyn yr ydym yn eu galw. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn cefnogi'r newid ym mhwrpas a dull gweithredu Cynlluniau Strategol Lleol, lle y mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r targedau ac awdurdodau lleol yn gyfrifol am y gwaith cynllunio a gweithredu, dywedodd CCAC:

> *"Ydw, dwi'n gefnogol i hynny. Dwi'n meddwl eto ei fod e'n sefydlu llinell atebolrwydd clir drwy wneud hynny. Mae cynghorau'n gefnogol i gyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg, ac yn credu bydd hyn yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y sector ac yn helpu cysondeb hefyd."*[686]

**489.** Er bod cefnogaeth eang i ddull y Cynlluniau Strategol Lleol, cododd sefydliadau faterion penodol.

---

[683] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 242
[684] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 277
[685] Llywodraeth Cymru, Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg (Mawrth 2023)
[686] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 133

**490.** Fel pob agwedd ar y Bil hwn, codwyd materion yn ymwneud â'r gweithlu. Dywedodd ASCL Cymru y byddai dull y Cynlluniau Strategol Lleol yn fiwrocrataidd iawn ac y byddai'r gwaith o'u gweinyddu a'u monitro yn cymryd llawer o oriau gwaith. Byddai hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau sydd eisoes yn gyfyngedig. Galwodd am i'r dull hwn gael ei ystyried fel rhan o fframwaith gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ehangach y system addysg.[687]

**491.** Tynnodd Cyngor y Gweithlu Addysg sylw at yr heriau y gallai rhai awdurdodau lleol llai eu hwynebu wrth lunio a gweithredu Cynlluniau Strategol Lleol "oherwydd llai o gapasiti o fewn eu timau addysg, allai fod hefyd wedi eu hymestyn o ganlyniad i ad-drefnu'r haen ganol."[688]

**492.** Soniwyd eto am y diffiniad o addysg Gymraeg hefyd. Dywedodd RhAG fod angen egluro'r diffiniad mewn perthynas â'r Rhan hon "fel bod Awdurdodau Lleol ddim yn esgeuluso eu cyfrifoldebau i gynyddu niferoedd mewn addysg Gymraeg drochi gyflawn."[689] (Gweler yr adran nesaf hefyd.)

**493.** Galwodd Dyfodol i'r Iaith am gysylltiadau agosach rhwng y Cynlluniau Strategol Lleol a'r rhaglen gyfalaf ar gyfer ysgolion. Dywedodd na fydd "dim twf mewn gwirionedd mewn ysgolion Cymraeg heb eich bod chi'n cydlynu'r ochr cyfalaf iddo fe."[690]

**494.** Soniwyd am fonitro'r broses o weithredu'r Cynlluniau Strategol Lleol. Roedd Cymdeithas yr Iaith yn pryderu am "ddiffyg meini prawf a ffyrdd o fonitro" awdurdodau lleol. Cynigiodd y dylai fod rôl i Estyn wrth graffu ac adrodd ar "berfformiad awdurdodau lleol a chamau ymarferol ar gyfer tyfu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg." Dywedodd fod hyn yn cael ei awgrymu fel opsiwn yn y Papur Gwyn a bod ei "hepgor… yn wendid pellach y gellid ei gywiro".[691] Er bod gan Estyn yr "hawl" i'w wneud ar hyn o bryd, yn ôl Cymdeithas yr Iaith "dyw e ddim yn digwydd". Roedd am ei weld "yn digwydd yn rheolaidd fel rhan annatod o'u gwaith nhw."[692]

**495.** Cadarnhaodd Estyn fod y pwerau hyn ganddo eisoes, a'i fod yn ystyried Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fel rhan o'i arolygiadau o awdurdodau lleol. Roedd hefyd yn ymwneud â'r gwaith o "edrych ar ansawdd y CSCAau." Dywedodd fod Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg hefyd yn

---

687 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 21 (Saesneg yn unig)
688 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
689 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.14
690 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 409
691 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
692 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 394

rhan o'r sgyrsiau y mae'n eu cael yn ystod ei "ymweliadau cyswllt gyda'r awdurdodau lleol – sy'n digwydd yn aml".[693] Roedd yn glir nad yw'n gorff rheoleiddio ac na fyddai eisiau "pwerau rheoleiddio" yn y Bil hwn. Ond dywedodd y gall ddarparu "her o fewn y system."[694] Atgoffodd Estyn y Pwyllgor hefyd am y "llythyr blynyddol" oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet "sydd yn rhoi cyfeiriad i'n gwaith ni, hefyd yn gyfle i ganolbwyntio ar agweddau" ar hyn.[695]

**496.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y penderfynwyd peidio â chynnwys y pŵer hwn yn y Bil oherwydd bod eisoes gan Weinidogion Cymru y pŵer hwnnw.

> *"… a general principle of good law making that you don't just restate powers that you already have. The Welsh Government has these powers already; we don't need to restate them. It doesn't mean that we don't intend to use them in the way that we set out in the White Paper. But, the use of the powers is not the issue, it's whether you need to take powers you've already got again in this Bill. …"*[696]

**497.** O ran cyfnod y Cynlluniau Strategol Lleol, clywsom ei bod yn bwysig bod cyfleoedd i fonitro'r cynlluniau yn "lled reolaidd", oherwydd, fel y dywedodd yr Athro Enlli Thomas "… mae pum mlynedd yn amser hir, onid ydy" ac efallai mai dyna "brofiad cyfan disgybl yn y sector uwchradd… os dydy rhywbeth ddim yn gweithio am bum mlynedd, rydym ni wedi colli nifer o siaradwyr."[697] Roedd yr Athro Gwenno Ffrancon yn cytuno, a thynnodd sylw at yr angen i sicrhau "cydbwysedd o fedru cael digon o amser i weithredu a gweld effaith a ffrwyth effaith newidiadau sy'n cael eu cyflwyno."[698]

**498.** Roedd CCAC yn teimlo bod y cylch adrodd ar gyfer y Cynlluniau Strategol Lleol yn dderbyniol, er ei fod yn wahanol i'r cyfnod amser ar gyfer cynlluniau cyflawni ysgolion, y mae eu cyfnod o dair blynedd yn rhy fyr ym marn CCAC, fel y nodir ym Mhennod 6.[699]

**499.** Roedd Mentrau Iaith Cymru yn croesawu'n "frwd" y ffaith y byddai'r Cynlluniau Strategol Lleol yn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion, ond yn galw hefyd am "ehangu'r ddyletswydd i'r tu allan i furiau'r ysgol."

---

[693] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 303-304
[694] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 306
[695] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 326
[696] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 288
[697] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 194
[698] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 195
[699] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 128

Dywedodd ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol "greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o gylch yr ysgol a hefyd darparu cyfleoedd cymunedol". Roedd yn pryderu y byddai'r system addysg yn datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion ond wedyn na fyddai mannau yn y gymuned lle gellid eu defnyddio.

> *"… dylid cynnwys cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol i gydblethu eu Strategaethau lleol gyda'u Strategaethau Hybu, sy'n ofyniad o dan Fesur y Gymraeg Cymru. …"*[700]

**500.** Roedd Dyfodol i'r Iaith hefyd am weld mwy o bwyslais yn y Cynlluniau Strategol Lleol ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd yn cytuno nad oedd digon o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Roedd hyn yn gymwys i'r Fframwaith Cenedlaethol, y Cynlluniau Strategol Lleol a chynlluniau ysgolion unigol.[701]

**501.** Clywsom awgrymiadau y dylid ychwanegu rhagor o bobl at y rhestr o ymgyngoreion statudol y mae rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â hwy pan fo'n datblygu ei Gynllun Strategol Lleol.

| Ymgynghorai newydd | Awgrymwyd gan |
|---|---|
| **RhAG** | Dyfodol i'r Iaith[702] |
| **Mentrau Iaith lleol** | Mentrau Iaith Cymru[703] |
| **Medr** | Medr[704] |
| **Sefydliadau addysg uwch lleol** | Medr[705] |
| **Undebau llafur cydnabyddedig ym maes addysg** | NEU Cymru[706] |
| **Undebau llafur** | TUC Cymru[707] |
| **Darparwyr blynyddoedd cynnar** | Blynyddoedd Cynnar Cymru[708] |

**502.** At hynny, dywedodd Medr y dylid diwygio'r Bil i sicrhau bod y Cynllun Strategol Lleol "yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer ailstrwythuro darpariaeth

700 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 4.5
701 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 392
702 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 8
703 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 4.7
704 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 3.7
705 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 3.8
706 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
707 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 27, TUC Cymru (Saesneg yn unig)
708 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 30, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Saesneg yn unig)

chweched dosbarth yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013."[709]

**503.** Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at y rôl bwysig y mae sector y blynyddoedd cynnar yn ei chwarae mewn perthynas â dewisiadau teuluoedd ynghylch addysg statudol. Dywedodd Mudiad Meithrin mai "yn y cyfnod cyn cychwyn addysg statudol y mae'r mwyafrif o deuluoedd yn gwneud penderfyniadau am gyfrwng iaith addysg ffurfiol eu plant." Dywedodd fod y targedau cyfredol yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg o ran dewisiadau addysg feithrin a derbyn yn bwysig. [710]

**504.** Dywedodd Mudiad Meithrin ei fod yn gobeithio y gallai barhau i fod yn rhan o'r "gwaith cynllunio a thrafod" y mae'n ymwneud ag ef ar hyn o bryd wrth ddatblygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Roedd hefyd yn gobeithio y bydd "y buddsoddiad angenrheidiol o ran cyfalaf, o ran refeniw, yn parhau i gael ei gynllunio mewn ffordd sydd yn hybu ac yn hyrwyddo gofal plant ac addysg gynnar cyfrwng Cymraeg."[711]

**505.** Roedd meysydd yr oedd pobl yn galw am iddynt gael eu cynnwys yn y Cynlluniau Strategol Lleol. Dywedodd Estyn y dylai gwaith ieuenctid sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol neu'n cael ei gontractio allan gan awdurdodau lleol fod o fewn cwmpas y Cynlluniau Strategol Lleol. Dywedodd fod y sector hwn yn chwarae "rôl bwysig yn addysgol ac yn gymdeithasol."[712] Roedd Cyngor y Gweithlu Addysg yn cytuno y dylid cynnwys y sector hwn yn y cynlluniau hyn.[713]

**506.** Yn sgil ein gwaith ymgysylltu, canfuwyd bod diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol. Dywedodd 82 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg nad oeddent bron byth yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, ac ni ddywedodd yr un ohonynt eu bod yn ei defnyddio bob amser, y rhan fwyaf o'r amser neu'n weddol aml.[714] Yn yr Eisteddfod ym mis Awst, pan wnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, un o'r awgrymiadau mwyaf poblogaidd oedd cyfleoedd mwy anffurfiol fel clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau. Awgrymodd

[709] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 3.7
[710] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 1.1
[711] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 306
[712] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[713] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg
[714] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), Canfyddiadau arolwg, Hydref 2024

rhywun y byddai hyn yn helpu plant i ddod i arfer â chymdeithasu yn Gymraeg, ac awgrymodd rhywun arall fod angen clybiau ieuenctid Cymraeg.[715]

**507.** Nododd y Comisiynydd Plant bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o Gynlluniau Strategol Lleol gyda theuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n symud i ardaloedd Cymraeg. Dywedodd ei bod yn "hanfodol" bod teuluoedd yn ymwybodol o fanteision addysg ddwyieithog. Meddai, "yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yw diwygio'r system bresennol a chreu cysylltiad uniongyrchol â'r targedau yn y Fframwaith Cenedlaethol. Byddai hyn yn elwa'n fawr o gynllun cyfathrebu cryf."[716]

**508.** Soniodd nifer o randdeiliaid am bwysigrwydd y cludiant sydd ar gael i ddysgwyr, gan gynnwys:

- Mudiad Meithrin[717];
- Cymdeithas yr Iaith[718];
- CYDAG[719]; a
- RhAG[720].

**509.** Gall trefniadau teithio fod yn fwy o her i ddisgyblion sydd am fynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, oherwydd y gall ysgolion o'r fath fod ymhellach i ffwrdd. Dywedodd RhAG ei bod yn "sioc" nad oedd cyfeiriad at y Mesur Teithio gan Ddysgwyr yn y Bil. Cododd bryderon fod awdurdodau lleol yn newid eu darpariaeth teithio gan ddysgwyr yn sgil heriau ariannol, a bod hynny "yn anuniongyrchol – neu'n uniongyrchol, byddwn i'n dadlau – yn effeithio ar allu plant i gyrraedd addysg cyfrwng Cymraeg."[721]

**510.** Er bod y ffocws ar deithio i'r ysgol, tynnodd rhai sylw hefyd at y ffaith nad oes unrhyw ofynion statudol ar gyfer teithio gan ddysgwyr ar gyfer plant cyn-ysgol. Roedd pryderon hefyd ynghylch teithio gan ddysgwyr o ran dewisiadau addysg ôl-16.[722]

---

[715] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Crynodeb ymgysylltu – yr Eisteddfod Genedlaethol, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 30 Medi 2024
[716] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, Comisiynydd Plant Cymru
[717] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 11.7
[718] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 06, Cymdeithas yr Iaith
[719] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 314
[720] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.2
[721] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 204-205
[722] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraffau 11.8-11.9

**511.** O ran y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… WESPs already require a reference to transport as part of the efforts to extend the availability of Welsh-medium education. I would fully expect that to continue to be part of the remit of WESPs in future, but I don't think that this is the Bill that can solve the complex issue of school transport."*[723]

## Diffiniadau

**512.** Yn adran 35, ceir diffiniadau o nifer o dermau at ddibenion Rhan 4 o'r Bil, gan gynnwys y diffiniad o addysg Gymraeg, a ddiffinnir yn yr un ffordd ag yn Rhan 3 o'r Bil (gweler yr adran ar ddiffiniadau ym Mhennod 6).

## Ein barn ni

**513.** Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r Fframwaith Cenedlaethol, roedd galwadau hefyd am fwy o eglurder, yn enwedig o ran sut y bydd yn gymwys i'r sector addysg drydyddol. Cawsom ein darbwyllo'n arbennig gan dystiolaeth y sector ar y rhan hon o'r Bil, ac rydym yn croesawu pa mor agored yw'r Ysgrifennydd Cabinet i ailystyried y materion hyn. Er bod y Bil yn canolbwyntio ar y sector ysgolion statudol, bydd addysg y blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16 yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr. Er bod cyfeiriadau at y ddau yn y Fframwaith Cenedlaethol, mae diffyg eglurder yn arbennig ar gyfer y sector addysg drydyddol. Nid yw'n glir pa rôl y bydd y sector addysg drydyddol yn ei chwarae mewn perthynas â'r Fframwaith Cenedlaethol, na beth fydd rolau penodol sefydliadau unigol, yn enwedig Medr. Daw'r pryderon hyn yn uniongyrchol gan y sefydliadau eu hunain, ac ni ddylid eu hanwybyddu. Clywsom y gallai'r diffyg eglurder arwain at weithredu'r Bil yn aneffeithiol, diffyg cydlyniant a dyblygu gwaith yn ddiangen. Galwodd Medr am i'w rôl, yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth, gael ei nodi'n glir yn y Memorandwm Esboniadol. Rydym yn cytuno. Dylai eglurhad o'r fath gyfeirio'n benodol at beth fydd ei rôl mewn perthynas â'r Gymraeg fel pwnc yn ogystal â darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl y sector addysg drydyddol er mwyn cyflawni'r Fframwaith Cenedlaethol. Wrth wneud hynny, dylai nodi pa rôl

[723] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 208

y bydd Medr yn ei chwarae. Gellid gwneud hyn ym Memorandwm Esboniadol y Bil.

**514.** Galwodd rhai am ddiwygio'r diffiniad o addysg Gymraeg yn y Rhan hon o'r Bil i gynnwys addysg drydyddol, ond nodwn fod hyn yn fwy cymhleth nag y mae'n edrych ar yr olwg gyntaf. Ar hyn o bryd, mae'r diffiniad hwn yn gymwys i'r Fframwaith Cenedlaethol ac i'r Cynlluniau Strategol Lleol. Felly, byddai newid y diffiniad at ddibenion y Fframwaith Cenedlaethol yn golygu cael dau ddiffiniad gwahanol ar gyfer y Rhan hon o'r Bil, un ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol ac un ar gyfer y Cynlluniau Strategol Lleol. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried hyn yn fanylach a rhoi gwybodaeth inni am sut yr hoffai fynd i'r afael â'r mater hwn.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir diwygio'r Bil i gynnwys addysg drydyddol yn y diffiniad o addysg Gymraeg at ddiben y Fframwaith Cenedlaethol.

**515.** Er bod Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi bod yn rhan o'r broses cynllunio addysg Gymraeg ers nifer o flynyddoedd, cymysg fu eu llwyddiant. Gwyddom fod eu hansawdd yn amrywio o un awdurdod lleol i'r nesaf. Mae unrhyw ymgais i wella cysondeb ac ansawdd i'w groesawu'n fawr. Credwn y bydd y Cynlluniau Strategol Lleol diwygiedig yn rhan hanfodol o'r strwythur a fydd yn ein helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

**516.** Rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid hynny a oedd am weld mwy o bwyslais yn y Cynlluniau Strategol Lleol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, yn enwedig y rôl y gall gwasanaethau ieuenctid a sefydliadau eraill megis yr Urdd a'r Mentrau Iaith ei chwarae. Clywsom yn uniongyrchol gan bobl ifanc mai un o'r heriau y maent yn eu hwynebu yw gallu defnyddio'r Gymraeg y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Er mwyn cyflawni'r targed, rhaid cael digon o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymuned ac i beidio â'i gweld dim ond fel iaith yr ysgol.

**Argymhelliad 10.** Bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau darpariaethau'r Bil ar Gynlluniau Strategol Lleol i sicrhau eu bod yn ystyried gwasanaethau ieuenctid a mecanweithiau eraill i annog cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

**517.** Yn rhinwedd ein swyddogaeth fel Aelodau o'r Pwyllgor, ond hefyd yn ein rolau cynrychioli yn ein hetholaethau a'n rhanbarthau, rydym yn hynod ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu plant o ran cael gafael neu geisio cael gafael ar gludiant i ddysgwyr. Rydym hefyd yn hynod ymwybodol o'r pwysau cyllidebol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu. Yn ein gwaith blaenorol, gan gynnwys ar

absenoldeb disgyblion, a mynediad plant a phobl ifanc anabl at ofal plant ac addysg, rydym wedi pwysleisio pa mor bwysig yw cael mynediad at gludiant diogel, dibynadwy a fforddiadwy i gyrraedd yr ysgol. Rydym yn ymwybodol bod hyn hefyd yn berthnasol o ran gallu dewis mynd i'r ysgol sy'n darparu addysg yn eich dewis iaith neu ieithoedd. Gwyddom fod hyn yn fater ehangach na chwmpas y Bil hwn, ac rydym yn ymwybodol y gallai Bil Bysiau Llywodraeth Cymru sydd ar ddod ddechrau helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn.

# 8. Rhan 5: Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

## Roedd cefnogaeth eang i sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Gofynnir am fwy o eglurder ynghylch perthynas yr Athrofa Genedlaethol â'r sector addysg drydyddol.

**518.** Mae Rhan 5 o'r Bil ac Atodlen 2 iddo yn sefydlu corff statudol newydd, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol ("yr Athrofa Genedlaethol").

**519.** Mae adran 36 yn sefydlu'r Athrofa Genedlaethol ac yn cyflwyno Atodlen 2. Mae'r Atodlen hon yn nodi na fydd yr Athrofa Genedlaethol yn Gorff y Goron, ac mae'n darparu ar gyfer ystod o faterion gan gynnwys aelodau, staff, gweithdrefnau a materion ariannol.

**520.** Yn adran 37(1), nodir amcan craidd yr Athrofa Genedlaethol, sef cefnogi pobl i ddysgu Cymraeg a hwyluso'u cynnydd fel bod rhagor o bobl o bob oedran yn dysgu'r iaith. Mae adran 37(2) yn gosod nifer o ddyletswyddau ar yr Athrofa Genedlaethol i gyflawni ei hamcan. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys:

- Rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol i ddarparwyr dysgu Cymraeg.
- Darparu, neu hwyluso darpariaeth, deunyddiau dysgu Cymraeg.
- Gwneud trefniadau i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg i'r gweithlu addysg, yn y gweithle ac i bobl sydd dros oedran ysgol gorfodol, yn ogystal â threfniadau i wella eu lefelau gallu yn y Gymraeg.
- Datblygu a chynnal cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer dysgu Cymraeg i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol.

Mae adran 37(3) yn rhoi'r pwerau a ganlyn i'r Athrofa Genedlaethol:

- Cydlynu a chomisiynu ymchwil ar addysgu neu ddysgu Cymraeg.
- Rhoi cyngor i unrhyw berson ar addysgu neu ddysgu Cymraeg.

- Rhoi cymorth ariannol i unrhyw ddarparwr addysg Gymraeg mewn perthynas ag addysgu neu ddysgu Cymraeg.
- Gwneud unrhyw beth arall sy'n gysylltiedig â chefnogi pobl i ddysgu Cymraeg a hwyluso'u cynnydd, os yw'n ystyried bod hynny'n briodol er mwyn cyflawni targed a osodir gan y Fframwaith Cenedlaethol.

**521.** Mae adran 38 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i roi swyddogaethau ychwanegol i'r Athrofa Genedlaethol.

**522.** Mae adran 39 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Genedlaethol hybu cyfle cyfartal wrth arfer ei swyddogaethau. Yn benodol, rhaid iddi hybu:

- Cynyddu cyfranogiad mewn dysgu Cymraeg gan bobl dros oedran ysgol gorfodol sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Cadw dysgwyr dros oedran ysgol gorfodol sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol hyd at ddiwedd cyrsiau dysgu Cymraeg.
- Lleihau unrhyw fylchau o ran cyrhaeddiad mewn dysgu Cymraeg rhwng grwpiau gwahanol o ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol pan fo'r gwahaniaethau yn codi oherwydd ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol.

**523.** Mae adran 40 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Genedlaethol, wrth arfer ei swyddogaethau, hybu arloesedd a gwelliant parhaus mewn perthynas â dysgu Cymraeg. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Genedlaethol hybu codi safonau o ran dysgu Cymraeg. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i'r Athrofa Genedlaethol roi sylw i ansawdd addysgu'r Gymraeg; datblygiad proffesiynol ar gyfer ymarferwyr addysgol a barn dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol.

**524.** Mae adran 41 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Genedlaethol, wrth arfer ei swyddogaethau, hybu cydlafurio rhwng darparwyr dysgu Cymraeg; yn ogystal â rhwng darparwyr o'r fath ac ysgolion; darparwyr addysg drydyddol eraill; a chyflogwyr yng Nghymru.

**525.** Mae adran 42 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Genedlaethol, wrth arfer ei swyddogaethau, hybu cydlyniant o ran y ddarpariaeth dysgu Cymraeg i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol, a hybu rhannu arfer orau mewn perthynas â dulliau addysgu a throsglwyddo'r Gymraeg i'r rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol.

**526.** Mae adran 43 yn darparu y bydd yr Athrofa Genedlaethol yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg.

**527.** Mae adran 44 yn rhoi dyletswydd ar yr Athrofa Genedlaethol i lunio cynllun strategol. Mae adran 44(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Genedlaethol nodi sut y bydd yn arfer ei swyddogaethau er mwyn cyflawni ei hamcan, a sut y bydd yn gwneud hyn yn unol â'r dyletswyddau a roddir iddi o dan adrannau 39 i 42.

**528.** Mae adran 44(4) yn nodi bod rhaid i'r Athrofa Genedlaethol gyflwyno'r cynllun strategol i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo o leiaf dri mis cyn dechrau'r cyfnod cynllunio y mae'n ymwneud ag ef. Caiff Gweinidogion Cymru, o dan adran 44(5), gymeradwyo'r cynllun strategol yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau y cytunir arnynt â'r Athrofa Genedlaethol.

**529.** Mae adran 44(6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Genedlaethol gyhoeddi'r cynllun strategol ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. Mae adran 44(7) yn galluogi'r Athrofa Genedlaethol i adolygu'r cynllun strategol, a rhaid cyflwyno'r cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

**530.** Mae adran 45 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Genedlaethol lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Rhaid anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru, ac mae rhaid iddynt hwythau wedyn osod copi ohono gerbron y Senedd.

**531.** Roedd cefnogaeth eang ymhlith rhanddeiliaid i sefydlu'r Athrofa Genedlaethol. Yn eu plith, roedd:

- ASCL Cymru[724];l
- CCAC ac CLlLC[725];
- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig[726];
- y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[727];
- CYDAG[728];
- Dyfodol i'r Iaith[729];
- Cyngor y Gweithlu Addysg[730];

[724] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 10, ASCL Cymru, paragraff 22 (Saesneg yn unig)
[725] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC
[726] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 22, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig)
[727] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 1.14
[728] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 32, CYDAG, paragraff 1.6.1
[729] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 01, Dyfodol i'r Iaith, paragraff 37
[730] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 23, Cyngor y Gweithlu Addysg

- Estyn[731];
- Mentrau Iaith Cymru[732];
- Mudiad Meithrin[733];
- y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol[734];
- NEU Cymru[735];
- yr Athro Enlli Thomas[736];
- Cymwysterau Cymru[737];
- RhAG[738]; ac
- UCAC[739].

**532.** Credai Estyn fod gan y corff newydd y potensial i fod yn “yn bwerdy i ledaenu arferion da, codi disgwyliadau pob sector a chysoni’r hyn sy’n digwydd ar draws sectorau addysg statudol ac mewn gwirionedd anstatudol”.[740] Dywedodd RhAG fod “cyfle gwirioneddol yma i greu corff o awdurdod”.[741]

**533.** Dywedodd CCAC y byddai’n darparu:

> *“… y cysondeb cenedlaethol yna; mae pawb yn cael yr un un cyfle, os ydyn nhw ym Mlaenau Gwent neu yn Ynys Môn, ac mae’n sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau yn gallu troi at arbenigwyr o safon uchel iawn, a hefyd yn rhan annatod o ymateb i flaenoriaethau ysgol, megis uwchsgilio staff.”*[742]

[731] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[732] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 05, Mentrau Iaith Cymru, paragraff 5.1
[733] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 5.3
[734] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.2
[735] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[736] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 02, yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor
[737] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 341
[738] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.16
[739] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.10
[740] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[741] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.17
[742] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 136

**534.** Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol[743] y byddai'r Athrofa Genedlaethol yn "ateb hir-dymor sy'n cynnig sefydlogrwydd i'r sector."[744] Dywedodd fod y dull presennol o gynnal prosesau tendro rheolaidd yn ei gwneud yn "anodd i gynllunio'n hirdymor a gweithredu o fewn cyfnodau caffael" a'i fod yn gallu bod "yn rhwystr… i allu edrych i'r dyfodol a chynllunio fel sydd ei angen."[745] Roedd hefyd yn croesawu'r pwerau yn y Bil i roi dyletswyddau ychwanegol i'r Athrofa Genedlaethol gan y bydd hyn yn "sicrhau bod y sefydliad yn gallu addasu, esblygu ac ymateb i'r hyn sydd ei angen wrth weithredu'r Bil."[746]

**535.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet nod yr Athrofa Genedlaethol:

> *"… to make sure that, at the delivery end, there is a body whose primary focus is on doing the things that we've talked about so far today: supporting the workforce, improving its skills, giving advice to parts of the system where we can see that the system is maybe struggling to achieve all the things that we want it to achieve and does so in an authoritative way. That's what the institute is designed to do."*[747]

**536.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru y bydd yr Athrofa Genedlaethol yn ganolfan ragoriaeth ac yn bwerdy i sicrhau bod gan Gymru y gwaith ymchwil gorau, yr arfer addysgegol gorau, a'r ddealltwriaeth orau o ystyr trawsieithu. Dywedodd y gallai Cymru arwain o ran arfer gorau.[748]

**537.** Er bod cefnogaeth eang ymhlith rhanddeiliaid i sefydlu'r Athrofa Genedlaethol, nodwyd nifer o faterion yn ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i'r Athrofa Genedlaethol. Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fod gwaith y Ganolfan wedi "gosod y sail" i'r Athrofa Genedlaethol.[749] Ond nododd hefyd ei bod yn bwysig nad yw sefydlu'r Athrofa Genedlaethol yn "ansefydlogi" gwaith y Ganolfan Genedlaethol hyd yma.[750]

---

743 Bydd yr Athrofa Genedlaethol yn ymgymryd â swyddogaethau presennol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sydd ar hyn o bryd yn cefnogi'r rhai dros oedran ysgol gorfodol i ddysgu Cymraeg. Fel y nodir yn y Bil, bydd hefyd yn cael cyfrifoldebau ychwanegol.
744 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.2
745 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 18
746 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 4.2
747 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 326
748 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 328
749 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.2
750 Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 5.2

**538.** Dywedodd UCAC fod angen "edrych yn drylwyr ar yr hyn sydd eisoes wedi ei gyflawni, gan fod yn barod i werthuso yn feirniadol a gonest, er mwyn camu ymlaen yn y ffordd fwyaf effeithiol a mwyaf priodol ar gyfer y dyfodol."[751]

**539.** Nododd Mudiad Meithrin ei bod yn bwysig peidio â cholli'r arbenigedd sydd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.[752] Galwodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am barhad ei waith gyda Mudiad Meithrin a Cwlwm i ddatblygu sgiliau gweithlu'r blynyddoedd cynnar, er mwyn "sicrhau bod y continwwm yn weithredol ar gyfer pob unigolyn o'r crud i'r bedd."[753] Holodd Blynyddoedd Cynnar Cymru a fyddai sector y blynyddoedd cynnar yn dod o dan gylch gwaith yr Athrofa Genedlaethol.[754]

**540.** Yn benodol, clywsom am y partneriaethau y mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi'u meithrin rhwng Mudiad Meithrin a sectorau eraill, megis sefydliadau addysg uwch, colegau addysg bellach a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Nododd Mudiad Meithrin ei obaith "y bydd yr Athrofa yn hwyluso adeiladu ar y partneriaethau" hyn.[755] Nododd RhAG hefyd bwysigrwydd y gwaith partneriaeth presennol.[756]

**541.** Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ei bod wedi "sefydlu partneriaethau cryf" sydd wedi cefnogi cydweithio a lleihau dyblygu. Cyfeiriodd at y memoranda cyd-ddealltwriaeth sydd ganddi â gwahanol sefydliadau gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Mudiad Meithrin, a'r trafodaethau y mae'n eu cael ar hyn o bryd gyda Medr. Dywedodd ei bod yn bwysig bod y Bil yn sefydlu "pwy ydy'r prif bartneriaid, yn bendant, beth ydy swyddogaethau pawb sy'n cyfrannu at amcanion y Bil" ac y bydd hyn yn cefnogi'r Athrofa i gyflawni ei hamcanion.[757]

**542.** Cadarnhaodd Medr ei fod wedi cael sgyrsiau adeiladol iawn â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd yn gobeithio y byddai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn rhoi eglurder i'w ddarparwyr o ran sut y bydd y ddau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd.[758]

**543.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai dull gweithredu'r Athrofa Genedlaethol fydd adeiladu ar lwyddiannau'r sector dros y blynyddoedd. Nododd

[751] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 2.10
[752] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 5.4
[753] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.9
[754] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 30, Blynyddoedd Cynnar Cymru (Saesneg yn unig)
[755] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 04, Mudiad Meithrin, paragraff 5.10
[756] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.16
[757] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 24
[758] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 132

fod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gorff a gomisiynir gyda phrosesau tendro rheolaidd. Dywedodd nad oedd erioed wedi bod yn gyfforddus â'r broses hon oherwydd y risg o golli profiad ac arbenigedd sydd wedi cronni dros gyfnod o saith mlynedd. Bydd yr Athrofa Genedlaethol yn osgoi hynny ac yn rhoi mwy o sefydlogrwydd o ran cyngor i'r sector.[759] Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd cael arbenigedd yr Athrofa Genedlaethol dros y tymor hir yn golygu y caiff effaith fwy arwyddocaol. Cymharodd hynny â'r drefn saith mlynedd bresennol, lle, meddai, erbyn i chi gyrraedd y bumed flwyddyn, eich bod yn poeni am orfod tendro eto am y gwaith yr ydych yn ei wneud.[760]

**544.** Soniodd nifer o randdeiliaid am ba mor bwysig yw sicrhau eglurder ynghylch rôl yr Athrofa Genedlaethol, yr hyn a ddisgwylir ganddi, a sut y bydd yn gweithio gyda sefydliadau eraill gan gynnwys ColegauCymru[761], RhAG[762] ac UCAC.[763] Dywedodd Estyn ei bod yn bwysig "bod rolau a chyfrifoldebau yn cael eu nodi'n glir gan ddangos sut mae'r Athrofa yn cyd-blethu gydag unrhyw gyrff perthnasol eraill."[764] Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol y bydd sefydlu'r Athrofa Genedlaethol gyda "dyletswyddau penodol" yn fodd o fynd i'r afael â phryderon am ddyblygu gwaith.[765]

**545.** Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fod "cydweithio'n effeithiol" gyda phartneriaid yn "hanfodol er mwyn creu gwell dilyniant, profiad a deilliannau i'r dysgwyr". Dywedodd y byddai gan yr Athrofa Genedlaethol "le penodol i arwain ar nifer o'r trafodaethau partneriaethol".[766]

**546.** Dywedodd CCAC ac CLlLC y byddai rhai awdurdodau lleol "hefyd yn croesawu mwy o wybodaeth am rôl a chyfrifoldebau'r Athrofa newydd a'i berthynas â chyrff cyhoeddus eraill sydd eisoes yn gweithredu yn y maes." Yn benodol, roeddent yn meddwl bod rhywfaint o waith a allai orgyffwrdd â chyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg, megis comisiynu ymchwil neu roi cyngor. Gwnaethant ofyn hefyd sut y byddai cyfrifoldeb yr Athrofa Genedlaethol ynghylch gwelliant parhaus "yn cyd-fynd â gwaith Estyn".[767]

---

[759] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 327
[760] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 334
[761] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 20, ColegauCymru
[762] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.16
[763] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 3.2
[764] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 11, Estyn
[765] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 5.3
[766] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.11
[767] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 12, CCAC ac CLlLC

**547.** Gofynnodd y Comisiynydd Plant am eglurder ynghylch y berthynas rhwng yr Athrofa Genedlaethol a Chomisiynydd y Gymraeg. Gofynnodd hefyd a oedd "perygl yma o ddyblygu gwaith y consortia addysg sy'n cefnogi ysgolion".[768]

**548.** Un thema a godwyd yn aml gan randdeiliaid oedd y berthynas rhwng yr Athrofa Genedlaethol a'r sector addysg drydyddol. Tynnwyd sylw at hyn gan ColegauCymru,[769] yr Athro Gwenno Ffrancon[770] a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.[771] Dywedodd RhAG:

> *"Mae angen eglurder pellach hefyd ar y gwahaniaeth - os oes yna, rhwng swyddogaeth yr Athrofa wrth ddarparu ar gyfer addysg gydol oes ac addysg ôl 16 mewn ysgolion. Cyfeirir yn aml yn y Bil at addysg statudol, sydd yng Nghymru'n dod i ben yn 16 oed. Beth wedyn? Mae cyfrifoldeb ariannu addysg ôl 16 mewn ysgolion yn parhau'n niwlog."*[772]

**549.** Dywedodd yr Athro Gwenno Ffrancon mai'r maes hwn oedd "prif amwysedd y Bil." Mae'r maes hwn yn "allwedd ar gyfer cyflawni rhai o'r sgiliau" hynny o ran y Gymraeg. Galwodd am "ymgynghoriadau gyda'r prifysgolion ac ysgolion addysg y prifysgolion hynny, a hefyd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol".[773]

**550.** Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol nad yw'r Bil:

> *"... yn datgan yn glir a yw addysg drydyddol yn dod yng nghwmpas y fframwaith cenedlaethol neu beidio, ac, wrth addysg drydyddol, dwi'n diffinio hynny yn y modd y mae'n cael ei ddiffinio yn Neddf 2022, yn cynnwys prifysgolion, colegau, chweched dosbarth mewn ysgolion, darparwyr prentisiaethau, dysgu gydol oes. Mae modd darllen y Bil fel y mae ar hyn o bryd y naill ffordd neu'r llall. Mae yna gyfeiriadau anuniongyrchol at addysg drydyddol mewn perthynas ag annog dilyniant mewn perthynas â dysgu Cymraeg, ond dyw hynny ddim yn sicrhau eglurder."*[774]

[768] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 24, Comisiynydd Plant Cymru
[769] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 20, ColegauCymru
[770] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 205
[771] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.6
[772] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 14, RhAG, paragraff 3.16
[773] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 205
[774] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 26

Dywedodd y byddai mynd i'r afael â'r diffyg eglurder hwn yn "cryfhau'r Bil yn sylweddol, achos rŷn ni'n deall mai'r bwriad ydy bod addysg drydyddol oddi fewn i'r cwmpas."[775]

**551.** Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol y bydd rhaid i'r Athrofa Genedlaethol gydweithio â Medr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau y gall pobl ifanc gael mynediad at ddarpariaeth dysgu Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol, ac i ddatblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle.[776]

**552.** Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw'n benodol at berthynas yr Athrofa Genedlaethol â Medr. Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y byddai diwygio'r diffiniad o addysg Gymraeg yn Rhan 4 o'r Bil yn mynd i'r afael â'r materion o ran gwahanol gylchoedd gwaith y gwahanol sefydliadau "ac yn gosod sail ar gyfer cydweithio effeithiol rhwng Medr, y Coleg a'r Athrofa."[777] Roedd Medr yn cytuno bod angen diwygio'r diffiniad.

> *"… mae'r diffyg cyfeiriad at rôl Medr a rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ochr yn ochr â diffyg diffiniadau pellach ar gyfer dysgu Cymraeg a darparwyr dysgu Cymraeg, yn creu potensial pellach ar gyfer amwysedd. Rydym yn deall bod y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn cyfeirio at ddysgu Cymraeg yn y rhan hon o'r Bil dim ond fel dysgu i wella sgiliau Cymraeg yn y sector addysg drydyddol. Ein hargymhelliad ni yw y byddai rhoi diffiniadau clir i egluro hyn mewn deddfwriaeth a rolau Medr, yr Athrofa a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y memorandwm esboniadol, yn darparu cyd-destun defnyddiol i fframio'r dyletswyddau statudol newydd ar gyfer yr Athrofa."*[778]

**553.** Galwodd Medr am eglurder ynghylch sut y bydd yr Athrofa Genedlaethol yn "gweithredu mewn addysg drydyddol ochr yn ochr â Medr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol"[779], yn ogystal â sut y mae "Llywodraeth Cymru, yr Athrofa, Medr ac Estyn… yn gweithredu yn y cyd-destun hwnnw".[780] Tynnodd sylw'n benodol at rôl

[775] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 29
[776] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 2.6
[777] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 16, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, paragraff 1.15
[778] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 3.10
[779] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 2.3
[780] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 3.11

chweched dosbarth mewn ysgolion yn y maes hwn, yn enwedig yng nghyd-destun dull gweithredu system ysgol gyfan.[781]

**554.** Soniodd Medr am sut y gallai diffyg eglurder effeithio ar ddarparwyr addysg drydyddol. Bydd gan yr Athrofa Genedlaethol bwerau mewn perthynas â "chyfle cyfartal, gwella'n barhaus, a phennu fframweithiau ansawdd" tra bo gan Medr hefyd bwerau yn y meysydd hyn, felly mae risg o bosibl "y gallai fod baich ychwanegol ar ddarparwyr os nad yw'r gofynion a osodir gan yr Athrofa a Medr yn cyd-fynd â'i gilydd." Galwodd naill ai am osod dyletswydd ar yr Athrofa Genedlaethol yn y Bil, neu drwy "ddisgwyliadau ynghylch ffyrdd o weithio, yn y memorandwm esboniadol" i'r Athrofa Genedlaethol "ystyried y gofynion a bennir gan Medr ar gyfer darparwyr addysg drydyddol wrth gyflawni eu dyletswyddau yn adrannau 39 a 40 y Bil."[782]

**555.** Pwysleisiodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Prifysgolion Cymru[783] y rôl bwysig y mae Medr yn ei chwarae yn eu sectorau, a'r ffaith mai Medr yw'r corff y maent yn troi ato.[784]

**556.** Atgoffodd Medr ni mai'r nod wrth sefydlu'r corff hwnnw oedd sicrhau cydlyniant, a cheisio symleiddio prosesau, a hynny ar gyfer dysgwyr ond hefyd darparwyr. Nid oeddent, felly, am weld mwy o faich gweinyddol yn cael ei roi ar ddarparwyr oherwydd bod dau sefydliad gwahanol yn gweithio yn yr un maes. Nododd yn glir ei farn y byddai'r gwaith o oruchwylio'r Gymraeg fel pwnc mewn addysg drydyddol hefyd yn parhau o dan ofal Medr.[785]

**557.** Tynnodd Medr sylw at y berthynas sydd ganddo â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a dywedodd fod trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd ynghylch sut y gallant "ddarparu eglurder i'r sector addysg drydyddol." Dywedodd:

> *"Byddwn yn gweithio'n agos i sicrhau: nad oes unrhyw ddyblygu o ran ein cyllid gyda'i ddyraniadau; nid oes unrhyw faich gweinyddol ychwanegol ar ddarparwyr rhwng ein ceisiadau a cheisiadau'r Sefydliad am ddata; bod gwybodaeth yn cael ei rhannu i alluogi Medr a'r Sefydliad i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth; ac mae darparwyr addysg drydyddol yn*

[781] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 136
[782] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 3.12
[783] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 346
[784] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 344
[785] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 133-134

*gweithio gyda'r Athrofa i gefnogi dysgwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg."*[786]

**558.** Credai Medr y byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai priod rolau y ddau gorff yn cael eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol er mwyn rhoi eglurder i ddarparwyr ynghylch rolau'r ddau sefydliad.[787] Roedd yn croesawu'r ffaith bod Medr yn ymgynghorai statudol ar gynllun strategol yr Athrofa Genedlaethol, ond dywedodd:

> *"… we feel that ensuring the institute takes account of Medr's functions and requirements for tertiary education providers in developing its strategic plan would further address some of the potential issues and the risk of overlap."*[788]

**559.** Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn glir ynghylch y gwahaniaethau rhwng Medr a'r Athrofa Genedlaethol. Dywedodd fod Medr yn ymwneud ag addysg drydyddol ac addysg i'r rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol tra y bydd gan yr Athrofa Genedlaethol rychwant gydol oes. Dywedodd y bydd yr Athrofa Genedlaethol yn creu cysondeb rhwng plentyn tair oed a pherson 103 oed sydd eisiau gwella eu gallu yn yr iaith.[789]

**560.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn "agored" i edrych ar sut y gellid darparu mwy o eglurder, naill ai yn y Bil "ond mae'n fwy tebygol yn yr EM" o ran y berthynas rhwng yr Athrofa Genedlaethol a Medr:

> *"… dŷn ni ddim eisiau eu gweld nhw'n gwastraffu adnoddau neu amser drwy drio gwneud pethau ar wahân, so mae mwy o waith y gallwn ni ei wneud i roi mwy o fanylion am sut y gallwn ni fod yn glir. Beth rŷn ni eisiau ei weld yw dau gorff yn cydweithio, ac i gael yr effaith fwyaf drwy hynny, nid yn mynd yn erbyn ei gilydd.*
>
> *… there's more we can do,… I think, to work on that and to provide more information… to make sure that these are joint efforts, using their resources to the best possible effect, not*

[786] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 3.9
[787] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 137
[788] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 138
[789] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 321

*where there's any sense of competition or treading on one another's toes."*[790]

**561.** Soniodd Comisiynydd y Gymraeg am bwysigrwydd sicrhau bod "cysylltiad llawer cryfach" rhwng y gefnogaeth a gynigir gan yr Athrofa Genedlaethol a strategaethau a chynlluniau ar lefel genedlaethol, ar lefel leol ac ar lefel ysgol. Dywedodd y dylai'r adnoddau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi ysgolion "i symud ar hyd y continwwm ieithyddol" gael eu "blaenoriaethu ar sail strategol ac ar sail y cynllunio cenedlaethol, lleol a lefel ysgol."[791]

**562.** Roedd rhai yn pryderu a gâi'r Athrofa Genedlaethol lefel ddigonol o gyllid i gyflawni ei hamcanion. Yn eu plith, roedd Cymdeithas yr Iaith[792] ac UCAC.[793] Nododd UCAC y byddai'r Athrofa Genedlaethol yn "sefydliad ehangach ei ddyletswyddau" na'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a galwodd am "fwy o eglurder" o ran ei chyllideb.[794] Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fod rhaid i'r gyllideb gefnogi gwaith ar yr un raddfa ag y mae'n ei ddarparu ar hyn o bryd ac ar yr un pryd ganiatáu ar gyfer ehangu cylch gorchwyl yr Athrofa Genedlaethol.[795] Dywedodd ColegauCymru y byddai effeithiolrwydd yr Athrofa yn "dibynnu ar gyllid ac adnoddau digonol,"[796] ac roedd CBAC yn cytuno â'r farn honno.[797]

**563.** Galwodd Cymdeithas yr Iaith am osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i "ariannu'r athrofa newydd yn ddigonol".[798]

**564.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg, er bod y Memorandwm Esboniadol yn "trafod" cyllideb yr Athrofa Genedlaethol, "nid oes yma lawer o eglurder ynghylch beth yn union fydd hyd a lled y disgwyliadau ar yr Athrofa yn y cyd-destun hwn, nac ychwaith faint o gyllid fydd ar gael er mwyn cyflawni hyn." Nododd nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn "cynnwys costau rhaglenni'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ar hyn o bryd, sy'n cynnwys y dyraniadau cyllid hollbwysig i ddarparwyr cyrsiau hyfforddiant dysgu'r iaith Gymraeg i oedolion."[799] Cydnabu ei bod yn anodd darparu ffigurau pendant oherwydd y newidiadau presennol i "haen ganol"

[790] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 218-219
[791] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 2.5
[792] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 412
[793] Written evidence, WLE 09, UCAC, paragraph 2.10
[794] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 09, UCAC, paragraff 5.4
[795] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 17, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, paragraff 6.1
[796] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 20, ColegauCymru
[797] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 339
[798] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 414
[799] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 5.1

o gymorth addysg.[800] Yn y pen draw, dywedodd y byddai angen buddsoddiad ychwanegol i ehangu'r arlwy dysgu iaith i'r gweithlu addysgol.[801]

**565.** Dywedodd RhAG ei bod yn bwysig peidio â "gorlwytho" na "rhoi gormod o bwysau" ar yr Athrofa Genedlaethol. Dywedodd fod rhaid i'r Athrofa Genedlaethol fod yn "gorff cydnabyddedig, awdurdodedig sy'n cael ei gydnabod fel corff sydd yn gwella sgiliau Cymraeg ar gyfer pob sector yng Nghymru."[802]

**566.** Galwodd Medr am ddiwygio'r Bil i roi dyletswydd ar yr Athrofa Genedlaethol i ymgysylltu â dysgwyr. Dywedodd y byddai hynny'n sicrhau bod y corff yn cydymffurfio â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, a'r "egwyddor bod dysgwyr yn ganolog i'r system addysg drydyddol yng Nghymru."[803] Cydnabu y gallai arwain at orgyffwrdd:

> *"We do recognise that this potentially provides another overlap, but, in our view, this is really helpful for ensuring coherence and keeping the learner at the heart of the system. … But the opportunity for collaborative working and joint promotion of our respective duties within this space is a really strong place for us to be in."*[804]

**567.** Galwodd NEU Cymru am ychwanegu undebau llafur cydnabyddedig y gweithlu addysg fel ymgynghorai statudol ar gyfer cynllun strategol yr Athrofa Genedlaethol.[805] Awgrymodd Prifysgolion Cymru hefyd y dylid ystyried cynnwys Prifysgolion Cymru fel ymgynghorai statudol o ystyried ei fod yn gyfrifol am feysydd sydd y tu allan i gwmpas Medr.[806]

## Ein barn ni

**568.** Mae'r Athrofa Genedlaethol yn ddatblygiad addawol, a fydd yn adeiladu ar waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol bresennol. Bydd yn chwarae rhan bwysig wrth gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn ogystal â chefnogi gweithrediad y Bil.

---

[800] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 102
[801] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 07, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 5.2
[802] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 207
[803] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 18, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), paragraff 3.13
[804] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 139
[805] Tystiolaeth ysgrifenedig, WLE 21, NEU Cymru (Saesneg yn unig)
[806] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 346

**569.** Fel y nododd Medr, bydd yr Athrofa Genedlaethol yn ymuno â thirlun cymhleth o sefydliadau yn y sector ôl-16. (Er nad yw cylch gwaith yr Athrofa Genedlaethol wedi'i gyfyngu i'r sector ôl-16 yn unig.) Dyna pam y mae'n gwbl hanfodol bod eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd yr holl sefydliadau gwahanol hyn. Mae'n berthnasol hefyd i'r materion ynghylch y Fframwaith Cenedlaethol a drafodwyd yn y Bennod flaenorol.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ynghylch rôl yr Athrofa Genedlaethol yng nghyd-destun y sector addysg drydyddol ehangach, yn enwedig sut y bydd rolau Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Athrofa Genedlaethol yn rhyngweithio.

**570.** Nododd Estyn y gall rôl chweched dosbarth ysgolion fod yn arbennig o gymhleth yn y sector ehangach, gan eu bod yn rhan o ysgol, ond eto'n rhan o'r sector trydyddol, ac yn dod o dan gylch gorchwyl Medr. Mae'n bwysig inni beidio ag anghofio'r rhan benodol hon o ddarpariaeth addysg Gymraeg.

**571.** Nodwn y pryderon a godwyd ynghylch y disgwyliadau a roddir ar yr Athrofa Genedlaethol a chyllid arfaethedig. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y pryderon hyn ac yn sicrhau y caiff yr Athrofa Genedlaethol gyllid digonol.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a chyfeiriad |
|---|---|
| **19 Medi 2024** | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**<br>**Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymraeg 2050,** Llywodraeth Cymru<br>**Iwan Roberts, Uwch-gyfreithiwr,** Llywodraeth Cymru |
| **26 Medi 2024** | **Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg**<br>**Yr Athro Enlli Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor a Phennaeth Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol,** Prifysgol Bangor<br>**Yr Athro Gwenno Ffrancon, Dirprwy Is-Ganghellor y Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant a Chyfarwyddwr Academi Hywel Teifi,** Prifysgol Abertawe<br>**Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr,** Mudiad Meithrin<br>**Angharad Morgan, Rheolwr Polisi,** Mudiad Meithrin<br>**Dr Gwennan Schiavone, Prif Swyddog Gweithredol,** Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG)<br>**Toni Schiavone, Cadeirydd,** Grŵp Addysg Cymdeithas yr Iaith<br>**Osian Rhys, Aelod,** Grŵp Addysg Cymdeithas yr Iaith<br>**Heini Gruffudd, Cadeirydd,** Dyfodol i'r Iaith<br>**Myfanwy Jones, Cyfarwyddwr,** Mentrau Iaith Cymru |

| Dyddiad | Enw a chyfeiriad |
|---|---|
| **2 Hydref 2024** | **Claire Armitstead, Cyfarwyddwr,**<br>Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru)<br>**Julian Kennedy, Pennaeth, Ysgol Gyfun Olchfa, Abertawe,**<br>Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru)<br>**Chris Parry, Llywydd,**<br>Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru<br>**Laura Doel, Ysgrifennydd Cenedlaethol Cymru,**<br>Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru<br>**Nicola Fitzpatrick, Ysgrifennydd Dros Dro Cymru,**<br>Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru<br>**Mairead Canavan, Aelod Gweithredol dros Gymru ac Ysgrifennydd Rhanbarth Bro Morgannwg**<br>Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru<br>**Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol,**<br>Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)<br>**Urtha Felda, Swyddog Polisi a Gwaith Achos,**<br>Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau<br>**Jonathan Cooper, Cyfarwyddwr Cynorthwyol,**<br>Estyn<br>**Mererid Wyn Williams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol/Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol,**<br>Estyn |
| **9 Hydref 2024** | **Marc Berw Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Cyngor Sir Ynys Môn,**<br>Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>**Y Cynghorydd Sue Edmunds, Aelod Cabinet Pobl ac Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Elin Maher, Cyfarwyddwr Cenedlaethol,**<br>Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)<br>**Hayden Llewellyn, Prif Weithredwr,**<br>Cyngor y Gweithlu Addysg<br>**Eithne Hughes, Cadeirydd y Cyngor,**<br>Cyngor y Gweithlu Addysg<br>**Philip Blaker, Prif Weithredwr,**<br>Cymwysterau Cymru<br>**Richard Harry, Cyfarwyddwr Gweithredol,**<br>Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) |

| Dyddiad | Enw a chyfeiriad |
|---|---|
| | **Ian Morgan, Prif Weithredwr,**<br>Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) |
| **17 Hydref 2024** | **Dona Lewis, Prif Weithredwr,**<br>y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br>**Meinir Ebbsworth, Cyfarwyddwr Strategol,**<br>y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br>**Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr,**<br>Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>**Rebecca Williams, Uwch-reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio Gweithlu,**<br>Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>**Rhian Edwards, Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi,**<br>Medr (Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)<br>**Jonathan Morgan, Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg y Cymoedd**<br>ColegauCymru,<br>**Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr,**<br>Prifysgolion Cymru<br>**Lisa Mytton, Cyfarwyddwr Strategol,**<br>Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| **24 Hydref 2024** | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**<br>**Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymraeg 2050,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Sioned Tobias, Cyfreithiwr,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol i'w gweld ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeiriad | Sefydliad |
|---|---|
| **WLE 01** | Dyfodol i'r Iaith |
| **WLE 02** | Yr Athro Enlli Thomas FHEA, FLSW, Prifysgol Bangor |
| **WLE 03** | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau |
| **WLE 04** | Mudiad Meithrin |
| **WLE 05** | Mentrau Iaith Cymru |
| **WLE 06** | Cymdeithas yr Iaith |
| **WLE 06b** | Cymdeithas yr Iaith |
| **WLE 07** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **WLE 08** | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru |
| **WLE 09** | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |
| **WLE 10** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru |
| **WLE 11** | Estyn |
| **WLE 12** | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| **WLE 13** | Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) |
| **WLE 14** | Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) |
| **WLE 15** | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| **WLE 16** | Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| **WLE 17** | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol |
| **WLE 18** | Medr (Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) |
| **WLE 19** | Addysg Plant y Lluoedd Arfog, Cyngor Sir Caerfyrddin |

| Cyfeiriad | Sefydliad |
|---|---|
| **WLE 20** | ColegauCymru |
| **WLE 21** | Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru |
| **WLE 22** | Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig |
| **WLE 23** | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| **WLE 24** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **WLE 25** | Golingo |
| **WLE 26** | Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs |
| **WLE 27** | TUC Cymru |
| **WLE 28** | Canolfan Bedwyr, Bangor Prifysgol |
| **WLE 29** | Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar |
| **WLE 30** | Blynyddoedd Cynnar Cymru |
| **WLE 31** | Cyngor Abertawe |
| **WLE 32** | CYDAG |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Mudiad Meithrin | 7 Hydref 2024 |
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru) | 7 Hydref 2024 |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru | 8 Hydref 2024 |
| Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau | 10 Hydref 2024 |
| Estyn | 17 Hydref 2024 |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | 17 Hydref 2024 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 23 Hydref 2024 |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | 30 Hydref 2024 |